agic hiw | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Blynyddol

## 2020 - 2021



# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru.

Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da.**

Ein gwerthoedd

**Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn.**

Rydym yn:

**Annibynnol**

**Gwrthrychol**

**Gofalgar**

**Cydweithredol**

**Awdurdodol**



## Nod

# Annog gwelliant ym maes gofal iechyd drwy wneud y gwaith iawn ar yr adeg iawn yn y lle iawn; gan sicrhau bod yr hyn a wnawn yn cael ei gyfleu'n dda ac yn gwneud gwahaniaeth.

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

### Rhoi sicrwydd

**Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal.**

### Hybu gwelliant

**Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da.**

### Dylanwadu ar bolisi a safonau

**Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.**



## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 01 | Rhagair | 05 |
| 02 | 2020-2021 mewn Ffigurau | 08 |
| 03 | Ymgysylltu â Chleifion, y Cyhoedd a Staff | 14 |
| 04 | Ein Gwaith | 19 |
| 05 | Gweithio gydag Eraill | 23 |
| 06 | Adolygiadau Cenedlaethol | 27 |
| 07 | Canfyddiadau Arolygiadau | 32 |
| 08 | Byrddau Iechyd y GIG ac Ymddiriedolaethau'r GIG | 56 |
| 09 | Ein Hadnoddau | 77 |
| 10 | Matrics Ymrwymiad | 80 |
| 11 | Strategaeth 'Gwneud Gwahaniaeth' 2018-2021 – Myfyrio ar ein Cynnydd | 91 |

01.

# Rhagair



# Rhagair



Alun Jones
Prif Weithredwr Dros Dro

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol hwn sy'n trafod ein gwaith a'n canfyddiadau ar gyfer 2020-2021 ac yn crynhoi'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein strategaeth tair blynedd "Gwneud Gwahaniaeth" a ddaeth i ben ym mis Mawrth eleni.

Gyda dyfodiad pandemig COVID-19, bu hon yn flwyddyn heb ei thebyg i wasanaethau gofal iechyd ac i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Serch hyn, rydym wedi aros yn driw i'n hymrwymiad i sicrhau bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal o ansawdd da ac i annog gwelliannau drwy ddarparu adborth cyflym o'r gwaith a wnawn. Rwy'n falch o'r ffordd yr ydym wedi addasu ein dull o roi sicrwydd ac arolygu er mwyn gallu parhau â'n gwaith, ond gan fod yn ystyrlon o'r baich y gall ei roi ar wasanaethau'r GIG yn ystod cyfnod heriol dros ben. Bu'n rhaid i ni hefyd ystyried diogelwch ein pobl ein hunain yn ystod y cyfnod hwn ac mae'n destament i'w hymrwymiad a'u gwydnwch ein bod wedi gallu cyflawni'r newid roedd ei angen yn ein sefydliad, a hynny'n ddi-oed.

Mewn blwyddyn pan fu rheoli ac atal heintiau, yr amgylchedd gofal a rheoli'r gweithlu yn bwysicach nag erioed, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd hyn. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ar y gofal iechyd a ddarperir mewn lleoliadau newydd, fel ysbytai maes a chanolfannau brechu torfol, lle gall fod risgiau uchel i ansawdd gofal cleifion oherwydd eu bod wedi'u rhoi ar waith mor gyflym, nifer y bobl sy'n cael eu trin a natur dros dro y lleoliadau hyn.

Mae rhaid i wasanaethau gofal iechyd barhau i ystyried ac ymateb yn effeithiol i'r risgiau sy'n deillio o'r newid hwn, gan sicrhau ymgynghori priodol ar y newidiadau hynny a chyfathrebu effeithiol â chleifion.





Ein barn gyffredinol yw bod y gofal a ddarparwyd ledled Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod o safon dda. Gwnaethom nodi enghreifftiau lu o arloesi ac ymdrechion rhagorol gan staff i sicrhau y gellid parhau i ddarparu gofal yn ystod cyfnod hynod heriol. Hoffwn ganmol ymrwymiad, gwydnwch a hyblygrwydd staff ym mhob rhan o GIG Cymru ac mewn gwasanaethau gofal iechyd annibynnol sydd wedi gweithio'n ddiflino i ddarparu gofal i gleifion.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r pandemig wedi dod i ben ac un o'r meysydd allweddol sydd wedi codi yn ein gwaith dros y flwyddyn yw'r angen parhaus i atgyfnerthu trefniadau atal a rheoli heintiau, yn enwedig mewn ysbytai, er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo. Mae'n glir hefyd fod y pandemig wedi cael effaith ar lesiant staff sydd wedi gweithio'n ddiflino dan gryn bwysau i gynnal gwasanaethau i gleifion, a bydd yn parhau i effeithio arnynt. Wrth i ni barhau ar hyd y llwybr adfer, mae'r pwysau a'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau gofal iechyd wrth iddynt fynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaethau yn golygu y bydd angen sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Daeth "Gwneud Gwahaniaeth", ein strategaeth sefydliadol, i ben eleni ac rydym wedi ymgysylltu â'n staff, ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd i'n helpu i asesu'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein blaenoriaethau. Bydd y gwaith hwn yn sail ar gyfer llunio ein strategaeth ar gyfer y dyfodol. Rwy'n falch â'r cynnydd a wnaed gennym dros y tair blynedd diwethaf ac o ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r sefydliad mewn sefyllfa dda i ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu. Heb os, bydd newidiadau cyflym yn y sector gofal iechyd dros y blynyddoedd sydd i ddod, a hynny er mwyn mabwysiadu'r elfennau gorau o'r arloesedd a'r newidiadau a welwyd yn ystod y pandemig, yn ogystal â mynd i'r afael â'r galw digynsail am wasanaethau. Gall newidiadau gyflwyno risgiau i ansawdd y gofal y gellir ei ddarparu. Ac wrth i'r amgylchedd iechyd a gofal barhau i ddatblygu, felly hefyd y gwna AGIC. Bydd ein strategaeth a'n cynlluniau yn y dyfodol yn sicrhau bod ein gwaith yn parhau'n berthnasol i'r ffordd y caiff gofal ei ddarparu, ein bod yn gweithredu'n hyblyg o fewn amgylchedd allanol ansicr, a'n bod yn ymateb i faterion yn gyflym ac yn gymesur.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, sylwadau, syniadau neu adborth ar ein gwaith, cofiwch gysylltu â ni - byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

02.

# 2020-2021 mewn Ffigurau




# 2020-2021 mewn Ffigurau

Mae AGIC wedi parhau i gyflawni ei hymrwymiad i sicrhau bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal o ansawdd da drwy gydol y pandemig.  Gwnaethom addasu ein ffyrdd o weithio a datblygu dull newydd a'n galluogodd i gynnal gwaith sicrwydd yn gyfan gwbl oddi ar y safle. Y rheswm dros wneud hyn oedd sicrhau nad oeddem yn rhoi baich ychwanegol ar y GIG yn ystod cyfnod anodd iawn nac yn rhoi ein staff ein hunain mewn perygl. Gwnaethom gynnal 118 o ddarnau o waith, gan gynnwys arolygiadau ar y safle, Gwiriadau Ansawdd ac arolygiadau â phwyslais penodol. Ynghyd â'n gwaith sicrwydd ehangach drwy bryderon a dderbyniwyd gan y cyhoedd, galwadau i'n llinell ffôn cyswllt cyntaf, chwythu'r chwiban, gwybodaeth diogelu a gwaith gwybodaeth ehangach, llwyddodd hyn i sicrhau y gallem barhau i gyflawni ein swyddogaeth. Cynhaliwyd nifer bach o arolygiadau mwy traddodiadol ar y safle yn ystod y flwyddyn, lle y nododd ein gwaith monitro gwybodaeth bryderon difrifol, gan nodi y gallai fod risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion.

Roedd Gwiriadau Ansawdd yn fodd i ni gyflawni ein swyddogaeth statudol oddi ar y safle gan ddechrau gydag adolygiad o dystiolaeth i ystyried trefniadau atal a rheoli heintiau, trefniadau llywodraethu a pha newidiadau amgylcheddol a roddwyd ar waith er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion. Mae'r tri maes hyn yn gyson â'r meysydd allweddol a nodwyd yn Fframwaith Cynllunio GIC Cymru ac yn feysydd y gwyddom eisoes, drwy ein gwaith a thrwy gyngor a gafwyd gan ein Cynghorwyr Clinigol, eu bod yn hanfodol er mwyn sicrhau y darperir gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Bydd pob un o'n methodolegau sector-benodol yn ystyried y tri maes hyn, yn ogystal â meysydd eraill sy'n berthnasol i'r sector hwnnw. Mae'r gwaith yn ystyried yn benodol drefniadau a roddir ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu gweithredu yn ystod y pandemig.

Roedd ein dull gweithredu yn ystod y pandemig yn seiliedig ar bedair egwyddor:

- Lleihau baich a phwysau rheoleiddiol ein gwaith ar leoliadau gofal iechyd ar adeg mor anodd, gan barhau i gyflawni ein swyddogaethau statudol
- Parhau i oruchwylio gwasanaethau gofal iechyd a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a'r Gweinidog drwy ganolbwyntio ar ddeallusrwydd a thrwy weithio'n agos â sefydliadau partner
- Rhoi cymorth uniongyrchol i'r GIG, Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill wrth ymateb i'r pandemig
- Paratoi AGIC er mwyn ei galluogi i barhau i gyflawni ei diben yn sgil yr heriau ar hyn o bryd a'r heriau parhaus, gan barhau i gyflawni ein dyletswydd gofal i gydweithwyr AGIC.




[16] Ar ddechrau'r pandemig, roedd yn ofynnol i bractisau deintyddol wneud newidiadau sylweddol i'r ffordd yr oeddent yn gweithredu, gan weld cleifion brys yn unig nes bod trefniadau newydd ar gyfer gweithio yn lle. Roedd ein ffocws ar cefnogi practisau deintyddol i ddeall y canllawiau a'r addasu i'r newidiadau, gan ailddechrau ein rhaglen waith drwy arolygiadau a Gwiriadau Ansawdd unwaith y bydd practisau ar agor yn fwy arferol.

## Canolfannau Brechu Torfol

**4** arolygiad ar y safle o 8 canolfan brechu torfol (2 fesul bwrdd iechyd)

**594** o holiaduron cleifion

**90** o holiaduron staff

**3** llythyr Sicrwydd Uniongyrchol neu Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio

## Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu

**19** o Wiriadau Ansawdd o ysbytai iechyd meddwl y GIG

**756** o geisiadau am Feddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD)

**7** arolygiad o ysbytai iechyd meddwl annibynnol

**16** o Wiriadau Ansawdd o ysbytai iechyd meddwl annibynnol

**1** arolygiad ar y safle o ysbyty iechyd meddwl y GIG

**6** llythyr Sicrwydd Uniongyrchol neu Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio

## Gofal Iechyd Troseddwyr

**16** o adolygiadau o Farwolaethau yn y Ddalfa



# Gweithgarwch Cofrestru

## Gorfodi – Gofal Iechyd Annibynnol

**14** Gwasanaethau a oedd yn peri pryder a nodwyd

**6** Gweithredu Sifil

**9** Gwasanaethau nad oeddent wedi cofrestru o bosibl

## Gwasanaethau Gofal Iechyd annibynnol

**19** o amrywiadau i amodau cofrestru AGIC

**22** o gofrestriadau newydd

**9** achos o ganslo cofrestriad (Darparwr) AGIC

**26** o achosion o newid rheolwr

**13** o achosion o ganslo cofrestriad (Rheolwr) AGIC

**21** o achosion o newid unigolyn cyfrifol

## Deintyddfeydd Preifat

**28** o gofrestriadau newydd

**18** achos o ganslo cofrestriad (Darparwr) AGIC

**33** o achosion o ganslo cofrestriad (Rheolwr) AGIC

**44** o reolwyr cofrestredig

**1** achos o amrywio amodau cofrestru AGIC

**3** achos o newid unigolyn cyfrifol

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

**62k** Cyrhaeddiad Facebook

**236.6k** Argraffiadau Twitter

Cynyddodd nifer y tanysgrifwyr i'n cylchlythyr o **4339** i **6204**

**113,188** o sesiynau ar y Wefan





## Pryderon

**343** 343 o bryderon gan y cyhoedd a staff

03.

# Ymgysylltu â Chleifion, y Cyhoedd a'r Staff



# Ymgysylltu â Chleifion, y Cyhoedd a'r Staff

Mae barn cleifion a staff yn ffordd hollbwysig o'n helpu i ddeall diwylliant y gweithlu mewn ward, neu leoliad gofal iechyd arall, a'n helpu i ddeall y gofal a ddarperir. Fel rhan o'n prosesau sicrwydd ac arolygu, rydym yn ystyried profiad cleifion drwy geisio'u barn am y gwasanaeth dan sylw. Rydym yn gofyn i'r cleifion ddweud wrthym am y gofal maent yn ei dderbyn drwy gwblhau holiadur, a phan fydd modd i ni siarad â chleifion wyneb yn wyneb yn ystod ymweliadau ar y safle, rydym yn casglu barnau yn uniongyrchol. Rydym hefyd yn comisiynu arolygon ar gyfer ein hadolygiadau Cenedlaethol a Lleol er mwyn i aelodau o'r cyhoedd allu rhoi eu barn ar wasanaethau cenedlaethol ledled Cymru (fel Gofal mewn Argyfwng Iechyd Meddwl), neu roi eu barn ar wasanaethau a ddarperir mewn ardal benodol neu gan sefydliad penodol (fel Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru).

Yn 2020-2021, roedd y cyfyngiadau pellter cymdeithasol, yr angen i leihau nifer y bobl oedd yn ymweld â lleoliadau gofal iechyd a'r angen i leihau'r risgiau i'n staff ein hunain, wedi cyfyngu ar y cyfleoedd i ni ymgysylltu wyneb yn wyneb â phobl gan ddefnyddio ein dulliau traddodiadol.

Ar y dechrau, wrth i ni weithio drwy heriau COVID-19, gwnaethom ddefnyddio arolygon ar-lein fel y prif ddull o ymgysylltu â chleifion a staff. Gwnaethom ddefnyddio arolygon ar-lein yn ystod y darnau o waith canlynol:

- arolygiadau IR(ME)R â phwyslais penodol;
- arolygiadau â phwyslais penodol o Ganolfannau Brechu Torfol.


Mae barn y staff hefyd yn bwysig iawn wrth i ni geisio cael dealltwriaeth gyffredinol o wasanaeth. Roedd gwasanaethau gofal iechyd, yn y GIG ac yn y sector annibynnol, yn awyddus i'w staff rannu eu barn â ni, a gwnaethant ein cefnogi drwy hyrwyddo'r arolygon staff a gynhaliwyd gennym yn 2020-2021. O ganlyniad, gwnaethom barhau i gael ymateb da gan staff a oedd yn gweithio yn y meysydd roeddem yn eu hystyried.


Cawsom gyfanswm o 1283 o ymatebion gan gleifion o'r gwaith hwn a chawsom sylwadau gan 219 o staff. Gwnaethom hefyd ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid wrth i ni ddadansoddi'r cynnydd a wnaed yn erbyn ein strategaeth tair blynedd, 'Gwneud Gwahaniaeth'. Cawsom 150 o ymatebion i'r arolwg.



## Lleoliad y Pryderon

Daeth cyfanswm o 434 o bryderon i law rhwng Ebrill 2020 a Mawrth 2021, sef 67 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.





Byrfoddau Bwrddau Iechyd y GIG

| | |
|---|---|
| **BIPAB** | Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Aneurin Bevan |
| **BIPBC** | BIP Betsi Cadwaladr |
| **BIPCF** | BIP Cardiff and Vale |
| **BIPCTM** | BIP Cwm Taf Morgannwg |
| **BIPHDd** | BIP Hywel Dda |
| **LGIA** | Lleoliadau GI Annibynol |
| **BIAP** | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **BIPBA** | BIP Bae Abertawe |
| **ICC** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Feindre** | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre |
| **WAST** | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

## Lefelau Risg y pryderon a gafwyd





Yn ystod pandemig COVID-19, mae pryderon wedi bod yn ffynhonnell gwybodaeth amhrisiadwy, ac ni ellir tanbrisio eu pwysigrwydd. Roedd rhywfaint o'r gwaith arolygu ar y safle a gynhaliwyd gennym yn ystod 2020-2021 yn ganlyniad uniongyrchol i risg uchel neu bryderon mynych a ddaeth i law. Rydym wedi ceisio sicrwydd gan ddarparwyr gofal iechyd yn ysgrifenedig, a thrwy geisiadau am dystiolaeth, er mwyn cadw cleifion a gweithwyr gofal iechyd yn ddiogel.

## PRYDERON CHWYTHU'R CHWIBAN (GIG)

Chwythwyr chwiban a dynnodd sylw AGIC at 100 o'r pryderon a ddaeth i law. Roedd 51 o'r pryderon hyn yn ymwneud â byrddau iechyd neu ymddiriedolaethau'r GIG ac roedd 47 o'r pryderon gan chwythwyr chwiban yn ymwneud â lleoliadau gofal iechyd annibynnol. Roedd dau bryder gan chwythwyr chwiban yn ymwneud â lleoliadau gofal iechyd na ellid eu cofrestru / adnabod.

O'r 100 o bryderon hyn gan chwythwyr chwiban, roedd 19 wedi'u graddio fel rhai risg uchel, 47 fel rhai risg canolig a 32 yn rhai risg isel.

Roedd themâu cyffredin yn y pryderon a ddaeth i law yn ymwneud yn bennaf â dau brif faes. Roedd y grŵp cyntaf o bryderon yn ymwneud â gofal, triniaethau a gweithdrefnau. Roedd yr ail grŵp o bryderon yn ymwneud â seilwaith, staffio a chyfleusterau. Daeth y pryderon hyn i law gan amrywiaeth o unigolion gan gynnwys cleifion, eu teuluoedd, ffrindiau, staff a gweithwyr iechyd perthynol proffesiynol.



04.

# Ein Gwaith



# Ein Gwaith

## Darparu sicrwydd

Darparwn farn annibynnol am ansawdd y gofal a ddarperir gan wasanaethau gofal iechyd y GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol ledled Cymru.

Rydym yn gwneud hyn drwy arolygu amrywiaeth o leoliadau'r GIG yng Nghymru sy'n cynnwys ysbytai, meddygfeydd, deintyddfeydd, unedau iechyd meddwl a Thimau Iechyd Meddwl Cymunedol. Yn y sector annibynnol rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu lleoliadau gofal iechyd drwy gofrestru amrywiaeth o ddarparwyr gan gynnwys ysbytai a chlinigau annibynnol, deintyddfeydd, unedau iechyd meddwl, hosbisau a thriniaethau laser mewn salonau harddwch. Rydym yn monitro cydymffurfiaeth yn erbyn amodau cofrestru ac yn ystyried ansawdd y gofal a ddarperir.

Ynghyd ag arolygon a gweithgareddau cofrestru, mae AGIC yn defnyddio gwybodaeth am wasanaethau gofal iechyd i gael sicrwydd am ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir i ddinasyddion yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwrando ar bryderon
- Monitro digwyddiadau a hysbysiadau
- Archwilio pryderon diogelu a chanlyniadau
- Monitro cydymffurfiaeth â deddfwriaeth
- Ymgysylltu'n weithredol â darparwyr gofal iechyd ac asiantaethau partner a rhannu gwybodaeth â nhw.

Drwy drionglu tystiolaeth o nifer o ffynonellau, mae AGIC yn cael darlun llawnach o ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan wasanaethau gofal iechyd y GIG a'r sector annibynnol. Lle ceir tystiolaeth nad yw safonau gofal yn cael eu cyrraedd, gall AGIC weithredu ac ysgogi gwelliannau, gan gynnwys drwy weithgareddau arolygu a rheoleiddio.

Mae gennym gyfrifoldeb penodol mewn perthynas â diogelu hawliau cleifion agored i niwed a gedwir o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a chadarnhau bod Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, a gyflwynwyd yn 2009, yn cael eu rhoi ar waith.

Mae gennym hefyd gyfrifoldeb penodol dros fonitro'r defnydd o ymbelydredd ïoneiddio ym maes gofal iechyd. Defnyddir ymbelydredd ïoneiddio mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol a gellir ei rannu'n dri chategori eang, sef delweddu diagnostig, radiotherapi a meddygaeth niwclear.

Mae ein rhaglen waith yn sicrhau ein bod yn bodloni ein gofynion statudol ac yn adolygu unrhyw bryderon a godir drwy amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth. Mae ein Pwyllgor Risg ac Uwchgyfeirio yn asesu'r dystiolaeth a'r wybodaeth sydd ar gael bob mis, ac yn pennu ein rhaglen o arolygiadau arferol ac ymatebol. Mae proses debyg ar waith yn ein Bwrdd Llywio Adolygiadau sy'n blaenoriaethu ac yn cynllunio adolygiadau cenedlaethol a lleol, gan graffu ar hynt adolygiadau drwy gydol y flwyddyn.

## Safonau perfformiad

Mae ein safonau gwasanaeth yn amlwg iawn.

- Lle bo angen gweithredu ar frys yn dilyn arolygiad y GIG, caiff llythyrau eu hanfon at Brif Weithredwr y sefydliad o fewn dau ddiwrnod gwaith
- Lle bo angen gweithredu ar frys yn dilyn arolygiad yn y sector annibynnol, caiff y gwasanaeth Hysbysiad Diffyg Cydymffurfio o fewn dau ddiwrnod gwaith

- Ein nod yw cyhoeddi pob adroddiad arolygu ar y safle o fewn tri mis i arolygiad fel y nodir yn ein polisi cyhoeddi. Roedd perfformiad yn erbyn y targed hwn yn yr effeithir arnynt eleni oherwydd y penderfyniad i atal ein proses gyhoeddi rhwng 14eg Ebrill a 28 Mai yng ngoleuni'r pwysau ar gwasanaethau gofal iechyd. Yn 2020-2021 gwnaethom gyhoeddi 93% o'n hadroddiadau o fewn tri mis i'r arolygiad
- Gwnaethom gyflwyno safon perfformiad newydd ar gyfer ein Gwiriadau Ansawdd. Nod y rhain oedd rhoi adborth cyflym am y ansawdd gwasanaethau ac i gyhoeddi ein holl canfyddiadau yn agos at fis ar ôl y dyddiad y gwaith sy'n digwydd â phosibl. Yn ystod 2020-2021 darparwyd adborth ar ein holl waith gyda bron dwy ran o dair o'r Gwiriadau Ansawdd a gyhoeddwyd o fewn mis i'r gwaith sy'n cael ei wneud
- Ar gyfer yr holl waith sicrwydd ac arolygu yn 2020-2021, gwnaethom lunio adroddiadau ar 14 o faterion a oedd yn peri pryder uniongyrchol.  Cafodd 10 o'r adroddiadau hyn eu paratoi o fewn ein targed o ddau ddiwrnod.

## Hybu gwelliant


Mae ein trefniadau llywodraethu yn ein helpu i nodi pa sectorau, lleoliadau a themâu i'w blaenoriaethu fel rhan o'n gweithgarwch sicrwydd, arolygu ac adolygu. Mae ein geirfa a'n map llywodraethu yn darparu mwy o fanylion am y mecanweithiau a ddefnyddir gennym i herio ein rhaglen waith ein hunain er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hadnoddau yn y mannau cywir ar yr adegau cywir. Mae llawer o'n hadroddiadau yn cynnwys argymhellion sy'n ceisio sicrhau gwelliannau yn ansawdd gwasanaethau gofal iechyd a gwnaethom gyflwyno dull mwy systematig o ddilyn hynt canfyddiadau y llynedd.  Cafodd ein prosesau gwaith dilynol eu hatgyfnerthu y llynedd ac maent bellach yn cynnwys trefniadau mwy systematig o ddilyn hynt canfyddiadau ein gwaith adolygu (cenedlaethol a lleol); proses i gefnogi gwneud penderfyniadau a chymryd camau dilynol lle bydd arolygiadau yn nodi meysydd sy'n peri pryder ac archwiliad dilynol safonol 3 mis ar ôl pob Gwiriad Ansawdd. Mae pob un o'r 'pwyntiau gwirio' ychwanegol hyn yn gyfle arall i ni nodi pryderon ac ymarfer gwael a gwneud argymhellion er mwyn ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau.

## Dylanwadu ar Bolisïau a Safonau

Drwy ein gweithgareddau, rydym yn gweld sut y caiff deddfwriaeth, polisïau a safonau eu cymhwyso'n uniongyrchol mewn gwasanaethau gofal iechyd. O'r persbectif unigryw hwn, rydym yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i gyfrannu at ymgyngoriadau, darparu tystiolaeth i Bwyllgorau Senedd Cymru a darparu adborth uniongyrchol i swyddogion polisi Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn rhannu ein canfyddiadau â llunwyr polisi mewn cyrff eraill sy'n rhan o'r llywodraeth, rheoleiddwyr, arolygiaethau a chyrff proffesiynol eraill. Ers i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mehefin 2020, rydym wedi parhau i asesu effaith rhoi'r Ddeddf hon ar waith ar ein gwaith a'n rôl wrth wella ansawdd y gofal iechyd a ddarperir yng Nghymru. Wrth i'r broses o roi'r Ddeddf ar waith fynd rhagddi, byddwn yn parhau i weithio ar hyn, er mwyn sicrhau bod ein dull o geisio sicrwydd yn ystyried y gofynion a gyflwynwyd gan y Ddeddf, sef dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd a sefydlu Corff Llais y Dinesydd. Gwnaethom gymryd rhan mewn saith ymgynghoriad a gynhaliwyd gan sefydliadau allanol y llynedd a hynny mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar ein gwaith neu sy'n ymwneud â'n gwaith.

## Map Llywodraethu AGIC

Yn 2020-2021, gwnaethom addasu ein trefniadau llywodraethu er mwyn helpu'r sefydliad i fodloni galwadau brys COVID-19. Mae'r map canlynol yn dangos y newidiadau a roddwyd ar waith.




I gael rhestr termau o'r hyn sydd wedi'i gynnwys ym mhob grŵp, gweler Rhestr Termau Llywodraethu AGIC.

05.

# Gweithio gydag Eraill



# Gweithio gydag eraill



Rydym wedi cydnabod ers amser fod rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng sefydliadau yn bwysig wrth asesu ansawdd y gofal iechyd a ddarperir ledled Cymru. Mae'r heriau a ddaeth yn sgil COVID-19 wedi dangos hyn yn gliriach fyth, a gwnaethom roi mwy o bwyslais nag erioed ar weithio gyda'n partneriaid, gan geisio pob cyfle posibl i weithio ar y cyd.

Bob blwyddyn rydym yn cynnal uwchgynhadledd gofal iechyd gan ddwyn ynghyd gyrff archwilio, arolygu, rheoleiddio a gwella allanol er mwyn rhannu gwybodaeth am sefydliadau'r GIG. Bu modd i ni gynnal y digwyddiadau hyn yn rhithiol yn 2020-2021 a llwyddodd y fforwm hwn i barhau'n ffynhonnell wybodaeth gyfoethog ac amhrisiadwy ac yn gyfrwng ar gyfer rhannu gwybodaeth. Cytunwyd ar y themâu a wnaeth ddeillio o'r trafodaethau hyn ac fe'u rhannwyd â Llywodraeth Cymru a'u bwydo i mewn i drafodaethau uwchgyfeirio ac ymyrryd GIG Cymru.

Bu modd i ni wella'r gwaith a wnaed gennym i archwilio ansawdd y gofal a ddarperir yn y Canolfannau Brechu Torfol newydd a sefydlwyd drwy'r trefniadau cydweithio cadarn a ddatblygwyd gyda'r Cynghorau Iechyd Cymuned ledled Cymru. Mae Cynghorau Iechyd Cymuned ledled Cymru wedi ceisio adborth gan bobl ar eu profiadau o gael brechiadau. Gwnaethom gydweithio'n agos â'r Cynghorau Iechyd Cymuned i ddeall canlyniadau eu harolwg, a bu'r ffynhonnell ychwanegol hon o adborth gan gleifion yn amhrisiadwy wrth ein helpu i ddod i gasgliadau am safon y gofal a ddarperir yn y canolfannau hyn.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Archwilio Cymru ac Estyn ar feysydd o gyd-ddiddordeb drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys adolygiadau ar y cyd. Gwnaethom ddarn o waith dilynol gydag Archwilio Cymru i ystyried gwelliannau i'r trefniadau llywodraethu a roddwyd ar waith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn dilyn ein hadolygiad ar y cyd diwethaf yno.

Gwnaethom gyhoeddi nifer o ddatganiadau ar y cyd gydag AGC yn ystod y flwyddyn, fel yr arolygiaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

## Cydweithio ag eraill drwy gydol y flwyddyn

# 2020

### Ebrill

Ym mis Ebrill 2020, gwnaethom gyhoeddi datganiad ar y cyd yn pwysleisio pwysigrwydd blaengynllunio gofal personol, unigol a chynllunio gofal at y dyfodol wrth sicrhau bod pobl yn derbyn gofal ag urddas o ansawdd uchel. Tynnodd pandemig COVID-19 sylw at yr angen am y broses hon, er mwyn sicrhau y caiff dymuniadau a budd pennaf pobl eu hystyried mewn ffordd sydd wedi'i phersonoli drwy drafodaethau blaengynllunio gofal wedi'u teilwra. Bwriad ein neges oedd nodi'n glir bod y canllawiau'n argymell yn ddiamwys fod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar sail unigol, a byth ar gyfer grwpiau o bobl.

### Mai

Ym mis Mai 2020, gwnaethom gyhoeddi datganiad ar y cyd ar 'Codi Llais'.Mae codi llais eich dweud yn elfen hanfodol o ddiwylliant diogel a dylai fod yn fater o drefn i bawb sy'n gweithio ym maes gofal, ni waeth beth fo'u rôl. Mae'n ffordd i'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal godi pryderon amddiogelwch, gan sicrhau bod hyn yn parhau'n flaenoriaeth ar gyfer y system gyfan. Mae angen i bawb sydd â rôl ym maes gofal fod yn fwy gwyliadwrus er mwyn i ni allu lleihau'r risg o niwed y gellid ei osgoi i bobl. Gwnaethom ailgyhoeddi'r datganiad hwn ar y cyd eto ym mis Mai 2021, gan fanteisio ar gyfle arall i bwysleisio pa mor bwysig ydyw bod pawb yn rhoi'r ystyriaeth bennaf i ddiogelwch gofal.

### Awst

Ym mis Awst 2020, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad monitro blynyddol ar y cyd ar Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yng Nghymru.

### Medi

Ym mis Medi 2020, gwnaethom adrodd ar waith a wnaethom ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS), Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi (HMIP) ac Estyn. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar gamfanteisio'n rhywiol ac yn droseddol ar blant yn ardal Casnewydd.

### Hydref

Ym mis Hydref, gwnaethom ysgrifennu ar y cyd at bob bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth GIG ac awdurdod lleol yng Nghymru cyn y gaeaf, i rannu'r prif faterion roeddem wedi'u nodi gyda'n gilydd drwy ein gwaith yn ystod y chwe mis blaenorol. Y nod oedd rhoi cyfle arall i atgyfnerthu'r prif feysydd ar gyfer gwella a dysgu yn y ddau sector.

# 2021

Gwnaethom helpu AGC i gynnal ei Hadolygiad o Blant Anabl, drwy gynnal cyfweliadau ag arweinwyr gofal iechyd strategol a gweithredol. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi yn ystod hydref 2021.

Wrth i'r Pandemig ddechrau yn gynnar yn y flwyddyn, bu ein harweinydd Gofal Iechyd Annibynnol yn gweithio gyda'r Uned Gomisiynu Gydweithredol Genedlaethol (NCCU) i roi trefniadau gwell ar waith ar gyfer monitro diogelwch cleifion a staff mewn ysbytai iechyd meddwl annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys ceisio sicrwydd ar drefniadau parhad busnes a diweddariadau rheolaidd ar lefelau staffio ym mhob ysbyty. Sefydlodd NCCU ddull gweithredu yn defnyddio canolfan reoli er mwyn i ysbytai allu cael gafael ar gymorth a chyngor yn uniongyrchol; cafodd unrhyw faterion a gododd eu rhannu ag AGIC er mwyn nodi'r bobl briodol i gefnogi a chynghori'r ysbyty ar yr heriau roedd yn eu hwynebu. Roedd y trefniadau hyn yn ategu'r gofynion adrodd a nodwyd yn y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r gwaith o reoleiddio'r sefydliadau hyn. Gwnaed y gwaith hwn ar y cyd gan gydnabod y byddai'n lleihau'r baich ac yn golygu na fyddai'n rhaid i'r darparwyr anfon yr un wybodaeth at ddwy ran o'r system sicrhau ansawdd a chael yr un trafodaethau â nhw ar adeg pan oeddent yn wynebu heriau digynsail. Lle bynnag y bo'n bosibl, cynhaliwyd gwiriadau sicrwydd cyflym gyda'r ysbytai ar y cyd hefyd, gan leihau'r baich i bawb unwaith eto.

Roedd hyn yn ddarn o waith amhrisiadwy a'n galluogodd i gadw trosolwg o'r lleoliadau hyn a'u trefniadau, a chael dealltwriaeth well o unrhyw risgiau posibl a oedd yn dod i'r amlwg mewn lleoliadau gofal iechyd meddwl yn ystod dyddiau cynnar COVID-19.

Roedd ein tîm o Gynghorwyr Clinigol hefyd yn rhan o grŵp datblygu Ysbytai Maes Llywodraeth Cymru, y Grŵp Trosglwyddiadau Nosocomiaidd a Fforwm Modelu'r Pandemig. O ganlyniad i'n cyfraniad at y rhain, roeddem yn ymwybodol o'r modelau gofal a'r canllawiau penodol diweddaraf mewn perthynas â'r pandemig, a defnyddiwyd y wybodaeth hon i gynllunio a chyflawni ein gwaith ein hunain.

Gwnaethom barhau i gefnogi darparwyr gofal iechyd annibynnol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Fel rhan o'r ymateb i'r pandemig, defnyddiwyd ysbytai annibynnol i gefnogi GIG Cymru, er enghraifft, drwy ddarparu triniaethau llawfeddygol. Gwnaethom ganolbwyntio ar ddosbarthu canllawiau cyfredol i ddarparwyr annibynnol yn esbonio goblygiadau ymarferol rhoi'r trefniant hwn ar waith, a sut i barhau i gydymffurfio â'r rheoliadau. Roedd ymgysylltu â darparwyr deintyddiaeth preifat yn bwysig yn ystod y pandemig. Diben hyn oedd sicrhau bod practisau deintyddol a oedd yn cynnig triniaethau deintyddol 'preifat yn unig' yn ymwybodol o gyngor a chanllawiau iechyd y cyhoedd perthnasol. Gwnaethom sicrhau bod canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gael i'r darparwyr hyn a bod pryderon deintyddion preifat mewn perthynas â chyfyngiadau yn cael eu cynrychioli yn ein trafodaethau â'r Prif Swyddog Deintyddol.

Mae AGIC yn un o'r sefydliadau a sefydlodd Dull Atal Cenedlaethol y DU ac yn un o'r 21 o gyrff sydd wedi'u dynodi ar ei gyfer. Mae cynrychiolydd AGIC yn mynychu'r cyfarfodydd busnes ac mae'n aelod o'r pwyllgor llywio a'r is-grŵp iechyd meddwl.

Mae'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn erbyn Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT) yn gytundeb hawliau dynol rhyngwladol sydd wedi'i gynllunio i ddiogelu unigolion sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid. Daeth y cytundeb i rym ym mis Mehefin 2006 ac mae'r 21 o gyrff sydd wedi'u dynodi yn bodloni un o ofynion allweddol y cytundeb, sef sicrhau bod pob lleoliad lle cedwir pobl yn cael ei fonitro'n annibynnol. Mae AGIC yn ystyried y ffordd mae'r cytundeb yn cael ei weithredu, yn archwilio amodau cadw a thriniaeth y sawl a gedwir ac yn gwneud argymhellion ac yn pennu gofynion.

06.

# Adolygiadau Cenedlaethol



# Adolygiadau Cenedlaethol

**Mae gan AGIC raglen barhaus o adolygiadau Cenedlaethol a Lleol sy'n ein helpu i werthuso'r ffordd y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu darparu yng Nghymru. Darnau o waith sy'n archwilio un agwedd ar waith un sefydliad neu ranbarth yw'r adolygiadau Lleol, tra bod yr adolygiadau Cenedlaethol yn archwilio gwasanaethau gofal iechyd ledled Cymru. Rydym hefyd yn cynnal adolygiadau ar y cyd â sefydliadau eraill, a hynny ar lefel leol a chenedlaethol.**

## Awgrymiadau ar gyfer Adolygiadau

Mae sawl ffactor sy'n ein helpu i benderfynu pryd a ble i gynnal adolygiad. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gan sefydliadau eraill, fel arolygiaethau, rheoleiddwyr neu Lywodraeth Cymru, a gwybodaeth a gawn drwy bryderon neu gwynion. Rydym yn annog aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill i awgrymu meysydd i ni eu hystyried yn ein gwaith adolygu Lleol a Chenedlaethol, a gellir gwneud hyn drwy lenwi ffurflen awgrymiadau ar gyfer adolygiadau ar ein gwefan.

Caiff yr holl awgrymiadau am adolygiadau eu hystyried gan ein Bwrdd Llywio Adolygiadau. Mae'r grŵp hwn yn ymchwilio i'r pynciau a awgrymir, ac yn eu trafod a'u blaenoriaethu, gan wneud argymhellion ar gyfer unrhyw waith pellach y gallem ei wneud. Ein Pwyllgor Risg ac Uwchgyfeirio sy'n gwneud y penderfyniad terfynol am droi awgrym yn adolygiad, gan ystyried y rhaglen o waith sydd wedi'i chynllunio yn erbyn y risgiau sy'n codi yn y system gofal iechyd, gan ystyried hefyd yr adnoddau sydd ar gael yn AGIC.

## Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth

Nod yr adolygiad hwn oedd edrych ar brofiadau menywod, eu partneriaid a'u teuluoedd, a'r graddau y mae byrddau iechyd yn darparu gwasanaethau mamolaeth diogel ac effeithiol. Ysgogwyd yr adolygiad hwn gan faterion a nodwyd yn ystod ein harolygiad o wasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn 2018. Yn ystod haf 2020, gwnaethom gwblhau cam cyntaf yr adolygiad Cenedlaethol hwn, gan rannu ein canfyddiadau allweddol mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020[1]. Gwelsom lawer o enghreifftiau o arfer da ledled Cymru. Fodd bynnag, gwelsom hefyd rywfaint o amrywiaeth yn ansawdd y gofal a'r driniaeth. Gwelsom fod menywod yn gallu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal a'u bod yn cael cymorth a chyngor da.

[2] https://hiw.org.uk/sites/default/files/2020-11/20201118HIWNationalReviewofMaternityServicesCY_0.pdf

Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig ac ymroddedig, gan wneud popeth o fewn eu gallu i ddarparu gofal o ansawdd uchel. Fodd bynnag, dangosodd ein harolygiadau a chanlyniadau ein harolwg fod staff yn gweithio dan bwysau, a'u bod yn teimlo nad oedd digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn.

Gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau y gallai menywod leisio eu dewisiadau geni yn ddigonol a gwnaethom nodi bod nifer y gwahanol weithwyr proffesiynol roedd y menywod yn gweld yn ystod eu beichiogrwydd yn arwain at ddiffyg parhad gofal.

Yn ystod nifer o arolygiadau, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau ar unwaith er mwyn sicrhau bod cyfarpar brys a dadebru newydd-anedig yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod bob amser yn barod i'w ddefnyddio. Roedd angen gwneud gwelliannau ar unwaith hefyd i drefniadau diogelwch babanod newydd ar wardiau cleifion mewnol ac i drefniadau rheoli meddyginiaethau. Awn i'r afael â materion sy'n peri risg mor fawr yn syth ar ôl pob arolygiad drwy ein proses Sicrwydd Uniongyrchol, gyda'r bwrdd iechyd perthnasol yn rhoi manylion i ni am y camau mae wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Gwelsom fod gan fyrddau iechyd drefniadau da ar waith i gynnal goruchwyliaeth glir dros eu gwasanaethau mamolaeth, gyda strwythurau staff clir a llinellau atebolrwydd clir. Er bod prosesau da ar waith i ymchwilio i ddigwyddiadau a phryderon clinigol, roedd lle i wella wrth sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu yn sgil digwyddiadau ac roedd angen gweithio i sicrhau bod diwylliant adrodd cadarnhaol yn cael ei hyrwyddo fel bod ansawdd y gofal yn cael ei gynnal a'i wella.



Dechreuodd y gwaith ar ail gam yr adolygiad, ond oherwydd pandemig COVID-19, gwnaethom benderfynu ym mis Ionawr 2021 y dylid gohirio'r gwaith am gyfnod o chwe mis. Yn ddiweddar, gwnaethom adolygu ein sefyllfa ar gyfer cynlluniau cam dau, ochr yn ochr â'n rhaglen arolygu ac adolygu seiliedig ar risg ar gyfer 2021-22 a'n hadnoddau. Ar ôl ystyried yn ofalus, gwnaethom benderfynu peidio â symud ymlaen â cham dau fel y nodir yn ein cylch gorchwyl. Yn hytrach na hynny, ar gyfer materion a nodwyd mewn perthynas ag agweddau ar ofal mamolaeth a oedd y tu allan i gwmpas gwreiddiol yr adolygiad cenedlaethol, byddwn yn ceisio sicrwydd drwy waith dilynol a'n rhaglen waith arferol.

## Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Atal Argyfyngau Iechyd Meddwl

Roedd y penderfyniad i gynnal yr adolygiad hwn yn seiliedig ar nifer o bryderon yn ymwneud â gallu pobl i gael gofal amserol, i'w hatal rhag cyrraedd sefyllfa o argyfwng gyda'u hiechyd meddwl. Yn 2019, gwnaethom ddarn o waith ar y cyd ag AGC yn ystyried y gofal a ddarperir gan Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol a nodwyd bod mynediad cychwynnol at wasanaethau iechyd meddwl yn faes i'w wella. Yn ogystal, gwnaethom dynnu sylw at ddiffyg gwybodaeth ymhlith rhai gweithwyr gofal iechyd sylfaenol proffesiynol am yr amrywiaeth o wasanaethau atgyfeirio sydd ar gael i bobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl.

Cyn hyn, yn ystod ein hadolygiad o Wasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yn 2018[2], gwnaethom nodi heriau sylweddol hefyd ynghylch gweithio cyfannol mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Roedd hyn yn cynnwys problemau gyda rhestrau aros hir ar ôl i gleifion gael eu hatgyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl, a mynegwyd pryderon gan staff yn y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau fod y broses atgyfeirio'n rhy gymhleth ac anghyson weithiau.

Dechreuodd yr adolygiad yn gynnar yn 2020, ond mae wedi para'n hirach na'r disgwyl oherwydd y pandemig. Mae'r gwaith yn parhau i fynd rhagddo a daw i ben yn ystod hydref 2021. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn adolygu ein canfyddiadau blaenorol yn y maes hwn ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael inni, gan gynnwys gwaith ym maes argyfyngau iechyd meddwl gan sefydliadau eraill yng Nghymru. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar y cymorth a ddarperir gan feddygon teulu a gwasanaethau eraill y GIG ledled Cymru i atal argyfyngau iechyd meddwl, a'r hyn y mae sefydliadau trydydd sector yn ei wneud i gefnogi hyn. Rydym wedi cynnal arolwg i gasglu barn pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, eu partneriaid a'u teuluoedd er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau maent yn eu cael i'w helpu i reoli eu cyflwr iechyd meddwl ac atal argyfyngau. Rydym yn dadansoddi canfyddiadau'r arolwg er mwyn nodi unrhyw themâu ac rydym hefyd yn ystyried pa mor dda y mae gwasanaethau yn cydweithio i ddarparu gofal cyfannol. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol yn nodi'r holl ganfyddiadau hyn yn ddiweddarach eleni.

[2] https://hiw.org.uk/sites/default/files/2019-06/180725smcy.pdf

## Adolygiad Cenedlaethol o COVID-19

O ganlyniad i effaith aruthrol COVID-19 ar bobl ac ar systemau gofal iechyd, gwnaethom benderfynu cynnal adolygiad cenedlaethol yn canolbwyntio ar COVID-19 er mwyn archwilio ansawdd a diogelwch y gofal a ddarparwyd gan wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru yn ystod 2020-2021.

Fel rhan o'r adolygiad, tynnwyd ynghyd ganfyddiadau o'n holl weithgarwch sicrwydd ar draws gwasanaethau gofal iechyd y GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol o ddechrau'r pandemig tan 31 Mawrth 2021, gan nodi themâu allweddol, arferion da a meysydd i gefnogi gwelliant.

Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar 30 Mehefin 2021[3].

Roedd ein gwaith dros y cyfnod hwn yn cynnwys ein Gwiriadau Ansawdd newydd, arolygiadau â phwyslais penodol a rhywfaint o waith arolygu ar y safle. Roedd ein gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar dri maes; trefniadau atal a rheoli heintiau, trefniadau llywodraethu a'r amgylchedd gofal iechyd. Yn sgil canfyddiadau'r gwaith hwn, daethom i'r casgliad cyffredinol fod ansawdd y gofal a ddarparwyd ledled Cymru yn ystod y pandemig o safon dda ar y cyfan. Gwnaethom nodi nifer o enghreifftiau lle gwelwyd ymdrechion arbennig gan staff a oedd yn gweithio mewn gwasanaethau gofal iechyd ledled Cymru, yn ystod cyfnod hynod heriol. Gwnaethom ganmol ymrwymiad, gwydnwch a hyblygrwydd staff ym mhob rhan o GIG Cymru ac mewn gwasanaethau gofal iechyd annibynnol sydd wedi gweithio'n ddiflino i ddarparu gofal i gleifion ac i'w gilydd.

Yn ystod y cyfnod hwn, galluogodd ein gwaith i ni nodi themâu a gwersi a ddysgwyd yr oeddem am eu rhannu'n gyflym â gwasanaethau gofal iechyd ledled Cymru er mwyn sicrhau bod ein gwaith yn cael cymaint o effaith â phosibl wrth gefnogi gwelliant mewn gofal iechyd. Gwnaethom rannu'r negeseuon hyn drwy ein Bwletinau Arsylwi ar Ansawdd. Gwnaethom gyhoeddi'r rhifyn cyntaf ym mis Rhagfyr 2020 Arsylwi ar Ansawdd 1 AGIC (COVID-19) a'r ail rifyn ym mis Chwefror 2021 Arsylwi ar Ansawdd 2 AGIC (COVID-19). Yn ein rhifyn ym mis Rhagfyr, gwnaethom nodi cynnydd yn yr achosion o broblemau croen a llygaid ymhlith staff sy'n gweithio mewn meysydd risg uchel ac sy'n defnyddio lefelau uwch o PPE.  Canfuom fod trefniadau ar gyfer rhoi llwybr carlam i staff at wasanaethau dermatoleg ac offthalmoleg yn anghyson ledled Cymru ac argymhellwn fod byrddau iechyd yn sicrhau bod eu trefniadau i staff yn ddigonol. Yn ein rhifyn mis Chwefror, gwnaethom rannu'r neges bwysig fod angen gwneud gwelliannau i sicrhau yr eir i'r afael â diffygion mewn trefniadau atal a rheoli heintiau (a nodir drwy archwiliadau) a bod problemau'n cael eu datrys. Gwnaethom hefyd nodi bod angen i'r staff gadw pellter cymdeithasol, a gwnaethom atgoffa gwasanaethau pa mor bwysig yw hyn. Yn ogystal, gwnaethom lunio adroddiad ar ein canfyddiadau o arolygiad â phwyslais penodol o ddau Ysbyty Maes newydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Dangosodd y dystiolaeth a ganfuwyd gennym yn yr arolygiad hwn y gwaith paratoi eang a chyflym a wnaed dan amgylchiadau anodd er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth hwn yn weithredol ac ar gael fel rhan o'r trefniadau i fynd i'r afael â'r pandemig.



[3] https://agic.org.uk/adolygiad-cenedlaethol-o-covid-19

07.

# Canfyddiadau Sicrwydd ac Arolygu



# Canfyddiadau Sicrwydd ac Arolygu

## Ysbytai

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom gynnal saith ar hugain o Wiriadau Ansawdd o ysbytai'r GIG, gan gynnwys deg ysbyty cymunedol. Ymdriniodd ein Gwiriadau Ansawdd â nifer o wahanol fathau o wardiau ysbyty gan gynnwys wardiau strôc, unedau pediatrig, cyfleusterau cam-i-lawr ac unedau mân anafiadau. Gwnaethom hefyd gynnal arolygiadau â phwyslais penodol o ddau ysbyty maes newydd, a oedd yn cynnwys elfen o waith arolygu ar y safle, wedi'u trosi o'u defnydd gwreiddiol er mwyn helpu i ddarparu gwelyau ychwanegol yn ystod ton gyntaf y pandemig.

Ein barn gyffredinol o'r tair llinell ymholi cyntaf yw bod y rhain wedi'u rheoli i safon dda ar y cyfan. Gwelsom dimau staff hynod ymrwymedig, gwybodaeth fanwl am weithdrefnau atal a rheoli heintiau, ac amgylcheddau gofal a addaswyd er mwyn gweithredu'n ddiogel i helpu i gadw staff a chleifion yn ddiogel.

Gwnaethom siarad ag uwch-aelodau o staff y wardiau ym mhob Gwiriad Ansawdd, a chawsom enghreifftiau lu o ymdrechion eithriadol a wnaed gan y staff yn ystod cyfnod hynod heriol. Rydym yn cydnabod ymrwymiad, gwydnwch a hyblygrwydd staff sydd wedi gweithio'n ddiflino i ddarparu gofal i gleifion.



## Yr Amgylchedd

Gwnaethom ystyried y ffordd y gwnaeth gwasanaethau gynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn cynnal diogelwch y cleifion, y staff ac ymwelwyr.

Gwnaed newidiadau sylweddol i'r amgylchedd ffisegol er mwyn sicrhau bod modd cadw pellter cymdeithasol mewn lleoliadau ysbyty. Mae hyn yn cynnwys lleihau nifer y gwelyau, systemau un ffordd gydag arwyddion a mynedfeydd ac allanfeydd ar wahân. Roedd nifer y bobl yn y safleoedd yn cael ei reoli'n ofalus er mwyn lleihau nifer y bobl ar y safle ar unrhyw adeg, gan gynnwys staff ac ymwelwyr. Cawsom wybod hefyd am staff yn cyflwyno dulliau digidol er mwyn i gleifion gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Roedd timau amlddisgyblaethol hefyd wedi cadw mewn cysylltiad yn ddigidol ac wedi parhau i gynnwys teulu a gofalwyr a all fod yn fwy effeithlon a lleihau amser teithio. Dylai byrddau iechyd ystyried i ba raddau y gellir parhau i gynnal cyfarfodydd digidol ar ôl y pandemig, gan ystyried y defnydd mwyaf effeithlon o amser a'r ffordd fwyaf effeithiol o gynnwys cleifion a theuluoedd o ystyried eu hamgylchiadau.

Fel rhan o'n Gwiriadau Ansawdd, gwnaethom ystyried a oedd yr holl leoliadau wedi cwblhau asesiadau risg amgylcheddol. Gwnaethom nodi nifer o leoliadau lle roedd y rhain wedi'u cynnal ond nad oeddent yn gyfredol, neu lle nad oedd camau dilynol wedi cael eu cwblhau, yn enwedig pan oedd angen gwaith cyfalaf ar raddfa fwy. Rydym yn argymell bod asesiadau risg yn cael eu diweddaru ac yr eir i'r afael ag unrhyw feysydd risg a nodir ynddynt.

## Atal a Rheoli Heintiau

gwnaethom ystyried y ffordd y mae gwasanaethau wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan y pandemig, a oedd yn cynnwys pa mor dda y maent yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel.

Mae trefniadau atal a rheoli heintiau priodol ac effeithiol yn rhan hanfodol o'r strategaeth ar gyfer lleihau trosglwyddiad feirws COVID-19. Gwelsom fod nifer o drefniadau cadarnhaol ar waith i gryfhau trefniadau atal a rheoli heintiau ym mhob lleoliad, a oedd yn cynnwys pwyslais cryf ar hylendid dwylo, glendid a darparu'r cyfarpar diogelu personol (PPE) cywir a'i ddefnyddio'n briodol.

Defnyddiodd ysbytai barthau gwahanol; coch ar gyfer cleifion sydd wedi cael canlyniad prawf positif ar gyfer COVID-19 a gwyrdd ar gyfer cleifion a oedd wedi cael prawf negatif, fel y nodwyd yn Fframwaith Gweithredu GIG Cymru ar gyfer COVID-19. Er bod pob lleoliad yn cwblhau ymchwiliadau ar ôl brigiad o achosion COVID-19, nodwyd rhai enghreifftiau gennym lle gellid atgyfnerthu'r broses a lle gellid rhannu'r gwersi a ddysgwyd. Gwelsom drefniadau ar waith ar gyfer profi cleifion a staff er mwyn nodi achosion positif o COVID-19.

Gwnaethom gadarnhau bod gan bob lleoliad ganllawiau priodol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau, a'i fod wedi cwblhau asesiadau risg atal a rheoli heintiau yn ddiweddar. Nodwyd gennym fod y rhain ar waith ac yn hygyrch i'r staff bron bob amser; fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd yr holl gamau dilynol wedi'u cwblhau'n llawn ym mhob lleoliad. Asesiadau risg yw'r sail ar gyfer sicrhau bod rheolau atal a rheoli heintiau yn cael eu cymhwyso'n llawn ac yn benodol i leoliad, a gall unrhyw fylchau gael effaith sylweddol ar y system yn ei chyfanrwydd.

Un maes allweddol sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod ein gwaith yw'r angen i wasanaethau gofal iechyd barhau i gryfhau eu trefniadau atal a rheoli heintiau er mwyn lliniaru'r risg o unrhyw frigiadau o achosion o COVID-19 yn y dyfodol.

Rydym yn gwybod y bydd y feirws yn parhau i ddatblygu, ac er ein bod o'r farn bod y gwaith o reoli heintiau wedi cael ei reoli'n briodol ar y cyfan, bydd angen i leoliadau ysbyty barhau i ddysgu o frigiadau a gweithio i leihau trosglwyddiad y feirws cymaint â phosibl yn y dyfodol.

## Llywodraethu

gwnaethom ystyried a oedd trefniadau rheoli yn sicrhau bod digon o staff a oedd wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Mae'n amlwg bod y pandemig wedi cael effaith ar lesiant staff, a bydd yn parhau i effeithio arnynt. Ym mhob un o'n Gwiriadau Ansawdd, canmolodd yr uwch-aelodau o staff eu timau, sydd wedi gweithio'n ddiflino dan bwysau mawr. Dywedodd pob uwch-aelod o staff wrthym am strwythurau cymorth ychwanegol ffurfiol ac anffurfiol a roddwyd ar waith er mwyn helpu i gynnal a gwella llesiant meddwl ymhlith timau.

Cyn pandemig COVID-19, roedd ein harolygiadau o safleoedd ysbytai yn nodi'n rheolaidd ei bod yn anodd i'r staff neilltuo amser ar gyfer hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau perfformiad. Mae'r diffyg hyfforddiant wyneb yn wyneb a'r pwysau ychwanegol yn sgil y pandemig wedi gwaethygu'r sefyllfa. Nid yw hyfforddiant gorfodol bob amser yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae'n ffordd allweddol o sicrhau y gall staff ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion mewn meysydd pwysig.

Wrth i ni barhau ar hyd llwybr o ansicrwydd ac adfer, bydd y pwysau a'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau gofal iechyd wrth iddynt fynd i'r afael â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaethau yn cynyddu. Ni ddylid tanamcangyfrif yr effaith negyddol bosibl ar lesiant y staff. Bydd angen i wasanaethau sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol, er enghraifft digon o amser ar gyfer cyfarfodydd goruchwylio, digon o amser gorffwys, gwasanaethau cymorth hygyrch a gwaith ymgysylltu effeithiol gan reolwyr ac arweinwyr.

## Ysbytai Maes

Gwnaethom gynnal dau arolygiad â phwyslais penodol o ysbytai maes Hywel Dda ym mis Hydref 2020 ar safleoedd a droswyd yn ddiweddar o'u defnydd gwreiddiol er mwyn paratoi ar gyfer ail don y pandemig yn 2020. Ar adeg ein hymweliad, roedd y ddau safle yn wag ac yn cwblhau'r paratoadau terfynol ar gyfer derbyn cleifion.




Gwelsom dystiolaeth o waith cynllunio helaeth gan y gwasanaeth er mwyn paratoi ar gyfer darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion yn yr amgylcheddau unigryw. Roedd y bwrdd iechyd wedi sefydlu model llywodraethu newydd i reoli maint a chymhlethdod y prosiect, gan gynnwys nifer o ffrydiau gwaith a oedd yn cynnwys llawer o asiantaethau partner.

Roedd y bwrdd iechyd wedi profi hyfywedd sefydlu a gweithredu ysbyty maes drwy agor Ysbyty Enfys Caerfyrddin fel ysbyty peilot am gyfnod o wyth wythnos yn ystod haf 2020. Roedd hyn yn golygu y gallai brofi'r amgylcheddau, y gweithlu, y llawlyfr gweithredu cyfarpar, meini prawf cleifion, proses y panel a thechnoleg.

## Meddygon Teulu

Gwnaethom addasu ein dull Gwirio Ansawdd er mwyn gwirio ansawdd y gofal yr oedd meddygon teulu yn ei ddarparu yn ystod y pandemig. Eto roedd hyn yn seiliedig ar y tri maes a nodwyd fel hanfodol i ddarparu gofal diogel i gleifion yn ystod y pandemig, er i ni addasu ein llinellau o holi i ystyried sut mae gwasanaethau meddygon teulu yn cael eu darparu a'r math o ofal y maent yn ei roi.

Gwnaethom gynnal wyth Gwiriad Ansawdd, a oedd yn cwmpasu pob bwrdd iechyd yng Nghymru. Ein barn gyffredinol yw bod y gwasanaethau a wiriwyd gennym gan ddefnyddio'r dull hwn wedi'u rheoli i safon dda. Mae'r apwyntiadau rhithwir a gyflwynwyd ar ddechrau'r pandemig wedi newid y ffordd y mae meddygfeydd yn gweithredu yn sylweddol. Mae'r gofyniad parhaus i gadw pellter cymdeithasol a'r cynnydd yn y gofynion atal a rheoli heintiau ym mhob rhan o'r sector gofal iechyd yn debygol o olygu nad ateb dros dro ar gyfer cyfnod y pandemig yn unig oedd y dull hwn o gynnal apwyntiadau.

Rhaid i'r sector ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â'r model hwn yn llawn er mwyn sicrhau bod risgiau fel allgáu digidol, diogelwch ar-lein ac addasrwydd cyffredinol y dull hwn o gynnal apwyntiadau yn cael eu lliniaru cymaint â phosibl.

Gwelsom fod newidiadau sylweddol wedi'u gwneud i gynllun y practisau er mwyn cadw pellter cymdeithasol a rheoli heintiau. Gwelsom uwch-aelodau o staff ymroddedig a oedd yn awyddus i ddarparu gwasanaeth o ansawdd a gwybodaeth fanwl am weithdrefnau atal a rheoli heintiau.

Gwnaethom siarad â rheolwyr practisau a meddygon teulu arweiniol ym mhob un o'n Gwiriadau Ansawdd, a oedd bob amser yn canmol yr ymroddiad a ddangoswyd gan y timau staff. Mae practisau meddygon teulu yn lleoliadau bach â thimau bach o staff, a gall fod yn anoddach sicrhau gwydnwch ac ansawdd parhaus y gwasanaeth. Fodd bynnag, roedd pob practis a wiriwyd gennym wedi rheoli swyddi gwag ac absenoldebau byr yn dda ac wedi parhau i ddarparu ei wasanaethau.



## Yr Amgylchedd

Gwnaed newidiadau sylweddol i amgylchedd practisau oherwydd yr angen parhaus i gleifion gael apwyntiadau wyneb yn wyneb. Disgrifiodd y practisau lle y gwnaethom gynnal ein gwiriadau systemau unffordd a weithredwyd ganddynt, enghreifftiau o leihau nifer y cadeiriau mewn ardaloedd aros a chael gwared ar garpedi neu ffabrig meddal a rhoi arwynebau y gellir eu sychu yn eu lle.

Gwnaethom ystyried y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau y gallai meddygon teulu gynnal ymweliadau â chartrefi yn ddiogel ac yn unol â gweithdrefnau COVID-19 pe bai'n rhaid. Mewn rhai practisau, gwelsom fod trefniadau ar waith i roi pecynnau parod i glinigwyr er mwyn sicrhau bod cyfarpar addas a PPE wrth law yn rhwydd. Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau o achosion lle na chafodd asesiadau risg COVID-19 eu cynnal cyn i'r staff gwblhau ymweliad cartref. Felly, rydym yn argymell y dylai meddygon teulu gynnal asesiad risg COVID-19 priodol cyn ymweliadau cartref, er mwyn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19.

## Atal a Rheoli Heintiau

Roedd yn galonogol gweld bod y rhan fwyaf o bractisau wedi gwneud amrywiaeth o welliannau i reolaethau atal a rheoli heintiau. Yn amlwg, mae'r rhain yn hanfodol yn ystod y pandemig er mwyn helpu i leihau achosion o drosglwyddo'r feirws. Gwelsom fod llawer o drefniadau cadarnhaol ar waith i gryfhau prosesau atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys pwyslais cryf ar hylendid dwylo a glendid. Gwelsom hefyd fod lleoliadau wedi ymdrechu i sicrhau bod y cyfarpar diogelu personol (PPE) cywir wedi'i ddarparu, ac wedi rhoi hyfforddiant i'r staff ar sut i'w ddefnyddio'n gywir.

Ar y cyfan, gwelsom fod asesiadau risg atal a rheoli heintiau ar waith, a pholisïau a gweithdrefnau wedi'u diweddaru er mwyn helpu'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

## Llywodraethu

Gwelsom fod asesiadau risg ar waith i sicrhau bod y staff yn ddiogel i weithio yn y practisau. Hefyd, roedd llawer o staff a oedd yn gwarchod neu a oedd yn wynebu risg uwch wedi cael eu cefnogi i weithio gartref lle bo hynny'n bosibl. At ei gilydd, roedd trefniadau mwy hyblyg wedi'u rhoi ar waith, a oedd yn galluogi'r staff i gael cydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith.





## Meddygon Teulu

Gwelsom rywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod trefniadau clwstwr meddygon teulu yn ystod y pandemig wedi gweithio'n dda. Mewn rhai clystyrau, datblygwyd gwasanaeth asesu ar y cyd ar gyfer COVID-19, a ddarperir ar sail rota rhwng partneriaid meddygon teulu pob practis er mwyn cynnal gofal staff a chleifion. Gwelsom enghraifft gadarnhaol lle roedd un clwstwr wedi bod yn rhagweithiol wrth ddatblygu menter newydd a oedd yn edrych ar batrymau atgyfeirio o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, er mwyn sicrhau bod lefelau gweithgarwch yn cael eu cynnal, yn enwedig mewn perthynas ag atgyfeirio cleifion canser. Rydym yn ystyried bod hyn yn enghraifft o arfer da, ac mae'n rhywbeth y dylai practisau eraill ei ystyried er mwyn helpu i sicrhau bod grwpiau o gleifion sy'n agored i niwed yn cael gofal amserol, ac er mwyn lleihau'r niwed ehangach posibl yn sgil COVID-19.



## Canolfannau Brechu Torfol

Er bod lleoliadau meddyg teulu yn cynnal clinigau ar gyfer brechlynnau ffliw yn rheolaidd, roedd nifer y bobl a chyflymder bwriadedig rhaglen frechu COVID-19 yn golygu bod angen lleoliadau ar wahân er mwyn rhoi'r Strategaeth Frechu i Gymru ar waith. Gwnaethom arolygu wyth Canolfan Brechu Torfol ym mis Ebrill 2021.

Rhoesom holiaduron i'r cleifion a'r staff mewn Canolfannau Brechu Torfol, gan ddefnyddio ein hadnodd arolygu electronig a holiaduron papur. Cawsom 594 o ymatebion gan gleifion a 90 o ymatebion gan staff.

Gwelsom fod y byrddau iechyd wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i oruchwylio'r broses o weithredu eu rhaglenni brechu yn ddiogel, er gwaethaf yr amgylcheddau unigryw a pha mor gyflym y maent wedi cael eu paratoi a'u staffio. Gwelsom enghreifftiau cadarnhaol o frechlynnau COVID-19 yn cael eu rheoli'n ddiogel, mesurau atal a rheoli heintiau da a staff ymroddedig sy'n gweithio'n galed yn rhoi gofal diogel i gleifion.

**100%**

Roedd 100% o'r staff a ymatebodd o'r farn fod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwneud rhai gwelliannau yn ystod ein hymweliadau er mwyn cynnal diogelwch y cleifion, gan gynnwys cynnal mwy o archwiliadau, sicrhau cydymffurfiaeth well â gweithdrefnau diogelwch tân a gwagio'r adeilad, ac archwilio cyfarpar dadebru yn fwy rheolaidd. Lle y gwelsom y materion hyn, aeth pob un o'r byrddau iechyd ati'n brydlon ac effeithiol i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd.

**95%**

Dywedodd 95% o'r staff a oedd yn gweithio mewn canolfan frechu bwrdd iechyd eu bod wedi cael yr hyfforddiant perthnasol i'w galluogi i gyflawni'r rôl yn y ganolfan frechu yn hyderus.

## Iechyd Meddwl

Mae darparu gofal iechyd meddwl yn ystod y pandemig wedi bod yn fater heriol a chymhleth i'r GIG ac i ddarparwyr gwasanaethau gofal iechyd annibynnol.

Gwnaethom addasu ein dull gweithredu newydd o gynnal Gwiriadau Ansawdd o bell ar gyfer y rhan fwyaf o'n gwaith mewn lleoliadau gofal iechyd meddwl. Gwnaeth y dull hwn ein galluogi i geisio sicrwydd gan wasanaethau ar adeg pan oedd y trothwy risg ar gyfer cynnal ymweliadau arolygu ar y safle yn arbennig o uchel oherwydd lledaeniad COVID-19. Mae'r ffigurau isod hefyd yn dangos ein bod wedi cymhwyso ein dull arolygu llawn ar y safle ar saith achlysur pan oeddem o'r farn bod pryder digonol o ran lefel y risg i ddiogelwch cleifion. Drwy gydol y pandemig, gwnaethom hefyd barhau i weithredu ein Gwasanaeth Adolygu ar gyfer Iechyd Meddwl (RSMH), a'n prosesau pryderon a hysbysiadau. Gwnaethom hefyd barhau i ymateb i gleifion mewn lleoliadau iechyd meddwl a gysylltodd â ni yn ystod y cyfnod.

Gwnaethom gynnal y canlynol:

- Tri deg tri o Wiriadau Ansawdd: deunaw o ddarparwyr gofal iechyd y GIG a pymtheg o ddarparwyr gofal iechyd annibynnol
- Saith ymweliad arolygu ar y safle: un darparwr gofal iechyd y GIG a chwe darparwr gofal iechyd annibynnol.

Gwnaethom adolygu a, lle y bo angen, ceisio sicrwydd pellach ynghylch:

- 151 o bryderon gan gleifion
- 553 o Hysbysiadau Rheoliad 30 a 31[4].

Gwelsom fod y pandemig yn gofyn am newid cyflym a digynsail i'r ffordd roedd gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu ledled Cymru, ac er bod llawer o'r gwasanaethau gofal iechyd meddwl a ystyriwyd gennym wedi ymdopi'n dda, clywsom hefyd fod y pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar gleifion a staff mewn rhai ardaloedd.



[4] Mae Rheoliadau 30 a 31 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i berson cofrestredig ysbyty annibynnol, clinig annibynnol neu asiantaeth feddygol annibynnol roi gwybod i ni am ddigwyddiadau penodol sy'n gysylltiedig â diogelwch y cleifion. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol.

## Atal a rheoli lledaeniad COVID-19

Roedd yn gadarnhaol gweld bod trefniadau wedi'u rhoi ar waith mewn llawer o leoliadau i roi gwybodaeth i gleifion am y pandemig a'r cyfyngiadau cenedlaethol a lleol. Roedd asesiadau risg unigol a chynlluniau rheoli gofal yn ymwneud â threfniadau COVID-19 wedi'u rhoi ar waith i gefnogi cleifion, ac i hyrwyddo dealltwriaeth ynghylch pwysigrwydd cadw pellter cymdeithasol, hylendid dwylo da, a'r defnydd o fasgiau wyneb i ddiogelu eu hunain ac eraill.

Gwelsom fod gwasanaethau gofal iechyd meddwl wedi cyflwyno mesurau atal a rheoli heintiau newydd i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19, ac wedi cyflwyno newidiadau ymarferol a gweithdrefnol i alluogi parhad gofal ac i gefnogi llesiant cleifion a staff drwy gydol y pandemig. Cyflwynwyd trefniadau newydd i addasu'r amgylchedd gofal, a gwnaethom ddysgu am y newidiadau a wnaed er mwyn sicrhau bod lleoliadau yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar gyfer cadw pellter cymdeithasol ac atal a rheoli heintiau.

Caiff llawer o ofal iechyd meddwl cleifion mewnol yng Nghymru ei ddarparu mewn lleoliadau sy'n cynnig cyfleusterau ystafell wely sengl en-suite, sef amgylchedd sy'n addas ar gyfer cadw pellter cymdeithasol ac ynysu cleifion yr amheuir neu y cadarnheir bod ganddynt COVID-19. Fodd bynnag, caiff rhai gwasanaethau eu darparu mewn lleoliadau hŷn, a chlywsom fod ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud i ailgynllunio rhai ardaloedd clinigol er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws; gwelsom fod hyn yn anos ei gyflawni mewn rhai cyfleusterau nag eraill.

## Gofal urddasol a lleiaf cyfyngol

O ganlyniad i'r cyfyngiadau cenedlaethol a lleol, nid oedd yn bosibl rhoi caniatâd weithiau i gleifion fod yn absennol, neu gael ymweliadau gan deulu a ffrindiau. Hefyd, newidiodd y gofyniad i gadw pellter cymdeithasol a'r angen i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) y ffordd y cafodd gofal iechyd meddwl cleifion mewnol ei ddarparu drwy gydol y pandemig.

Roedd yn galonogol clywed cleifion yn siarad yn gadarnhaol am eu cydberthynas â'r staff a'r rhyngweithio yn ystod ein hymweliadau arolygu. Hefyd, gwelsom y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus yn ystod ein hymweliadau arolygu.  Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi pwysleisio pwysigrwydd gweithgareddau hamdden a chymdeithasol ystyrlon, ac roeddem yn falch gweld bod ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud i ddatblygu gweithgareddau




ychwanegol i gefnogi cleifion yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys therapïau a gweithgareddau addysgol a hamdden. Rydym yn annog darparwyr gwasanaethau yn gryf i barhau i gynnig y ddarpariaeth ychwanegol hon ar ôl y pandemig.

Dywedwyd wrthym y gellid defnyddio galwadau fideo i alluogi cleifion i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau yn ystod cyfnodau pan nad oedd trefniadau ymweld ac absenoldeb yn cael eu caniatáu. Fodd bynnag, gwelsom fod mynediad gwael at Wi-Fi mewn rhai cyfleusterau a mynediad gwael at ffonau symudol y wardiau, ac am fod mynediad cleifion at ffonau personol a dyfeisiau electronig eraill yn dibynnu ar asesiad risg neu eu lefel annibyniaeth, roedd yn destun pryder y gallai hynny fod wedi rhwystro cyswllt â theulu a ffrindiau i rai cleifion. Rydym yn annog lleoliadau gofal iechyd meddwl felly i sicrhau eu bod yn manteisio ar bob cyfle, ac yn rhoi cymorth lle y bo angen, i alluogi cleifion i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud yn ystod cyfnodau pan gafodd y cyfyngiadau eu llacio i sicrhau y gallai ymweliadau ailddechrau mewn ffordd ddiogel a chefnogol. Roedd rhai lleoliadau wedi prynu celfi gardd ychwanegol neu wedi neilltuo lle penodol ar gyfer ymweliadau. Roedd gweithdrefnau glanhau gwell a threfniadau 'tracio ac olrhain' wedi eu cyflwyno. Gwelsom fod trefniadau ymweld yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan a bod yr asesiadau risg angenrheidiol ar waith i sicrhau diogelwch cleifion, ymwelwyr a staff.

## Gofal diogel ac effeithiol

Dywedwyd wrthym am drefniadau a gyflwynwyd i alluogi cleifion i gymryd rhan mewn ymgyngoriadau ag aelodau o'r tîm gofal amlddisgyblaethol, neu ag eiriolwyr ac i gymryd rhan mewn tribiwnlysoedd adolygu iechyd meddwl gan ddefnyddio cyfleusterau ffôn a fideo-gynadledda. Roeddem yn pryderu, fodd bynnag, y gallai rhai cleifion fod wedi cael eu hallgáu'n ddigidol ac felly roeddem o'r farn nad oedd defnyddio dulliau ymgysylltu digidol yn gynhwysol. Rydym yn annog lleoliadau gofal iechyd meddwl i geisio adborth gan gleifion ar eu profiad er mwyn cael gwybod a oeddent yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys mewn trafodaethau am eu gofal a'u triniaeth yn ystod y pandemig, ac wedi gallu cymryd rhan ynddynt.



Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi gwneud sylwadau am amrywioldeb ansawdd a chadernid asesiadau risg, a dogfennaeth cynllunio gofal a thriniaeth, felly roedd yn galonogol gweld enghreifftiau o arferion da yn y maes hwn yn ystod ein hymweliadau arolygu. Mewn rhai achosion, gwelsom dystiolaeth bod dogfennaeth gofal ac asesiadau risg wedi gwella yn dilyn arolygiadau cynharach. Fodd bynnag, gwnaethom barhau i weld enghreifftiau o gynllunio gofal ac asesiadau risg annigonol, ac at ei gilydd, mae angen gwelliannau ym mhob agwedd ar ddogfennaeth gofal o hyd er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chwblhau i'r safon ofynnol.

Drwy ein Gwiriadau Ansawdd a'n hymweliadau arolygu, gwnaethom ystyried a oedd asesiadau risg wedi cael eu cynnal ac a weithredwyd arnynt, ac mewn blynyddoedd blaenorol, gwnaethom nodi bod angen gwaith cynnal a chadw ac ailaddurno arferol a gosodiadau, ffitiadau a chelfi newydd mewn rhai lleoliadau. Roeddem yn bryder gweld arferion anghyson mewn perthynas â chwblhau asesiadau risg a chamau lliniarol ar gyfer pwyntiau clymu yn amserol ac yn briodol mewn nifer sylweddol o leoliadau gofal iechyd meddwl y GIG.

Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd camau wedi'u cymryd i leihau neu gael gwared ar risgiau a nodwyd ynghylch pwyntiau clymu, yn ogystal ag asesiadau risg a oedd wedi'u cynnal dros 12 mis yn ôl. O ganlyniad, gwnaethom ysgrifennu at Brif Weithredwr GIG Cymru i fynegi ein pryderon ac i ofyn am i gamau gweithredu gael eu cymryd yn y maes hwn.

## Y Gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD)

Mae AGIC yn gweithredu'r gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) i Gymru ac rydym yn penodi ymarferwyr meddygol cofrestredig i gymeradwyo rhai mathau o driniaeth. Ar hyn o bryd, mae gennym Gytundebau Fframwaith Gwasanaeth gyda 19 o feddygon SOAD i ddarparu'r gwasanaeth hwn yng Nghymru. Rôl SOAD yw diogelu hawliau cleifion sy'n cael eu cadw o dan y Ddeddf ac nad ydynt yn cydsynio i driniaeth neu nad oes ganddynt y galluedd i wneud hynny (triniaethau o dan adran 58 a 58A). Bydd SOAD unigol yn llunio ei farn ei hun am raddau a natur anhwylder meddwl claf unigol a ph'un a oes gan y claf y galluedd i gydsynio ai peidio.

Rhaid iddo hefyd fod yn fodlon bod barn a hawliau'r claf wedi'u hystyried. Os bydd yn fodlon, bydd y SOAD yn rhoi tystysgrif statudol sy'n darparu'r awdurdod cyfreithiol i roi'r driniaeth. Ar ôl ystyried barn y claf a'r clinigydd cymeradwy yn ofalus, mae gan SOAD yr hawl i newid y driniaeth arfaethedig. Er enghraifft, gall SOAD benderfynu awdurdodi rhan o'r driniaeth arfaethedig yn unig, neu gyfyngu ar faint o therapïau electroddirdynnol (ECT) a roddir.

Mae gan feddygon SOAD gyfrifoldeb i sicrhau bod y driniaeth arfaethedig er budd pennaf y claf. Dylai'r clinigydd cymeradwy priodol atgyfeirio claf at AGIC ar gyfer SOAD mewn perthynas â'r canlynol:

- cleifion a allai gael eu cadw sy'n destun Gorchymyn Triniaeth Gymunedol (Adran 17A) nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i driniaeth arfaethedig neu nad ydynt yn cydsynio ar gyfer cleifion Rhan 4A
- triniaethau difrifol a mewnwthiol fel seicolawdriniaeth neu offerynnau llawfeddygol at ddiben lleihau ysfa rywiol dynion (Adran 57)
- cleifion o unrhyw oed sy'n cael eu cadw, nad ydynt yn cydsynio neu nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i driniaethau o dan Adran 58 (Adran 58)
- cleifion dan 18 oed, boed yn gleifion sy'n cael eu cadw neu'n gleifion anffurfiol, y cynigir rhoi therapi electroddirdynnol (ECT) iddynt, pan fydd y claf yn cydsynio a bod ganddo'r galluedd i wneud hynny (Adran 58A)
- cleifion o unrhyw oed sy'n cael eu cadw, nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i therapi electroddirdynnol (ECT) (Adran 58A).

Oherwydd pandemig parhaus COVID-19 a'r pryderon iechyd a diogelwch yn ymwneud ag ymweliadau ar y safle ar gyfer meddygon SOAD, rydym yn parhau i weithredu methodoleg ddiogel dros dro o ran COVID-19 ar gyfer gwasanaeth SOAD.  Mae ymweliadau ysbytai ar y safle wedi cael eu hatal dros dro, ac yn parhau felly, ac ar hyn o bryd, cynhelir apwyntiadau dros y ffôn neu drwy ddulliau telegynadledda.

Rydym yn parhau i weithio gyda gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl mewn byrddau iechyd a darparwyr annibynnol er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael mynediad amserol at SOAD yn y ffordd fwyaf didrafferth er mwyn sicrhau y caiff hawliau cleifion eu diogelu.

Yng Nghymru yn ystod 2020-2021, cafwyd 956 o geisiadau am ymweliad gan SOAD ac mae hyn yn gyson â ffigurau o 2019-2020.

Roedd y ceisiadau hyn yn cynnwys y canlynol:

- 869 o geisiadau yn ymwneud ag ardystio meddyginiaeth
- Chwedeg o geisiadau yn ymwneud ag ardystio ECT
- Saith ar hugain o geisiadau yn ymwneud â meddyginiaeth ac ECT.

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi'r ceisiadau fesul blwyddyn:

| Ceisiadau am ymweliadau gan SOAD, yn 2020-2021 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Meddyginiaeth | ECT | Y Ddau | Cyfanswm |
| 2020-2021 | 869 | 60 | 27 | 956 |

Darperir rhaglen hyfforddiant reolaidd i bob SOAD er mwyn annog arferion gorau. Yn 2020-2021, cynhaliwyd dau ddigwyddiad hyfforddi, gan ganolbwyntio ar bynciau ECT a meddyginiaethau Gwrthseicotig.

Adolygiad o driniaeth (Adran 61)

Ar ôl i gynllun triniaeth gael ei awdurdodi gan ymarferydd meddygol awdurdodedig (SOAD) a benodwyd gan AGIC, rhaid i'r clinigydd cyfrifol sy'n gyfrifol am driniaeth y claf ddarparu adroddiad ar driniaeth a chyflwr y claf a'i gyflwyno i AGIC. Caiff y ffurflen ddynodedig ei darparu i swyddfa Gweinyddwyr y Ddeddf Iechyd Meddwl ar gyfer pob bwrdd iechyd lleol a lleoliad annibynnol i'r Clinigydd Cyfrifol ei chwblhau. Am y pumed flwyddyn yn olynol, cynhaliodd AGIC archwiliad o'r ffurflenni hyn er mwyn sicrhau bod mesurau digonol ar waith i ddiogelu cleifion. Caiff y triniaethau eu hadolygu gan ein SOAD arweiniol i Gymru bob mis.

Rydym wedi cynnwys y gwelliannau a nodwyd y llynedd fel rhan o'r broses adolygu ac rydym yn gweld llai o anghysondebau. Mae gwelliannau pellach o'n hadroddiad blaenorol yn parhau mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Mae ambell achlysur o hyd lle mae mwy o feddyginiaethau wedi'u rhestru o dan y disgrifiad o'r driniaeth nag a awdurdodwyd ar y ffurflen CO3
- Mae copïau o ffurflenni CO2 a CO3 (os yw hynny'n berthnasol) bob amser yn cael eu hatodi i'r ffurflen adolygiad o driniaeth sy'n galluogi proses adolygu amserol ac effeithlon.
- Achlysuron clir lle mae angen ffurflen adolygiad o driniaeth A61 ar gyfer byrddau iechyd a lleoliadau annibynnol niferus drwy gydol y flwyddyn sydd wedi sicrhau bod cleifion a gedwir yn cael eu hadolygiadau A61 fel sy'n briodol.

Rydym wedi parhau i weld nad yw gwybodaeth am statws cydsyniad a chapasiti cleifion yn cael ei chofnodi'n gywir yn y cofnodion a gyflwynir i ni. Rydym yn bwriadu ailddylunio'r ffurflenni hyn yn y dyfodol agos er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ofynnol yn fwy amlwg.

Caiff y ffurflenni adolygiad o driniaeth eu harchwilio'n barhaus, ac adroddir ar ganfyddiadau pellach yn ein hadroddiad ar gyfer 2021-2022.

[5]Rheoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidwaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydsynio i Driniaeth) (Cymru) 2008 yw'r prif reoliadau sy'n ymdrin ag arfer pwerau gorfodol mewn perthynas â phersonau a allai gael eu cadw mewn ysbyty neu dan warcheidiaeth, ynghyd â chleifion cymunedol, o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae'r Rheoliadau'n rhagnodi'r ffurflenni i'w defnyddio wrth arfer pwerau o dan y Ddeddf, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodlen 1 o'r Rheoliadau. Daeth y Rheoliadau hyn (a'r ffurflenni a ragnodir) i rym ar 3 Tachwedd 2008 ac maent yn cynnwys ffurflenni CO.

## Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (IR(ME)R)

AGIC sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth yn erbyn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Bwriedir i'r rheoliadau amddiffyn pobl rhag peryglon sy'n gysylltiedig ag ymbelydredd ïoneiddio. Mae ein gwaith arolygu yn edrych i weld a yw gwasanaethau'n cydymffurfio â'r rheoliadau hyn (IR(ME)R) ynghyd â ph'un a gaiff gofal a thriniaeth eu darparu yn unol â Safonau Iechyd a Gofal Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2020-2021, cwblhaodd AGIC bum arolygiad IR(ME)R, yn cwmpasu tri dull amlygiad meddygol. Roedd yr arolygiadau hyn hefyd yn cwmpasu ysbytai'r GIG ac ysbytai annibynnol.

Oherwydd pandemig COVID-19, cafodd yr arolygiadau hyn eu cynnal o bell. O safbwynt cydymffurfio â IR(ME)R, ni wnaeth hyn lawer o wahaniaeth am ein bod yn dal i allu gofyn i ddarparwyr gynnal yr hunanasesiad llawn a chynnal yr un trafodaethau ag y byddem wedi'u cael yn ein harolygiadau ar y safle, er bod hynny'n digwydd yn rhithwir yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, roedd yn golygu nad oedd cyfle i ni arsylwi ar yr amgylchedd lle roedd y gwasanaethau'n cael eu darparu nac i siarad â chleifion yn uniongyrchol am eu profiad. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, gwnaethom ddatblygu arolwg cleifion ar-lein; roedd y cod QR i gael mynediad at yr arolwg wedi'i arddangos ar bosteri yn y gwasanaethau y gwnaethom eu harolygu a gwnaethom hyrwyddo'r arolygon drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Cafodd AGIC pumdeg wyth o holiaduron cleifion IR(ME)R a pumdeg tri o holiaduron staff wedi'u cwblhau yn cwmpasu'r pum arolygiad hyn.

### Canfyddiadau

Roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol dros ben gyda'r cleifion yn cadarnhau eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a'u bod wedi cael help i ddeall risgiau a buddiannau'r driniaeth roeddent yn ei derbyn. Gwelsom hefyd dystiolaeth i ddangos bod trefniadau clir ar waith i gleifion roi adborth ar eu profiad. Mae hyn yn ganfyddiad cadarnhaol am ein bod wedi argymell bod angen gwneud mwy yn y maes hwn yn y gorffennol.

Yn ystod ein gweithgarwch sicrwydd IR(ME)R gwnaethom gyfarfod â thîm ymroddedig o weithwyr proffesiynol, gydag ethos gwaith tîm da. Ar y cyfan, roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn dangos ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag IR(ME)R a chawsom sicrwydd bod archwiliadau ar bob safle a arolygwyd yn cael eu cynnal yn ddiogel.

**97%**

Roedd 97% o'r cleifion IR(ME)R a arolygwyd o'r farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch yn ystod eu hapwyntiad.

**94%**

Roedd 94% o'r cleifion IR(ME)R a arolygwyd gennym, a gafodd apwyntiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf yn cytuno bod gweithdrefnau a oedd yn cydymffurfio o ran COVID-19 (e.e. y defnydd o fasgiau wyneb, gel diheintio dwylo) i'w gweld yn amlwg yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad.

**97%**

Dywedodd 97% o'r staff a ymatebodd i'r cwestiwn fod eu sefydliad wedi rhoi'r newidiadau amgylcheddol angenrheidiol ar waith er mwyn cydymffurfio o ran COVID-19.

## Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 (IR(ME)R)

Fodd bynnag, mae rhai themâu cyffredin wedi dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn gydag argymhellion tebyg ar gyfer gwella yn cael eu gwneud ar draws y pum darn o waith. Gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Gweithdrefnau'r cyflogwr (EP) – ar sawl achlysur, nodwyd gennym nad oedd y rhain yn rhoi digon o fanylion nac yn adlewyrchu'r arferion gwirioneddol y cytunwyd arnynt a ddisgrifiwyd gan y staff. Gwelsom hefyd nad oedd y gweithdrefnau yn gyfredol ac nad oeddent wedi cael eu hadolygu. Felly, er y gallai'r staff ddisgrifio arferion diogel i ni, ni allem fod yn sicr y byddai'r gweithdrefnau ysgrifenedig yn rhoi'r lefel o wybodaeth y byddai ei hangen ar staff locwm, staff asiantaeth neu staff newydd wrth gyflawni eu rolau perthnasol.

Roedd enghreifftiau o feysydd cyffredin lle nad oedd digon o fanylion yng ngweithdrefnau'r cyflogwr yn cynnwys y canlynol:

- Adrodd ar ddigwyddiadau damweiniol neu anfwriadol – gwnaethom dynnu sylw at y ffaith nad oedd gweithdrefnau'r cyflogwr ar adrodd ar ddigwyddiadau bob amser yn disgrifio'r broses yn ddigon manwl. Er enghraifft, pwy oedd yn gyfrifol am y gweithgarwch ar bob cam
- Lefelau Cyfeirio Diagnostig – nid oedd gweithdrefnau'r cyflogwr yn rhoi digon o fanylion ar amlder adolygiadau, y broses ddilysu a'r camau gofynnol gan staff pe rhoddid dosys uwch na'r dosys y cytunwyd arnynt yn gyson
- Gwelsom gyfeiriadau at IR(ME)R 2000, nad ydynt yn rheoliadau cyfredol, mewn gweithdrefnau a dogfennau eraill a welsom
- Nid oedd gweithdrefnau'r cyflogwr ar feichiogrwydd a dogfennau perthnasol bob amser yn defnyddio'r derminoleg a ddefnyddir yn IR(ME)R 2017. Hefyd, roedd gweithdrefnau'r cyflogwr ar ymholiadau beichiogrwydd yn faes cyffredin lle nad oedd yr ymarfer a ddisgrifiwyd gan y staff wedi'i adlewyrchu'n gywir yng ngweithdrefnau'r cyflogwr eu hunain

Rhoi hawl yw'r broses o ddiffinio'r rolau a'r tasgau y caniateir i unigolion, y cyfeirir atynt fel deiliad y ddyletswydd, ymgymryd â nhw. Nodwyd gennym nad oedd deiliaid y ddyletswydd bob amser wedi cael eu hysbysu'n ffurfiol am eu hawl a chwmpas yr ymarfer o dan IR(ME)R.

Mae archwilio clinigol yn elfen allweddol o ran sicrhau y darperir gofal a thriniaeth yn ddiogel ac mae'n sicrhau y rhoddir pwyslais ar welliant parhaus. Nid oedd y ddogfennaeth archwilio a welsom bob amser yn cynnwys digon o fanylion am amlder yr archwiliadau perthnasol nac yn nodi'n glir y camau roedd angen eu cymryd o ganlyniad i'r archwiliad.

Yn y rhan fwyaf o achosion, dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod uwch-reolwyr a'r sefydliad ehangach yn eu cefnogi. Fodd bynnag, gwnaethant ddweud eu bod yn cael trafferthion o ran eu capasiti i ymgymryd â'r holl dasgau perthnasol y mae'n ofynnol iddynt eu cyflawni fel deiliaid dyletswydd, yn enwedig archwilio clinigol.



## Deintyddfeydd

O ganlyniad i gyfyngiadau a gyflwynwyd yn ystod y pandemig ac yn unol â'n hymrwymiad i leihau'r baich ar ddarparwyr gofal iechyd er mwyn iddynt allu canolbwyntio ar gadw pobl yn ddiogel, mae ein gweithgarwch arolygu mewn cysylltiad â deintyddfeydd wedi lleihau'n sylweddol eleni.

Yn gynnar yn y pandemig (Mawrth-Gorffennaf 2020), roedd deintyddfeydd yn gweithio'n unol â Rhybudd Coch a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru a oedd yn eu hatal rhag rhoi unrhyw driniaeth oedd yn cynhyrchu aerosol a chawsant eu hannog i frysbennu cleifion dros y ffôn. Dim ond os nad oeddent yn dangos symptomau COVID-19 a bod angen triniaeth frys arnynt y câi cleifion eu gweld wyneb-yn-wyneb; hyd yn oed wedyn, byddai'n rhaid i gleifion gael eu cyfeirio at ganolfannau deintyddol brys pe byddai angen gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol i leddfu poen. Ers mis Gorffennaf 2020, mae deintyddfeydd wedi gallu darparu amrywiaeth ehangach o driniaethau gan ddibynnu ar barodrwydd y ddeintyddfa a chyffredinrwydd COVID-19 yn eu cymuned leol.

Gan mai triniaethau deintyddol cyfyngedig oedd ar gael yn ystod rhan gynnar y flwyddyn, gwnaethom ganolbwyntio ar gefnogi deintyddfeydd a rhoi gwybodaeth berthnasol a chyfredol iddynt er mwyn iddynt allu rheoli eu sefydliadau yn ddiogel yn ystod y pandemig. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom anfon 18 o gylchlythyrau at ddeintyddfeydd a gwnaethom ateb cannoedd o alwadau ffôn ac e-byst gan ddeintyddfeydd yn ceisio cyngor ar ddehongli'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol a chyrff arbenigol perthnasol eraill.

Rydym wedi parhau i gynnal arolygiadau lle y bo angen. Yn ystod 2020-2021, cyflwynwyd pryderon i ni mewn perthynas â 13 o bractisau deintyddol. Roedd y prif themâu yn y pryderon hyn yn ymwneud â darparwyr yn gweithredu y tu allan i gyfyngiadau COVID-19, a diffyg cydymffurfiaeth â chanllawiau a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol. Roedd hyn yn cynnwys pryderon ynghylch defnydd amhriodol o weithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol yn ystod y pandemig. Er y cafodd y rhan fwyaf o'r pryderon hyn eu datrys drwy geisio sicrwydd ysgrifenedig gan y ddeintyddfa, roedd pedwar achlysur lle na chawsom ddigon o sicrwydd drwy ohebiaeth ac roedd angen gwneud ymholiadau pellach drwy arolygu ar y safle. Nid ar chwarae bach y gwnaed y penderfyniad i arolygu, ac ym mhob achos gwnaed hyn ar sail y dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu bod diogelwch cleifion a/neu staff yn cael ei beryglu.



## Deintyddfeydd

Yn ystod yr arolygiadau hyn, gwnaethom nodi achlysuron lle roedd deintyddion wedi ymgymryd â gweithdrefnau a oedd yn cynhyrchu aerosol yn ystod y cyfnod Rhybudd Coch. Roedd y rhain yn cynnwys triniaethau ar gyfer adfer coronau dros dro, llenwadau parhaol a thriniaethau sianel y gwreiddyn. Er y gallai'r ymarferwyr deintyddol gyfiawnhau'r ffaith iddynt beidio â chydymffurfio â'r canllawiau Rhybudd Coch ar lafar, nid oedd y wybodaeth hon wedi'i chofnodi'n briodol yng nghofnodion deintyddol y cleifion. Ni allem felly fod yn sicr bod diogelwch y cleifion a staff y practis wedi cael ei ystyried yn briodol.

Gwnaethom hefyd nodi'r materion canlynol lle roedd Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer Rheoli Gofal Deintyddol cleifion nad ydynt wedi'u heintio â COVID-19 wedi cael eu cymhwyso'n anghywir:

- Roedd deintyddfa yn anniben ac roedd eitemau ynddi nad oedd modd eu glanhau'n effeithiol
- Ni chafodd cyfarpar diogelu personol ei newid ar ôl gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol a chyn i waith glanhau ddechrau
- Tystiolaeth annigonol o gydymffurfio â'r cyfnod segur rhwng gweithdrefnau, a heb gofnodi'r amser lle gorffennodd y rhan o'r driniaeth a oedd yn cynhyrchu aerosol
- Dim proses ddilysu arbenigol mewn perthynas â newidiadau aer yr awr (lle roedd y newidiadau aer yn anhysbys)
- Nid oedd cryfder y glanedydd a ddefnyddiwyd yn unol â'r argymhellion.

O ystyried y ffordd y caiff COVID-19 ei drosglwyddo yn yr awyr, roedd y canfyddiadau hyn yn destun pryder mawr ac yn peri risg sylweddol i ddiogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol ehangach. Felly arweiniodd ein harolygiadau at anfon nifer o Hysbysiadau Diffyg Cydymffurfio lle roedd angen i'r deintyddfeydd dan sylw wneud gwelliannau ar unwaith er mwyn cynnal diogelwch cleifion. Gwnaethom hefyd atal gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosol rhag cael eu darparu yn un o'r deintyddfeydd am gyfnod byr tra bod camau unioni yn cael eu cynnal.

Yn olaf, gwnaethom nodi problemau mewn un ddeintyddfa o ran darparu triniaeth tawelu ymwybodol. Nid yw'r driniaeth hon fel arfer ar gael i gleifion y GIG, felly mae ar gael fel opsiwn a ariennir yn breifat yn bennaf. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi datblygu methodoleg newydd sy'n ein galluogi i ystyried y trefniadau ar gyfer tawelu ymwybodol ac yn benodol, p'un a ydynt yn cydymffurfio â'r Safonau Gwasanaeth ar gyfer Tawelu Ymwybodol mewn lleoliad gofal deintyddol. Cafodd y Safonau hyn eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru drwy Gylchlythyr Iechyd Cymru ym mis Mehefin 2018, a byddem yn annog pob deintyddfa sy'n cynnig triniaeth tawelu ymwybodol i hunanasesu ei chymffurfiaeth â'r safonau hyn, o leiaf unwaith y flwyddyn, a sicrhau bod yr holl ddogfennaeth sy'n ofynnol gan y safonau ar gael i'w harchwilio gan AGIC.

## Gofal Iechyd Annibynnol

Parhaodd Ysbytai Annibynnol, Clinigau ac Asiantaethau Meddygol, ac eithrio'r rhai sy'n darparu triniaeth â laser at ddibenion cosmetig, i weithredu yn ystod y pandemig. Felly, roedd yn bwysig ein bod yn parhau i sicrhau bod cleifion yn dal i gael gofal da drwy ein Gwiriadau Ansawdd o bell a ddatblygwyd yn ddiweddar.


Byddai'r gwasanaethau hyn fel arfer yn cael eu harolygu bob tair blynedd ond cynigiodd y newidiadau i'n ffyrdd o weithio a'r broses o ddatblygu'r Gwiriad Ansawdd o bell gyfle i gynnal gweithgarwch sicrwydd ym mhob ysbyty acíwt a chynnal lefelau gweithgarwch ar gyfer pob math arall o wasanaethau cofrestredig.

Ar y cyfan, canfu'r gweithgarwch sicrwydd a gynhaliwyd ar wasanaethau annibynnol eleni ganfyddiadau cadarnhaol iawn. Yn ystod ein hadolygiad cenedlaethol o COVID-19, gwnaethom nodi a chyfeirio at ddatrysiadau arloesol a oedd yn cael eu darparu, ac roedd llawer o'r rhain yn rhai a nodwyd mewn ysbytai a chlinigau annibynnol drwy ein Gwiriadau Ansawdd. Mae'r canfyddiadau cyffredinol wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

## Ysbytai Annibynnol

Drwy gydol y pandemig, defnyddiwyd ysbytai annibynnol fel amgylcheddau heb COVID-19 er mwyn darparu gofal brys wedi'i drefnu, fel llawdriniaeth ar ran y GIG. Bu'r gefnogaeth hon yn hanfodol a gwelwyd ymdrech glir a phenodol i gadw ysbytai annibynnol ar agor ac atal trosglwyddiad nosocomiaidd COVID-19. Fel rhan o hyn cynhaliwyd asesiadau risg amgylcheddol cadarn, cynhaliwyd profion COVID-19 cyn derbyn cleifion, a gofynnwyd i gleifion hunanynysu gartref cyn iddynt ddod i'r ysbyty. Mae prosesau profi a brysbennu newydd ar waith ym mhob ysbyty erbyn hyn, sy'n anelu at nodi unrhyw gleifion â symptomau COVID-19 posibl.

Rydym yn ymwybodol o fentrau newydd a gyflwynwyd i helpu i gadw cleifion yn ddiogel yn ystod pandemig COVID-19. Mae hyn yn cynnwys un darparwr a gyflwynodd 'llwybrau cleifion' newydd mewn lliw er mwyn helpu i dywys cleifion o amgylch yr ysbyty. O dan y model hwn, mae'r llwybr y bydd y claf yn ei ddilyn yn dibynnu ar y gofyniad i gael prawf COVID-19 a hunanynysu cyn yr apwyntiad, a'r rheswm dros yr ymweliad. Credwn fod hyn yn fenter gadarnhaol, gan ei bod yn diffinio taith gofal iechyd briodol i'r cleifion ac, yn enwedig, y rhai sy'n fregus yn glinigol er mwyn helpu i leihau'r risg o haint posibl.



## Atal a Rheoli Heintiau

Mae trefniadau atal a rheoli heintiau priodol ac effeithiol wedi bod yn flaenoriaeth er mwyn helpu i leihau trosglwyddiad feirws COVID-19. Ym mhob ysbyty annibynnol, gwelsom fod trefniadau atal a rheoli heintiau gwell wedi cael eu cyflwyno a oedd yn cydymffurfio â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd â'r nod o leihau trosglwyddiad nosocomiaidd. Mae'n gadarnhaol iawn na nodwyd unrhyw achosion lle daliodd cleifion COVID-19 yn ystod eu harhosiad mewn ysbyty annibynnol.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) priodol, a bod hyfforddiant wedi'i ddarparu ar sut i'w ddefnyddio'n gywir. Dywedwyd wrthym hefyd am fentrau newydd a gyflwynwyd mewn ysbytai annibynnol er mwyn helpu i leihau'r risg o drosglwyddiad nosocomiaidd. Un fenter o'r fath oedd sicrhau bod 'sgrybs' ychwanegol ar gael i'r staff, a oedd yn golygu y gellid golchi dillad gwaith ar y safle yn hytrach na bod staff yn gorfod mynd â dillad adref i'w golchi.

Er na fu unrhyw achosion lle roedd cleifion wedi cael canlyniad prawf positif ar gyfer COVID-19 mewn ysbytai annibynnol, rydym yn ymwybodol o un brigiad bach ymhlith grŵp o staff. Priodolwyd y trosglwyddiad i'r ffaith bod staff wedi diosg eu masgiau wrth gymryd egwyl.  Mae'r digwyddiad hwn yn tynnu sylw at y ffordd y gall methiant bach wrth ddefnyddio PPE gael canlyniadau sylweddol. Mae'n hanfodol bod darparwyr yn parhau i atgoffa'r staff am eu cyfrifoldebau, yn enwedig wrth i ni weld lefelau rhybudd COVID-19 yn newid ac, ar adeg ysgrifennu, lai o gyfyngiadau ar weithgareddau.

## Llywodraethu

Mae'n amlwg bod staff wedi bod yn gweithio mewn amgylcheddau heriol iawn ers i'r pandemig ddechrau. Yn ystod ein Gwiriadau Ansawdd, dywedodd darparwyr wrthym am amrywiaeth o ymyriadau cefnogol cadarnhaol a roddwyd ar waith er mwyn helpu i gynnal llesiant ac iechyd meddwl y staff. Un enghraifft nodedig o'r ymyriadau hyn oedd defnyddio ymarfer myfyriol a Rowndiau Schwartz[6], lle mae staff o bob disgyblaeth yn cwrdd i fyfyrio ar agweddau emosiynol eu gwaith. Teimlwyd bod y dull hwn yn helpu'r staff i deimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn ystod y pandemig; felly, rydym yn annog rheolwyr pob ysbyty i archwilio hyn neu ddulliau tebyg, fel adnodd i helpu i gefnogi'r staff. Awgrymwn fod angen i reolwyr ysbytai fonitro'r defnydd a wneir o'r ymyriadau hyn er mwyn sicrhau y caiff y staff eu cefnogi'n llawn yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod hyfforddiant penodol ar COVID-19 wedi'i roi i'r staff ym mhob lleoliad. Mewn lleoliadau gofal iechyd annibynnol, mae cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol hefyd wedi parhau'n uchel drwy gydol y pandemig, gan gyflwyno e-ddysgu yn lle hyfforddiant ystafell ddosbarth a hyfforddiant wyneb yn wyneb traddodiadol. Hefyd, gwelsom fod lefelau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn cael eu monitro'n fanwl, ynghyd â'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant COVID-19.

Nid yw ysbytai annibynnol yng Nghymru yn darparu gofal brys ac mae'r llwybr yn seiliedig ar wasanaethau cleifion allanol a gofal wedi'i drefnu. O ganlyniad, gall darparwyr gofal iechyd gynllunio lefelau staffio yn haws cyn apwyntiadau neu dderbyn cleifion i'r ysbyty. Drwy hynny, nodwyd bod lefelau staffio cyffredinol wedi parhau'n sefydlog drwy gydol y pandemig. Dywedodd rheolwyr ysbytai wrthym eu bod wedi siarad â staff yn gynnar er mwyn gwneud iddynt deimlo'n hyderus am y gweithle; roedd hyn yn cynnwys siarad â staff y gallai fod angen iddynt warchod neu hunanynysu.

[6]Mae rowndiau Schwartz yn rhoi fforwm strwythuredig i staff clinigol ac anghlinigol ddod at ei gilydd i siarad am yr heriau a'r manteision emosiynol a chymdeithasol sy'n gysylltiedig â gweithio yn y sector gofal iechyd. Ni fwriedir i rowndiau Schwartz fod yn fforymau i ddatrys problemau nac i drafod yr agweddau clinigol ar ofal cleifion. Yn hytrach, bwriedir iddynt roi amser a chyfle i fyfyrio gyda chydweithwyr fel bod y staff yn teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth yn eu gwaith.

Bu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am ganllawiau newydd a gweithdrefnau yn her allweddol i ddarparwyr gofal iechyd yn ystod y pandemig. Mae rheolwyr ysbytai wedi cydnabod hyn a disgrifiwyd y trefniadau a roddwyd ar waith ganddynt i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am ganllawiau a chyngor COVID-19 a oedd yn newid yn gyflym. Nodwyd bod angen cyfathrebu'n fwy rheolaidd, a gwnaed hyn drwy gyfarfodydd tîm rhithwir a galwadau fideo er mwyn ymgysylltu â'r staff yn rheolaidd. Roedd yn gadarnhaol bod y dull hwn o gyfathrebu yn cynnwys pawb sy'n gweithio ar y safle, gan gynnwys staff y GIG.

## Clinigau Annibynnol ac Asiantaethau Meddygol

Dangosodd ein Gwiriadau Ansawdd mewn clinigau annibynnol ac asiantaethau meddygol fod y mathau hyn o wasanaethau wedi ymateb yn rhagweithiol i'r pandemig, gan addasu'n gyflym i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Mewn rhai achosion, roedd hyn wedi cynnwys cyflwyno apwyntiadau o bell er mwyn galluogi cleifion i gael ymgyngoriadau rhithwir, a thrafodaethau ynghylch triniaethau posibl. Roedd yn galonogol gweld bod y trefniadau hyn yn cynnwys prosesau diogel i gynnal prawf adnabod ar gleifion cyn ymgynghoriadau a chyn rhagnodi meddyginiaethau.

Gwnaed amrywiaeth o newidiadau amgylcheddol i sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol diogel a helpu i liniaru achosion o groesheintio pan fydd staff a chleifion yn ymweld â'r clinig. Mae hyn yn cynnwys gostwng nifer y cleifion sy'n cael bod yn y clinig ar yr un pryd, a rhoi mwy o amser rhwng apwyntiadau. Gwelsom enghraifft dda o arloesedd lle y gwnaed addasiadau er mwyn galluogi clinigwyr i sicrhau y gellir mesur pwysau cleifion yn ddiogel, drwy brynu cloriannau Bluetooth. Mae hyn wedi galluogi'r rheolwr cofrestredig i gofnodi'r pwysau drwy ap wrth gadw pellter cymdeithasol oddi wrth y cleifion.




Atal a Rheoli Heintiau

Yn unol â chanllawiau Iechyd y Cyhoedd, cyflwynwyd trefniadau lefel uwch mewn clinigau annibynnol, gyda'r nod o ostwng cyfraddau trosglwyddo COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau i sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) priodol, a darparwyd hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio'n gywir. Diweddarwyd polisïau atal a rheoli heintiau hefyd yn sgil COVID-19, a rhoddwyd hyfforddiant ychwanegol i staff ar atal a rheoli heintiau.

Mae hyfforddiant a gwybodaeth i staff ar bolisïau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a'r ffordd gywir o ddefnyddio PPE yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y staff yn gallu dilyn y prosesau perthnasol ar gyfer atal a rheoli heintiau er mwyn sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu cadw'n ddiogel.

Roedd yn galonogol gweld, mewn un lleoliad, fod arolwg COVID-19 newydd wedi'i ddatblygu ar gyfer cleifion, gyda'r canlyniadau'n dangos bod pob claf a gwblhaodd yr arolwg yn gadarnhaol o ran teimlo'n ddiogel ac yn hyderus ar ôl ei ymweliad â'r lleoliad. Dylai lleoliadau eraill ystyried ceisio adborth gan gleifion ynghylch eu gofal yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Llywodraethu

Rhaid ystyried llesiant staff yn ystod y pandemig. Mewn rhai clinigau annibynnol, mae'r timau staff yn fach iawn, ac roedd trefniadau anffurfiol parhaus ar waith i drafod risgiau gweithio yn ystod pandemig COVID-19, a chynnal llesiant y staff. Fodd bynnag, mae'n naturiol y bydd gan y staff lefelau cynyddol o bryder a straen o bosibl, felly rydym yn annog cyflogwyr i sicrhau bod ymyriadau cefnogol ar waith er mwyn helpu i gynnal llesiant ac iechyd meddwl y staff.

Mae'r lefelau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, fel y gellid disgwyl, mae mynediad i hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig wedi bod yn heriol. Felly, rydym yn annog cyflogwyr i archwilio opsiynau ar-lein ar gyfer hyfforddiant ac e-ddysgu. Gallai methu â rhoi'r hyfforddiant diweddaraf i staff arwain at arferion anniogel, a rhoi'r cleifion mewn mwy o berygl, felly dylai pob cyflogwr anelu at sicrhau bod ei weithlu yn cael hyfforddiant amserol sy'n briodol i'r rolau a gyflawnir.

Cymerwyd camau cadarnhaol i nodi staff yr ystyriwyd eu bod yn wynebu risg uchel ar gyfer COVID-19, a rhoddwyd systemau priodol ar waith. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau lle prynwyd gliniaduron a phecynnau meddalwedd diogel ar gyfer staff sy'n wynebu lefelau risg uchel, neu sy'n gwarchod, i'w galluogi i weithio'n ddiogel o gartref. Mae hyn yn hanfodol i ddiogelu iechyd a llesiant staff yn ystod pandemig COVID-19.

## Triniaeth sy'n defnyddio laser Dosbarth 3B/4 neu Oleuni Pwls Dwys (IPL)

Nid ydym wedi cynnal unrhyw arolygiadau na Gwiriadau Ansawdd o wasanaethau laser neu IPL cofrestredig eleni. Yn bennaf, mae hyn am eu bod wedi gorfod cau am gyfnodau sylweddol o'r flwyddyn ac nid oedd llawer o sicrwydd am ba mor hir y byddent yn gallu aros ar agor pan oedd modd iddynt ddarparu triniaethau.

Roeddem yn cydnabod hefyd ei bod yn gyfnod ansicr a llawn straen i'r gwasanaethau hyn ac roedd eu diffyg gweithgarwch yn lleihau'r angen am weithgarwch arolygu a baich ychwanegol ein gwaith sicrwydd ar yr adeg hon.

Yn hytrach, rydym wedi parhau i sicrhau drwy gydol y flwyddyn fod cyngor a chanllawiau cyfredol ar gael ar sut i weithredu'n ddiogel pan fyddent yn cael caniatâd i agor. Gwnaethom weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y canllawiau a'r asesiadau risg a gyhoeddwyd yn addas ac yn berthnasol ar gyfer y mathau hyn o sefydliadau.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i atgoffa darparwyr laser/IPL cofrestredig i neilltuo amser i ganolbwyntio ar gydymffurfio â'r rheoliadau. Awgrymir isod ambell fater y dylid rhoi sylw iddynt ar unwaith:

- Sicrhau bod eich dyfeisiau wedi'u calibradu a'u gwasanaethu
- Cadarnhau bod trefniadau Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ar waith gennych
- Cynnal adolygiad o'r polisïau, y gweithdrefnau, yr asesiadau risg, y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion
- Cadarnhau bod eich rhagofalon COVID-19 yn cydymffurfio â'r canllawiau diweddaraf.

## Gofal Iechyd Troseddwyr

Yn ystod y flwyddyn, daeth systemau carchardai o dan bwysau sylweddol oherwydd COVID-19. Ar y cyfan, daethom i'r casgliad bod y gofal iechyd a'r driniaeth a ddarparwyd mewn carchardai gystal â'r hyn y gellid bod wedi'i ddarparu yn y gymuned. Cawsom ein comisiynu i gynnal un adolygiad o farwolaeth yn y ddalfa yn llai na'r llynedd.

Mae'n rhaid i'r Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth ymchwilio i bob marwolaeth sy'n digwydd mewn carchar. Cawn ein comisiynu i gyfrannu at yr ymchwiliadau hyn drwy gynnal adolygiad clinigol o bob marwolaeth mewn carchar neu Sefydliad Cymeradwy yng Nghymru. Caiff y trefniant hwn ei ddiffinio mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Ombwdsmon ac AGIC.

Mae ein hadolygiadau clinigol o bob marwolaeth yn y ddalfa yng Nghymru yn craffu ar systemau, prosesau ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir i garcharorion yn ystod eu cyfnod yn y carchar neu Sefydliad Cymeradwy ac yn eu gwerthuso, a hynny mewn ffordd feirniadol.

Adolygiadau o farwolaethau yn y ddalfa

Comisiynwyd AGIC i gynnal 16 o adolygiadau o farwolaethau yn y ddalfa y llynedd. Cafodd yr adolygiadau hyn eu cynnal mewn pump o'r chwe charchar yng Nghymru. Ni chynhaliwyd unrhyw adolygiadau mewn cysylltiad â CEM Prescoed.

Mae'r tabl canlynol yn nodi nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd ym mhob carchar:

| CEM | Nifer |
|---|---|
| CEM Parc | 5 |
| CEM Caerdydd | 4 |
| CEM Berwyn | 4 |
| CEM Abertawe | 2 |
| CEM Brynbuga | 1 |

At ei gilydd, nodwyd meysydd o arfer da ym mhob un o'n hadolygiadau clinigol o farwolaethau yn y ddalfa. Yn gyffredinol, canfu ein hadolygiadau dystiolaeth bod timau gofal iechyd trefnus a llawn cymhelliant yn gweithio gyda charcharorion ledled Cymru, a oedd yn dangos agwedd ofalgar ac awydd i wneud eu gorau dros y cleifion. Gwelsom fod prosesau clir ar waith i sicrhau bod pob carcharor yn cael asesiad a phroses sgrinio effeithiol ar ddechrau ei gyfnod yn y carchar. Drwy'r broses hon hefyd roedd modd nodi risg yn gynnar yn ogystal â nodi anghenion o ran mewnbwn arbenigol a'i drefnu.

Mewn perthynas ag argyfyngau, roedd tystiolaeth bod systemau a phrotocolau ar waith i ddarparu cymorth cyntaf i gleifion difrifol wael a hyrwyddo llesiant cleifion.

Unwaith eto eleni, nodwyd drwy ein hadolygiadau fod atgyfeiriadau at asiantaethau priodol o fewn y gwasanaeth carchardai yn cael eu cynnal yn briodol at ei gilydd. Roedd hyn yn cynnwys atgyfeiriadau at optegyddion, deintyddion, ffisiotherapyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Nodwyd meysydd i'w gwella yn ein hadolygiadau hefyd. Dogfennaeth oedd un o'r meysydd hynny. Mae sicrhau dogfennaeth gyflawn,

gynhwysfawr a manwl yn rhan hanfodol o sicrhau y nodir anghenion gofal cleifion ac yr eir i'r afael â nhw'n briodol.

Gwnaethom nodi bod angen i staff gael hyfforddiant ar gadw cofnodion er mwyn sicrhau bod modd cadw cofnod cyson a manwl o anghenion iechyd carcharor ac unrhyw driniaethau.

Cafodd cynnal arsylwadau clinigol cynhwysfawr hefyd ei nodi fel maes i'w wella. Mae cynnal a dogfennu cyfradd curiad y galon, pwysedd gwaed, cyfradd resbiradu a thymheredd carcharor hefyd yn arsylwadau sylfaenol allweddol y mae angen eu cynnal pan fydd carcharor yn mynd yn sâl. Mae'r arsylwadau hyn yn feincnod a all helpu ymarferwyr i wybod a yw iechyd carcharor yn dirywio.

Yn olaf, nodwyd gennym fod angen gwella'r cymorth a roddir i staff yn dilyn sefyllfaoedd llawn straen, er enghraifft pan fydd carcharor yn cael ataliad y galon.  Mae darparu gwasanaethau cymorth a chyfleoedd i staff gael sesiynau dadfriffio yn dilyn profiadau o'r fath yn bwysig ar gyfer llesiant ac iechyd meddwl cyffredinol y staff.

## Arolygiadau o garchardai 2020-2021

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi sy'n cynnal arolygiadau o garchardai Ei Mawrhydi yng Nghymru. Gellir gweld dolenni i'w harolygiadau yma.

Cawn ein gwahodd i fynychu arolygiadau o garchardai'r Arolygiaeth yng Nghymru o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd ar waith rhwng Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac AGIC. Mae'r prosesau hyn yn ein galluogi i rannu ein gwerthusiadau o adolygiadau clinigol o farwolaethau yn y ddalfa a hefyd i ystyried ansawdd darpariaethau gofal iechyd mewn carchardai.

Yn ystod 2020-2021, gwnaethom fynychu un o arolygiadau'r Arolygiaeth yng Ngharchar EM Abertawe. Yn ogystal, gwnaethom gynorthwyo Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi o bell wrth iddo gynnal adolygiad thematig o wasanaethau camddefnyddio sylweddau. Dewiswyd chwe lleoliad ledled y Deyrnas Unedig, ac Abertawe oedd y gwasanaeth a adolygwyd yng Nghymru.



Mae'r adroddiad yn cael ei lunio ar hyn o bryd a chaiff ei gyhoeddi ar ei gwefan maes o law.

Canfu'r arolygiad o Garchar EM Abertawe yr arferion da canlynol:

- Ar adeg yr arolygiad, roedd y rhan fwyaf o wasanaethau iechyd rheolaidd wedi cael eu hoedi dros dro mewn ymateb i'r pandemig. Nodwyd bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cynnal drwy frysbennu effeithiol, wedi'i ddilyn gan apwyntiadau wyneb yn wyneb â'r nyrs neu'r meddyg teulu ar yr adain neu yn yr uned gofal iechyd
- Roedd arferion effeithiol ar waith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â'r darparwr gofal iechyd lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod pob carcharor a oedd yn dangos symptomau COVID-19 yn cael prawf
- Nodwyd bod y tîm argyfwng, a oedd yn cynnwys ymarferwyr iechyd meddwl, wedi bod yn adnodd ychwanegol gwerthfawr wrth nodi risgiau ac anghenion carcharorion pan fyddent yn cyrraedd y carchar, a'i fod wedi darparu rhywfaint o gymorth uniongyrchol yn ystod cyfnod lle gallai cyflyrau presennol gael eu gwaethygu am eu bod yn treulio mwy o amser dan glo mewn celloedd
- Roedd trefniadau cwarantin (y cyfeiriwyd atynt fel rhannu yn gohortau) ar waith ar gyfer:
  - Carcharorion symptomatig,
  - Y rhai oedd yn agored i niwed o ran y feirws a
  - Charcharorion yn ystod eu pedwar ar ddeg diwrnod cyntaf yn y carchar.
- Nodwyd bod y trefniadau a wnaed ar gyfer y rhai a oedd yn agored i niwed o ran y feirws yn briodol.

Fodd bynnag, nododd yr arolygiad hefyd rai meysydd i'w gwella yn enwedig yn y meysydd canlynol:

- Roedd angen gwella trefniadau llywodraethu gwasanaethau iechyd meddwl. Nodwyd nad oedd trefniadau monitro a goruchwylio strwythuredig ar waith o ran effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol a gwasanaethau iechyd meddwl mewn argyfwng na'r canlyniadau i gleifion. O ganlyniad, gwnaeth AGIC uwchgyfeirio pryderon am drefniadau llywodraethu gofal iechyd yn y carchar i Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Roedd angen gwella'r trefniadau ar gyfer cadw carcharorion newydd ar wahân. Cafodd effeithiolrwydd cwarantin ar gyfer carcharorion newydd ei danseilio gan yr arfer o ganiatáu i garcharorion a oedd yn cyrraedd ar ddiwrnodau gwahanol i gymysgu â'i gilydd
- Nodwyd yn yr arolygiad fod yr arferion cyffredinol ar gyfer rhoi meddyginiaethau yn wael ac yn peri risgiau diangen.



08.


# Myrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

Mae'r adran nesaf yn rhoi trosolwg cryno o'r gwaith a wnaed gennym mewn byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ledled Cymru yn ystod y cyfnod rhwng dechrau mis Ebrill 2020 a diwedd mis Mawrth 2021. Dylid darllen y crynodebau yng nghyd-destun yr effaith a gafodd COVID-19 ar ein rhaglen waith a'n dull o weithio yn ystod y cyfnod hwn. Caiff ein dull arolygu addasedig ei drafod yn fanwl yn adran Sicrwydd ac Arolygu yr adroddiad hwn. Mae'r crynodebau'n ymwneud â'n barn o wasanaethau gofal iechyd y GIG a ddarperir gan fwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth ac nid ydynt yn sôn am unrhyw wasanaethau gofal iechyd annibynnol preifat yn yr ardal.

# Myrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

Cododd y canfyddiadau allweddol canlynol o'n gwaith a dylai pob bwrdd iechyd yng Nghymru eu nodi.

Mae'n glir bod y pandemig wedi effeithio ar y gallu i gynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb, ond mae hyfforddiant staff, hyd yn oed os caiff ei ddarparu o bell, yn parhau'n ddull allweddol o sicrhau y gall staff ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Hoffem weld cyfraddau cydymffurfio'n gwella yn ystod ein gwaith yn y dyfodol, yn enwedig gan fod y mater hwn wedi codi mewn blynyddoedd blaenorol.



# BIP Aneurin Bevan

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Aneurin Bevan University Health Board

Yn 2020-2021, gwnaethom gynnal saith darn o waith sicrwydd ac arolygu yn BIP Aneurin Bevan. Yn ystod y flwyddyn, ni chawsom unrhyw wybodaeth am y bwrdd iechyd a wnaeth i ni benderfynu bod angen gwneud mwy o waith sicrwydd nac addasu'r math o waith sicrwydd roeddem wedi bwriadu ei gynnal.  Gwiriadau Ansawdd oedd pob un o'r saith darn o waith a gynhaliwyd gennym. Cynhaliwyd tri o'r rhain ar wardiau ysbyty cyffredinol, dau ar wardiau iechyd meddwl, un mewn meddygfa a Gwiriad Ansawdd o ward anabledd dysgu oedd y llall.



## BIP Aneurin Bevan

Bu'r gwaith ymgysylltu ag uwch-dîm y bwrdd iechyd yn dda iawn ac mae wedi croesawu'r newidiadau a wnaed gennym i'n dulliau sicrwydd yn ystod y flwyddyn heriol hon. Bu'n galonogol hefyd gweld bod y rhan fwyaf o ddulliau llywodraethu a sicrwydd y bwrdd iechyd wedi parhau yn ystod y pandemig.


Arweiniodd pob darn o waith at ganfyddiadau penodol a lluniwyd adroddiad ar bob un ar ffurf crynodeb unigol. Ar y cyfan, gwelwyd nifer o ganfyddiadau cadarnhaol ond gwelwyd meysydd i'w gwella hefyd. Mae'r tabl canlynol yn disgrifio'r themâu a nodwyd gennym sawl gwaith yn ystod y gwaith hwn. Nid yw'r rhestr yn cynnwys pob un o'n canfyddiadau ond mae'n nodi'r meysydd hynny a welsom droeon yn ystod ein gwaith:

### Cadarnhaol

- Mae canllawiau a pholisïau penodol ar COVID-19 wedi'u cyflwyno i gefnogi staff i wneud eu gwaith mewn modd diogel
- Roedd cyflenwadau da o gyfarpar diogelu personol (PPE) ac roedd y staff wedi cael eu hyfforddi i'w wisgo a'i ddiosg yn ddiogel
- Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau wedi cael eu gwella, gan gynnwys trefniadau glanhau yn amlach.

### Meysydd i'w gwella a nodwyd

- Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn anghyson ac yn aml yn isel
- Nodwyd rhai materion o ran safon cadw cofnodion
- Mae angen gwella agweddau ar asesiadau risg pwyntiau clymu, o ran nodi a rheoli, ond hefyd o ran gweithredu'n amserol.



# BIP Betsi Cadwaladr

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board

Yn 2020-2021, gwnaethom gynnal 18 darn o waith sicrwydd ac arolygu yn BIP Betsi Cadwaladr. Roedd y gwaith yn cynnwys amrywiaeth o wiriadau oddi ar y safle a gwaith ar y safle. Yn ystod y flwyddyn, cawsom nifer o bryderon yn ymwneud â gwasanaethau yn y bwrdd iechyd a wnaeth i ni benderfynu bod angen gwneud mwy o waith sicrwydd ac addasu'r math o waith sicrwydd roeddem wedi bwriadu ei gynnal.

Gwiriadau Ansawdd o amrywiaeth o wardiau ysbytai ar draws amrywiaeth o safleoedd yn y bwrdd iechyd oedd pump o'r darnau hyn o waith. Gwiriadau dilynol ar ymweliadau arolygu blaenorol a gynhaliwyd gennym oedd tri ohonynt. Gwiriadau Ansawdd o feddygfeydd oedd dau ohonynt. Gwiriad Ansawdd o ddeintyddfa oedd un ohonynt.

Gwiriadau Ansawdd o amrywiaeth o wardiau iechyd meddwl ar draws y bwrdd iechyd oedd pedwar ohonynt. Gwnaethom gynnal dau arolygiad â phwyslais penodol, un o Ganolfannau Brechu Torfol yn y bwrdd iechyd ac un o wasanaethau ymbelydredd ïoneiddio (arolygiad IR(ME)R).

Arolygiadau ar y safle oedd dau o'r darnau o waith a wnaed yn Betsi Cadwaladr. Yn ystod 2020-2021, dim ond os oedd y risgiau yn uchel ac nad oedd modd archwilio'r materion o bell y cynhaliwyd gwaith ar y safle.



## BIP Betsi Cadwaladr

Drwy gydol y flwyddyn hon, mae'r bwrdd iechyd wedi ymgysylltu â ni'n gadarnhaol mewn perthynas ag unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder ac wedi darparu ymatebion prydlon a chynhwysfawr. Ymatebodd y bwrdd iechyd yn brydlon i addasu gwasanaethau ac amgylcheddau yn ystod y pandemig.

Ym mis Tachwedd 2020, cafodd y bwrdd iechyd ei isgyfeirio o fesurau arbennig i ymyrraeth wedi'i thargedu, ac mae ei waith gwella yn parhau i ganolbwyntio ar Iechyd Meddwl, Arweinyddiaeth, Ymgysylltu a Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad.


Arweiniodd pob darn o waith a wnaed gennym at ganfyddiadau penodol a lluniwyd adroddiad ar bob un ar ffurf crynodeb unigol. Mae ein rhaglen o waith sicrwydd yn ystod 2020-2021 wedi tynnu sylw at nifer o feysydd o arfer da ond hefyd at feysydd sy'n peri pryder y mae angen eu gwella. Mae'r tabl canlynol yn disgrifio'r themâu a nodwyd gennym sawl gwaith yn ystod y gwaith hwn. Nid yw'r rhestr yn cynnwys pob un o'n canfyddiadau ond mae'n nodi'r meysydd hynny a welsom droeon yn ystod ein gwaith:

### Cadarnhaol

- Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau ychwanegol wedi cael eu rhoi ar waith
- Gweithiodd y staff mewn modd ymroddedig a hyblyg drwy gydol y cyfnod heriol hwn
- Dangosodd gwaith dilynol welliant cyson a pharhaus mewn meysydd y nodwyd gennym eu bod yn peri problemau yn y gorffennol.

### Gwelliannau angenrheidiol

- Nid oedd y camau i'w cymryd a nodwyd drwy archwiliadau ac asesiadau risg wedi'u dogfennu na'u cwblhau
- O ganlyniad i ailgyflunio gwasanaethau er mwyn diwallu rhai o'r anghenion yn deillio o'r pandemig, roedd yn heriol sicrhau bod yn lleoliadau a drefnwyd i gleifion mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl yn briodol
- Roedd angen adolygu, diweddaru a rhannu polisïau â staff yn rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.




# BIP Caerdydd a'r Fro

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cardiff and Vale University Health Board

Yn 2020-2021, gwnaethom gynnal deuddeg darn o waith sicrwydd ac arolygu yn BIP Caerdydd a'r Fro. Roedd y gwaith yn cynnwys amrywiaeth o wiriadau oddi ar y safle a gwaith ar y safle. Yn ystod y flwyddyn, cawsom bryderon yn ymwneud â gwasanaeth deintyddol yn y bwrdd iechyd a wnaeth i ni benderfynu bod angen gwneud mwy o waith sicrwydd ac addasu'r math o waith sicrwydd roeddem wedi bwriadu ei gynnal.

Gwiriadau Ansawdd o amrywiaeth o wardiau ac arbenigeddau ar draws y bwrdd iechyd oedd chwech o'r darnau hyn o waith. Gwiriadau Ansawdd o feddygfeydd oedd dau ohonynt a Gwiriadau Ansawdd o wardiau iechyd meddwl yn y bwrdd iechyd oedd dau ohonynt. Gwnaethom gynnal un arolygiad â phwyslais penodol, lle yr ymwelwyd â dwy Ganolfan Brechu Torfol ac un arolygiad ar safle deintyddfa.



## BIP Caerdydd a'r Fro

Gwnaethom gyfathrebu'n rheolaidd â'r bwrdd iechyd drwy gydol y pandemig, a bu'r ymgysylltiad rhyngom am unrhyw faterion a oedd yn peri pryder yn gadarnhaol, gydag ymatebion amserol a sylweddol yn cael eu darparu i ni pan ofynnwyd amdanynt. Dangosodd ein gwaith ymgysylltu hefyd bod y bwrdd iechyd yn parhau o'r farn bod craffu allanol yn ddull cadarnhaol o ddysgu a sicrhau gwelliant parhaus.


Arweiniodd pob darn o waith at ganfyddiadau penodol a lluniwyd adroddiad ar bob un ar ffurf crynodeb unigol. Ar y cyfan, gwelwyd nifer o ganfyddiadau cadarnhaol ond gwelwyd meysydd i'w gwella hefyd. Mae'r tabl canlynol yn disgrifio'r themâu a nodwyd gennym sawl gwaith yn ystod y gwaith hwn. Nid yw'r rhestr yn cynnwys pob un o'n canfyddiadau ond mae'n nodi'r meysydd hynny a welsom droeon yn ystod ein gwaith:

### Cadarnhaol

- Polisïau, canllawiau a dulliau cyfathrebu â'r staff sy'n gyfredol mewn perthynas â COVID-19
- Roedd trefniadau atal a rheoli heintiau wedi cael eu gwella, gan gynnwys trefniadau ar gyfer glanhau'n amlach
- Cefnogi a chynorthwyo cleifion i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig.

### Gwelliannau angenrheidiol

- Nid oedd asesiadau risg atal a rheoli heintiau nac asesiadau risg amgylcheddol bob amser wedi'u cynnal mewn modd amserol
- Nid oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r gofynion hyfforddiant gorfodol diweddaraf
- Mae angen gwella agweddau ar asesiadau risg pwyntiau clymu, o ran nodi a rheoli, ond hefyd o ran gweithredu'n amserol.




# BIP Cwm Taf Morgannwg

Yn 2020-2021, gwnaethom gynnal saith darn o waith sicrwydd ac arolygu yn BIP Cwm Taf Morgannwg. Roedd y gwaith yn cynnwys amrywiaeth o wiriadau oddi ar y safle a gwaith ar y safle. Yn ystod y flwyddyn, cawsom bryderon am ddeintyddfa yn y bwrdd iechyd a wnaeth i ni benderfynu bod angen gwneud mwy o waith sicrwydd ac addsu'r math o waith sicrwydd roeddem wedi bwriadu ei gynnal, er mwyn i ni allu ystyried y risgiau a godwyd â ni yn briodol.

Gwiriadau Ansawdd o wardiau ysbyty cyffredinol oedd dau o'r darnau o waith a wnaed gennym, a Gwiriadau Ansawdd o leoliadau iechyd meddwl yn y bwrdd iechyd oedd tri ohonynt. Gwnaethom gynnal un arolygiad â phwyslais penodol o Ganolfannau Brechu Torfol a weithredwyd gan y bwrdd iechyd a gwnaethom hefyd gynnal un arolygiad ar safle deintyddfa.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom hefyd gynnal adolygiad dilynol ar y cyd ag Archwilio Cymru o'n hadolygiad o lywodraethu yn 2019. Cydnabu'r adolygiad dilynol hwn fod y bwrdd iechyd yn gwneud cynnydd da i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed gennym yn 2019, yn arbennig o ystyried yr heriau a wynebwyd ganddo wrth ymateb i'r pandemig. Er bod yr ymateb i'r pandemig wedi llesteirio rhywfaint ar welliannau mewn rhai meysydd, ac felly na chafodd rhai camau gweithredu eu rhoi ar waith mor gyflym â'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol gan y bwrdd iechyd, bu'n galonogol nodi bod cynnydd wedi'i wneud wrth sicrhau mwy o bwyslais ar ansawdd, diogelwch cleifion a risg.



## BIP Cwm Taf Morgannwg

Bu ein hymgysylltiad â'r bwrdd iechyd ar unrhyw faterion a oedd yn peri pryder ac yr oedd angen eu huwchgyfeirio yn gadarnhaol, gydag ymatebion amserol a sylweddol yn cael eu darparu i ni pan ofynnwyd amdanynt. Mae atebolrwydd a chyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch bellach yn gliriach. Mae arweinyddiaeth o ran ansawdd a diogelwch cleifion wedi cael ei hatgyfnerthu, gan gynnwys cyflwyno rolau newydd i gefnogi ansawdd a diogelwch cleifion. Mae'r trefniadau ar gyfer nodi a rheoli risgiau wedi cael eu hatgyfnerthu ac mae'r bwrdd iechyd wedi cymryd camau cadarnhaol i wella diwylliant a dysgu sefydliadol.

Arweiniodd pob darn o waith at ganfyddiadau penodol a lluniwyd adroddiad ar bob un ar ffurf crynodeb unigol. Ar y cyfan, gwelwyd nifer o ganfyddiadau cadarnhaol ond gwelwyd meysydd i'w gwella hefyd. Mae'r tabl canlynol yn disgrifio'r themâu a nodwyd gennym sawl gwaith yn ystod y gwaith hwn. Nid yw'r rhestr yn cynnwys pob un o'n canfyddiadau ond mae'n nodi'r meysydd hynny a welsom droeon yn ystod ein gwaith:

### Cadarnhaol

- Cafodd prosesau eu rhoi ar waith i sicrhau bod canllawiau cyfredol ar gael i'r staff mewn perthynas â threfniadau COVID-19
- Trefniadau glanhau amlach gyda thystiolaeth o archwiliadau atal a rheoli heintiau a chymorth da gan y tîm atal a rheoli heintiau
- Ymdrechion cadarnhaol i helpu i gynnal cyswllt rhwng cleifion a theulu / ffrindiau gan ddefnyddio galwadau fideo a dulliau electronig.

### Gwelliannau angenrheidiol

- Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn isel ac roedd angen ystyried opsiynau amgen i hyfforddiant wyneb yn wyneb.
- Roedd angen atgyfnerthu'r camau a nodwyd yn yr archwiliadau
- Mae angen gwella agweddau ar asesiadau risg pwyntiau clymu, o ran nodi a rheoli, ond hefyd o ran gweithredu'n amserol.



BIP Cwm Taf Morgannwg

## Adolygiad Dilynol ar y Cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Ym mis Tachwedd 2019, cynhaliodd AGIC ac Archwilio Cymru adolygiad ar y cyd o ansawdd y trefniadau llywodraethu a rheoli risg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg[7]. Canfu'r adolygiad ar y cyd nifer o wendidau sylfaenol yn nhrefniadau llywodraethu'r bwrdd iechyd mewn perthynas â diogelwch cleifion ac ansawdd y gofal. Gwnaethom 14 o argymhellion yn ymwneud â'r trefniadau rheoli risg, y broses o ddelio â digwyddiadau, honiadau a phryderon, diogelwch cleifion a diwylliant sefydliadol.

Ym mis Medi 2020, gwnaethom ddechrau adolygiad dilynol ar y cyd gydag Archwilio Cymru, o'r cynnydd a wnaed gan y bwrdd iechyd yn erbyn yr 14 o argymhellion a wnaed yn ystod ein hadolygiad yn 2019. Roeddem yn ystyriol o'r effaith yr oedd y pandemig wedi'i chael ar allu'r bwrdd iechyd i ymateb i'r argymhellion, ond o ystyried y diffygion sylweddol a nodwyd yn 2019, roeddem o'r farn ei bod yn bwysig cadarnhau pa gynnydd a wnaed.

Canfu ein hadolygiad dilynol fod y bwrdd iechyd yn gwneud cynnydd da i fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaethom yn 2019, yn arbennig o ystyried yr heriau a wynebwyd wrth ymateb i'r pandemig. Mae'n amlwg bod y pandemig wedi atal gwelliannau mewn rhai meysydd, ac felly na chafodd rhai camau gweithredu eu rhoi ar waith mor gyflym â'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol gan y bwrdd iechyd.

Er gwaethaf y cynnydd da a gydnabuwyd drwy ein gwaith dilynol, mae gwaith i'w wneud o hyd ym mhob un o'r meysydd a nodwyd yn 2019. Fel y cyfryw, dylai pob un o'r 14 o argymhellion aros ar agor, a byddwn yn parhau i fonitro camau gweithredu'r bwrdd iechyd yn erbyn y materion a nodwyd yn ein hadolygiad dilynol. Gellir gweld canfyddiadau'r adolygiad yn ein hadroddiad ar y cyd, a gyhoeddwyd ar 18 Mai 2021.





[7] https://hiw.org.uk/sites/default/files/2019-11/Cwm-Taf-Morgannwg-UHB-Joint-review-Cym.pdf

# BIP Hywel Dda

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

Yn 2020-2021, gwnaethom gynnal deg o ddarnau o waith sicrwydd ac arolygu yn BIP Hywel Dda. Roedd y gwaith yn cynnwys amrywiaeth o wiriadau oddi ar y safle a gwaith ar y safle. Yn ystod y flwyddyn, ni chawsom unrhyw wybodaeth am y bwrdd iechyd a wnaeth i ni benderfynu bod angen gwneud mwy o waith sicrwydd nac addasu'r math o waith sicrwydd roeddem wedi bwriadu ei gynnal.

Gwiriadau Ansawdd o wardiau ysbyty cyffredinol yn y bwrdd iechyd oedd tri ohonynt, a Gwiriadau Ansawdd o wardiau iechyd meddwl oedd tri ohonynt. Gwnaethom gynnal un darn o waith dilynol i fwrw golwg ar waith gwella yn dilyn arolygiad blaenorol. Gwnaethom gynnal un arolygiad â phwyslais penodol o Ganolfannau Brechu Torfol a ddarperir gan y bwrdd iechyd, un arolygiad â phwyslais penodol a oedd yn canolbwyntio ar ymbelydredd ïoneiddio (arolygiad IR(ME)R) ac un arolygiad â phwyslais penodol o Ysbytai Maes ar yr adeg pan oeddent newydd eu datblygu.



## BIP Hywel Dda

Gwnaethom ymgysylltu'n rheolaidd â'r bwrdd iechyd drwy gydol y flwyddyn, a gwelsom ei fod yn rhagweithiol ac yn gadarnhaol ar bob achlysur. Roedd hefyd yn ymatebol iawn i bob un o'n ceisiadau am dystiolaeth ac yn gadarnhaol o ran parhau â'n dull sicrwydd oddi ar y safle.


Arweiniodd pob darn o waith at ganfyddiadau penodol a lluniwyd adroddiad ar bob un ar ffurf crynodeb unigol. Ar y cyfan, gwelwyd nifer o ganfyddiadau cadarnhaol ond gwelwyd meysydd i'w gwella hefyd. Mae'r tabl canlynol yn disgrifio'r themâu a nodwyd gennym sawl gwaith yn ystod y gwaith hwn. Nid yw'r rhestr yn cynnwys pob un o'n canfyddiadau ond mae'n nodi'r meysydd hynny a welsom droeon yn ystod ein gwaith:

### Cadarnhaol

- Mae trefniadau gwell ar gyfer atal a rheoli heintiau ar waith gan gynnwys glanhau amlach a threfniadau i greu parthau a gwahanu cleifion sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19 a chleifion y gallent gael prawf positif ar gyfer COVID-19 oddi wrth gleifion eraill.
- Cafodd cleifion eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau drwy ddulliau electronig, a chyflwynwyd tîm Cyswllt Cleifion newydd yn y bwrdd iechyd yn benodol er mwyn helpu cleifion mewnol yn hyn o beth
- Ymrwymiad cryf gan y bwrdd iechyd i gefnogi llesiant y staff yn ystod ac ar ôl tonnau cyntaf y pandemig.

### Gwelliannau angenrheidiol


- Roedd y cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn amrywiol ac roedd angen rhoi sylw i hyn er mwyn gwella'r cyfraddau hyfforddiant
- Mae angen gwella agweddau ar asesiadau risg pwyntiau clymu, o ran nodi a rheoli, ond hefyd o ran gweithredu'n amserol
- Pan fydd angen adnoddau asesu risg, a phan gânt eu defnyddio, dylid cymryd y camau hynny a nodir bob amser a gwneud gwaith mewn modd amserol.



# BI Addysgu Powys

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | Powys Teaching Health Board

Yn 2020-2021, gwnaethom gynnal chwe darn o waith sicrwydd ac arolygu ar draws y bwrdd iechyd. Cafodd y gwaith hwn i gyd ei wneud gan ddefnyddio ein hadnodd sicrwydd oddi ar y safle, sef Gwiriad Ansawdd. Yn ystod y flwyddyn, ni chawsom unrhyw wybodaeth am y bwrdd iechyd a wnaeth i ni benderfynu bod angen gwneud mwy o waith sicrwydd nac addasu'r math o waith sicrwydd roeddem wedi bwriadu ei gynnal. Cynhaliwyd tri Gwiriad Ansawdd o wardiau ysbyty cyffredinol gwahanol mewn ysbytai cymunedol gwahanol yn y bwrdd iechyd. Gwnaethom hefyd gynnal Gwiriad Ansawdd o ward iechyd meddwl a dau Wiriad Ansawdd o feddygfeydd.



## BI Addysgu Powys

Yn ystod blwyddyn anodd iawn, roedd yn galonogol gweld tîm rheoli cefnogol a oedd yn barod i ymgysylltu, ac a oedd yn croesawu cynllun AGIC i addasu'r trefniadau ar gyfer cynnal gwaith sicrwydd. Roedd yr ymgysylltu â'r uwch-dîm gweithredol, rheolwyr wardiau a staff rheoli meddygon teulu yn ystod y gwiriadau ansawdd yn gadarnhaol ac yn gynhyrchiol.


Arweiniodd pob darn o waith at ganfyddiadau penodol a lluniwyd adroddiad ar bob un ar ffurf crynodeb unigol. Ar y cyfan, gwelwyd nifer o ganfyddiadau cadarnhaol ond gwelwyd meysydd i'w gwella hefyd. Mae'r tabl canlynol yn disgrifio'r themâu a nodwyd gennym sawl gwaith yn ystod y gwaith hwn. Nid yw'r rhestr yn cynnwys pob un o'n canfyddiadau ond mae'n nodi'r meysydd hynny a welsom droeon yn ystod ein gwaith:

### Cadarnhaol

- Amrywiaeth o fesurau Atal a Rheoli Heintiau ar waith i gynnal safonau, gan gynnwys mynediad at ganllawiau a chymorth a newidiadau ffisegol i'r amgylchedd
- Cynnwys teuluoedd fel rhan o gyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol gan ddefnyddio technoleg o bell
- Digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) a hyfforddiant ar ei ddefnyddio'n ddiogel.

### Gwelliannau angenrheidiol

- Sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu cadw'n gyfredol ac yn cael eu cynnal yn amserol
- Ystyried sut i ddiwallu anghenion gwybyddol gwahanol mewn un lleoliad.



# BIP Bae Abertawe

GIG Cymru NHS Wales | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | Swansea Bay University Health Board

Yn 2020-2021, gwnaethom gynnal deg darn o waith sicrwydd ac arolygu yn BIP Bae Abertawe. Cafodd y gwaith hwn i gyd ei wneud gan ddefnyddio ein hadnodd sicrwydd oddi ar y safle, sef Gwiriad Ansawdd. Yn ystod y flwyddyn, ni chawsom unrhyw wybodaeth am y bwrdd iechyd a wnaeth i ni benderfynu bod angen gwneud mwy o waith sicrwydd nac addasu'r math o waith sicrwydd roeddem wedi bwriadu ei gynnal. Gwiriad Ansawdd o feddygfa oedd un ohonynt, roedd pump yn ymdrin ag amrywiaeth o wardiau ysbyty cyffredinol ag arbenigeddau gwahanol ac roedd tri ohonynt yn ymdrin â wardiau iechyd meddwl yn y bwrdd iechyd. Gwnaethom hefyd gynnal un darn o waith dilynol i fwrw golwg ar waith gwella yn dilyn arolygiad blaenorol.



## BIP Bae Abertawe

Mae'r gydberthynas rhwng AGIC a'r bwrdd iechyd wedi parhau'n gadarn drwy gydol y pandemig. Bu ymgysylltiad cadarn ar bob lefel ac ymgysylltiad cadarnhaol â'n dulliau arolygu newydd.


Arweiniodd pob darn o waith at ganfyddiadau penodol a lluniwyd adroddiad ar bob un ar ffurf crynodeb unigol. Ar y cyfan, gwelwyd nifer o ganfyddiadau cadarnhaol ond gwelwyd meysydd i'w gwella hefyd. Mae'r tabl canlynol yn disgrifio'r themâu a nodwyd gennym sawl gwaith yn ystod y gwaith hwn. Nid yw'r rhestr yn cynnwys pob un o'n canfyddiadau ond mae'n nodi'r meysydd hynny a welsom droeon yn ystod ein gwaith:

### Cadarnhaol

- Rhoddwyd trefniadau gwell ar gyfer atal a rheoli heintiau ar waith er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys ymweliad wythnosol â rhai meysydd gan nyrs atal a rheoli heintiau arbenigol a aeth ati i gadarnhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu dilyn yn briodol
- Gwelwyd tystiolaeth bod cyfarpar brys a dadebru yn cael eu harchwilio bob dydd, a oedd yn helpu i sicrhau ei fod yn barod i'w ddefnyddio bob amser
- Roedd y staff wedi bod yn hyblyg o ran ble roeddent yn gweithio ac o ran cyflawni tasgau ychwanegol (ar ôl cael hyfforddiant) er mwyn sicrhau y gellid rhoi gofal priodol i gleifion ag anghenion gwahanol

### Gwelliannau angenrheidiol

- Sicrhau bod camau gweithredu a nodir drwy archwiliadau o adnoddau gofal nyrsio yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon ac y cymerir camau dilynol
- Angen gwella agweddau at asesiadau risg pwyntiau clymu, a hynny o ran nodi a rheoli, ac o ran gweithredu'n amserol
- Sicrhau bod trefniadau storio meddyginiaethau priodol ar waith fel bod meddyginiaethau y mae angen rheoli eu tymheredd yn cael eu storio'n unol â gofynion y gwneuthurwr.



# Felindre

GIG CYMRU NHS WALES | Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre | Velindre University NHS Trust

Mae Felindre yn cynnig triniaeth canser arbenigol ac yn gartref i Wasanaeth Gwaed Cymru.

Gwelwyd bod gan Felindre drefniadau digonol ar waith i hyrwyddo diogelwch a llesiant cleifion pan gynhaliodd AGIC Wiriad Ansawdd o'r Ganolfan Ganser (Ward Llawr 1) ym mis Mawrth 2021, pan na chafodd unrhyw feysydd i'w gwella eu nodi. Hefyd, dim ond nifer bach o ddigwyddiadau difrifol a nodwyd gan yr ymddiriedolaeth ac ni roddwyd gwybod i AGIC am unrhyw bryderon gan y cyhoedd ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir.

Roedd trefniadau llywodraethu'r ymddiriedolaeth yn rhoi sicrwydd bod y trefniadau gweithredu yn ystod pandemig COVID-19 yn diwallu anghenion y boblogaeth o fewn y cyfyngiadau a oedd ar y gwasanaeth, a bod atebolrwydd o hyd o ran y penderfyniadau a wnaed gan yr ymddiriedolaeth.

Hefyd, bu lleihad yn nifer yr atgyfeiriadau at y gwasanaeth yn ystod y pandemig; mae'r ymddiriedolaeth yn disgwyl gweld ymchwydd mewn galw yn ystod 2021 a all gynnwys achosion lle cafodd canser ei nodi'n hwyrach a mwy o achosion o ganser mwy datblygedig. Gallai hyn roi pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth.

Mae amgylchedd y Ganolfan Ganser yn parhau i beri risg i Felindre. Mae'r gwaith o gynllunio a chymeradwyo canolfan ganser newydd yng Nghaerdydd ar y gweill; fodd bynnag, mae gwrthwynebiad cryf gan rai i leoliad datblygiad arfaethedig yr ymddiriedolaeth.



# Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services NHS Trust

Fel yn achos gweddill y GIG, bu hon yn flwyddyn heriol iawn i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Bu'n flwyddyn wahanol iawn i flynyddoedd blaenorol oherwydd COVID-19. I ddechrau, lleihaodd y galw am wasanaethau ambiwlans yn sylweddol, a dim ond nifer bach iawn o bobl oedd yn gofyn am ambiwlansys brys. Fodd bynnag, yn ystod haf 2020 ac yn ystod y gaeaf, cynyddodd y galw.

Roedd y gaeaf yn her sylweddol i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Roedd y galw'n uchel iawn ledled Cymru, ac arweiniodd y lleihad mewn capasiti mewn Adrannau Achosion Brys (oherwydd yr angen i gadw pellter cymdeithasol) at oedi wrth drosglwyddo cleifion i ysbytai. Pan nad oes modd trosglwyddo cleifion i ysbytai, ni all cerbydau ymateb i alwadau yn y gymuned, gan arwain at oedi wrth ymateb i alwadau 999.

Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru sefyllfa gritigol oherwydd y galw uchel ar y gwasanaeth, yn enwedig yn y De-ddwyrain. Dywedwyd wrth y cyhoedd y dylid ond ffonio am ambiwlans o dan yr amgylchiadau mwyaf difrifol. Gweithiodd yr Ymddiriedolaeth yn galed i ddatrys y mater hwn, gan fanteisio ar adnoddau ychwanegol gan y Lluoedd Arfog a'r Gwasanaethau Tân.

Mae'r pwysau ar wasanaethau Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi parhau yn ystod y flwyddyn, a bu oedi wrth drosglwyddo a chyfnodau aros yn y gymuned yn broblem ers sawl blwyddyn, ac mae'n broblem sy'n parhau. Bydd angen i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a byrddau iechyd gymryd camau pellach er mwyn gwella'r sefyllfa.

## Adolygiad Lleol o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Yn ystod 2019-2020, gwnaethom gwblhau adolygiad lleol o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn canolbwyntio ar y ffordd o ymdrin â galwadau a'u blaenoriaethu yn ei Chanolfan Cyswllt Clinigol. Cyhoeddwyd ein canfyddiadau o'r adolygiad hwn mewn adroddiad o'r enw Asesiad o Drefniadau Rheoli Cleifion mewn Canolfannau Cyswllt Clinigol Gwasanaethau Meddygol Brys, ar 30 Medi 2020[9].

Nododd yr adolygiad fod prosesau ar waith sy'n anelu at ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd oedi wrth drosglwyddo cleifion yn digwydd yn gyffredin yn yr Ymddiriedolaeth, ac yn cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth. Roedd hyn yn effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i ymateb yn ddigonol i'r pwysau ar y gwasanaeth, o ganlyniad i brinder ambiwlansys. Roedd effeithiau negyddol yr oedi wrth drosglwyddo cleifion o'r ambiwlans i'r ysbyty yn bryder a fynegwyd yn gyson gan y staff yn ystod ein gwaith maes.

[9] https://agic.org.uk/sites/default/files/2020-09/20200929%20WAST%20call%20handling%20review_cym%20-%20final.pdf

Mewn ymateb i'r materion a nodir uchod, rydym yn cynnal adolygiad lleol o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gyda'r nod o ystyried yr effaith y mae aros mewn ambiwlansys y tu allan i Adrannau Achosion Brys yn ei chael ar ddiogelwch, preifatrwydd, urddas a phrofiad cyffredinol cleifion. Mae pwysau unigryw, nas gwelwyd o'r blaen, ar y system gofal iechyd bellach o ganlyniad i bandemig COVID-19; yn sgil hyn, bydd yr adolygiad yn ystyried profiad cleifion dros y 12 mis diwethaf er mwyn i ni allu deall yr effaith y mae pandemig COVID-19 wedi'i chael. Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad yr adolygiad yn ystod hydref 2021.



# Iechyd Cyhoeddus Cymru


Er na wnaethom gynnal unrhyw waith adolygu nac arolygu uniongyrchol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod 2020-2021, mae'n bwysig tynnu sylw at rôl hanfodol Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth ymateb i COVID-19 yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys darparu cyngor arbenigol iechyd y cyhoedd ar COVID-19, cyhoeddi data goruchwyliaeth dyddiol a chefnogi elfennau allweddol o strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu Llywodraeth Cymru, fel cydgysylltu'r gwaith o olrhain cysylltiadau a dadansoddi canlyniadau profion mewn labordai.

Hefyd, roedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl allweddol mewn perthynas â rhaglen frechu genedlaethol COVID-19, a oedd yn cynnwys cefnogi ymchwil ar y brechiad, goruchwyliaeth strategol o dreialon y brechiad yng Nghymru ac arwain y gwaith cynllunio ar gyfer rhoi'r rhaglen frechu ar waith.

Arweiniodd yr ymateb i COVID-19 at newid sylweddol i fusnes arferol Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys oedi rhai gwasanaethau a swyddogaethau iechyd y cyhoedd, fel oedi rhai rhaglenni sgrinio cenedlaethol dros dro. Roedd yn gadarnhaol gweld bod trefniadau ar waith i ailgyflwyno'r rhaglenni sgrinio drwy flaenoriaethu'r cyfranogwyr hynny y nodwyd eu bod mewn categori risg uchel, a bod llwybrau sgrinio wedi cael eu haddasu gan ystyried COVID-19 er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn ddiogel. Fodd bynnag, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod ei fod yn wynebu her sylweddol wrth nodi'r holl gyfranogwyr y gohiriwyd eu profion sgrinio yn ystod y pandemig.

Er mwyn gwella capasiti profi yng Nghymru, llwyddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu ei swyddogaeth microbioleg yn sylweddol yn ystod 2020-2021. Roedd hyn yn cynnwys nifer sylweddol o rolau newydd, labordy newydd a datblygu labordai poeth mewn ysbytai er mwyn gallu cynnal profion COVID-19 cyflym ar y safle.

Rhaid canmol cyfraniad staff Iechyd Cyhoeddus Cymru at yr ymdrech genedlaethol i fynd i'r afael â COVID-19. Mae hyn yn cynnwys staff microbioleg a ddarparodd wasanaeth ddydd a nos i ddarparu canlyniadau profion, a staff o bob rhan o'r sefydliad a gafodd eu rhyddhau o'u dyletswyddau arferol, a'u symud i rolau a swyddogaethau newydd er mwyn cefnogi'r ymateb i COVID-19.



09.

# Ein hadnoddau



# Ein hadnoddau

## Ein pobl

Mae'r tabl yn dangos nifer y swyddi llawn amser neu ran amser ym mhob tîm o fewn AGIC yn ystod 2020-2021.

| Tîm | Swyddi llawn amser |
|---|---|
| Uwch-swyddogion Gweithredol | 3 |
| Arolygu, Rheoleiddio a Phryderon | 39 |
| Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg | 14 |
| Strategaeth, Polisi a Chyfathrebu | 5 |
| Cyngor clinigol (gan gynnwys gwasanaeth SOAD) | 4 |
| Gwasanaethau Corfforaethol (gan gynnwys cymorth busnes) | 18 |
| **Cyfanswm** | **83** |


Roedd gennym gyllideb o oddeutu £4.3m ar gyfer 2020-2021. Fel rhan o'n hymrwymiad i gefnogi'r ymateb ehangach i'r pandemig yng Nghymru, gwnaethom sicrhau bod aelodau o staff ar gael i'r GIG, Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus ehangach. Gwnaethom hefyd gyfrannu adnoddau ariannol lle bo hynny'n bosibl. Er bod y pandemig wedi effeithio ar ein gallu i ddarparu gweithgarwch craidd yn y GIG, gwnaethom barhau i ymateb i wybodaeth a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn a oedd yn peri pryder uniongyrchol. Gwnaethom gyfeirio cyfran sylweddol o'n hadnoddau at ddatblygu dull newydd o gael sicrwydd oddi ar y safle, yn unol â'r meysydd allweddol a nodwyd yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, er mwyn rhoi hyblygrwydd ac ystwythder i ni wrth gyflawni ein rôl yn ystod cyfnod digynsail. Byddwn yn parhau i atgyfnerthu'r dull hwnnw yn ystod 2021-2022. Yn ogystal, gwnaethom atgyfnerthu meysydd allweddol eraill yn ein sefydliad gydag adnodd ychwanegol, sef ein swyddogaeth Pryderon.

Mae gennym swyddi cyfwerth ag oddeutu 83 aelod o staff llawn amser.

Ar hyn o bryd, mae gennym banel o fwy na 150 o adolygwyr cymheiriaid arbenigol y mae eu cefndiroedd yn cynnwys nyrsys arbenigol a chyffredinol, meddygon teulu, deintyddion, anesthetyddion, a rheolwyr practisau meddygon teulu. Mae gennym hefyd arbenigwyr ym maes Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a phanel o seiciatryddion sy'n darparu ein gwasanaeth meddyg a benodwyd i roi ail farn. Mae gennym fwy na 30 o Adolygwyr Profiad Cleifion ac Arbenigwyr drwy Brofiad. Rydym wedi datblygu Fframwaith newydd ar gyfer Cyngor Clinigol, a gafodd ei ddefnyddio i bennu pa gymorth clinigol sydd ei angen arnom i atgyfnerthu ein dulliau arolygu a sicrwydd yn ystod 2021-2022.

## Cyllid

Mae'r tabl yn dangos sut y gwnaethom ddefnyddio'r adnoddau ariannol a oedd ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf er mwyn cyflawni Cynllun Gweithredol 2020-2021.




| | £000'au |
|---|---|
| Cyfanswm Cyllideb AGIC | 4,376 |

| Gwariant | |
|---|---|
| Costau staff | 3,831 |
| Teithio a Chynhaliaeth | 6 |
| Dysgu a Datblygu | 2 |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | 42 |
| Cyfieithu | 65 |
| Costau adolygu | 295 |
| Costau Rhaglen Newid TGCh | 217 |
| Cyfraniadau COVID-19 | 335 |
| Cyfanswm gwariant (a) | 4,793 |
| **Incwm** | |
| Gofal Iechyd Annibynnol | 278 |
| Cofrestru deintyddfeydd preifat | 160 |
| Ffioedd cyfreithiol | - |
| Cyfanswm incwm (b) | 438 |
| Cyfanswm Gwariant Net (a-b) | 4,355 |

10.

# Matrics Ymrwymiad



# Matrics Ymrwymiad

Yn y tabl isod nodir amcanion AGIC ar gyfer 2020-2021 ynghyd â manylion ynghylch sut y gwnaeth gyflawni'r amcan.

| Yr hyn a ddywedom | Mesurwyd drwy | Canlyniad |
|---|---|---|
| **Rheoleiddio gofal iechyd annibynnol** | | |
| Amcan 1 | | |
| Prosesu ceisiadau i gofrestru, neu newidiadau i gofrestriadau, mewn modd amserol<br><br>Sicrhau bod pob ymgeisydd yn gallu dangos ei fod yn bodloni'r rheoliadau perthnasol a'r safonau gofynnol | Penderfynu ar geisiadau i gofrestru o fewn 12 wythnos o'r cais llawn a chyflawn | Yn ystod 2020-2021, gwnaethom gwblhau:<br><br>Gwasanaethau gofal iechyd annibynnol<br>• 22 o Gofrestriadau Newydd<br>• 26 o Newidiadau i Reolwyr Cofrestredig<br>• 21 Newid i Unigolion Cyfrifol<br>• 9 Amrywiad i Amodau Cofrestru AGIC<br><br>Practisau Deintyddol Preifat<br>• 28 o Gofrestriadau Newydd<br>• 44 Newid i Reolwyr Cofrestredig<br>• 3 Newid i Unigolion Cyfrifol<br>• 1 Amrywiad i Amodau Cofrestru AGIC |

## Amcan 2

| | | |
|---|---|---|
| Cynnal rhaglen o ymweliadau â darparwyr yr amheuir nad ydynt wedi'u cofrestru<br>• Yn ôl yr angen<br>Cyflwyno rhaglen o wiriadau ansawdd ar leoliadau annibynnol yn unol â'n rheolau amlder.<br>• Tua 20 o wiriadau ansawdd ar gyfer gwasanaethau, gan gynnwys ysbytai acíwt, hosbisau a chlinigau<br>• Tua 39 o Wiriadau Ansawdd laser<br>Cynnal arolygiadau llawn yn y meysydd sy'n wynebu'r risg fwyaf, lle rydym yn credu bod risg ddifrifol i ddiogelwch y cleifion. | • Nifer yr ymweliadau a gynhaliwyd<br>• Nifer y gwiriadau ansawdd a gynhaliwyd<br>• Darparu adborth cyflym o wiriadau ansawdd, gan gyhoeddi mor agos at fis ar ôl y gwaith â phosibl<br>• Nifer yr arolygiadau llawn a gynhaliwyd<br>• Nifer yr adroddiadau a gyhoeddir 3 mis ar ôl gwiriad ansawdd | Gwnaethom barhau i ymateb i adroddiadau am ddarparwyr heb eu cofrestru yn ystod y pandemig.<br>Gwnaethom gynnal 17 o Wiriadau Ansawdd o wasanaethau annibynnol.<br>Gwnaethom gynnal un arolygiad ar y safle o wasanaeth annibynnol.<br>Ni wnaethom gynnal unrhyw Wiriadau Ansawdd laser am fod y sefydliadau hyn wedi cau yn ystod pandemig COVID-19.<br>Gwnaethom gyhoeddi 60 o adroddiadau bedair wythnos ar ôl gwiriad ansawdd.<br>Gwnaethom gyhoeddi 27 o adroddiadau dri mis ar ôl arolygiad â phwyslais penodol. |

## Amcan 3

| | | |
|---|---|---|
| Sicrhau yr ymdrinnir â phryderon a hysbysiadau Rheoliad 30/31 mewn modd amserol a phroffesiynol | • Nifer y pryderon a ddaeth i law | Yn ystod 2020-2021, cawsom 434 o bryderon gan y cyhoedd neu staff.<br>Hefyd cawsom naw pryder yn ymwneud â darparwyr heb eu cofrestru neu leoliadau nad oes angen iddynt gofrestru ag AGIC. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Nifer yr hysbysiadau Rheoliad 30/31 a ddaeth i law<br><br>• Dadansoddi'r ffynhonnell a'r camau a gymerwyd | Caiff yr holl bryderon eu hadolygu bob wythnos ac maent yn llywio penderfyniadau ynghylch ein gweithgareddau a'n blaenoriaethau arolygu.<br><br>Mae'n ofynnol i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol ein hysbysu o ddigwyddiadau o bwys a datblygiadau yn eu gwasanaeth. Parheir i ymdrin â'r hysbysiadau Rheoliad 30/31 hyn yn unol â'n proses ac ymdrinnir â nhw'n effeithiol.<br><br>Cawsom gyfanswm o 1,094 o hysbysiadau Rheoliad 30/31.<br><br>Roedd y rhain yn cynnwys:<br>• Marwolaeth mewn Hosbis - 498<br>• Marwolaeth heb gynnwys Hosbis - 11<br>• Absenoldeb heb awdurdod - 99<br>• Anafiadau difrifol - 280<br>• Honiad o gamymddwyn yn erbyn aelod o staff - 89<br>• Achos o Glefyd Heintus - 97<br>• Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) - 20<br><br>Cawsom gyfanswm o 44 o hysbysiadau Rheoliad 25 (Rholiadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017) yn ystod 2020-2021.<br><br>Roedd y rhain yn cynnwys:<br>• Anafiadau difrifol - 1<br>• Achos o Glefyd Heintus - 43<br>• Honiad o gamymddwyn yn erbyn aelod o staff - 0<br>• Marwolaeth claf - 0<br><br>Gwnaethom gymryd camau angenrheidiol ar bob hysbysiad perthnasol drwy gyfathrebu'n effeithiol â Darparwyr Gofal Iechyd Annibynnol. |

## Arolygu'r GIG

### Amcan 4

| | | |
|---|---|---|
| Cyflawni rhaglen o tua 130 o wiriadau sicrhau ansawdd yn y GIG ym mhob lleoliad (ac eithrio iechyd meddwl) a lywir drwy ddadansoddi risg a'r defnydd gorau o'n hadnoddau.<br><br>Cynnal arolygiadau llawn yn y meysydd sy'n wynebu'r risg fwyaf, lle rydym yn credu bod risg ddifrifol i ddiogelwch y cleifion. | • Nifer y gwiriadau ansawdd a gynhaliwyd<br>• Darparu adborth cyflym o wiriadau ansawdd, gan gyhoeddi mor agos at fis ar ôl y gwaith â phosibl<br>• Nifer yr arolygiadau llawn a gynhaliwyd<br>• Nifer yr adroddiadau a gyhoeddwyd dri mis ar ôl arolygiad | Gwnaethom gynnal y Gwiriadau Ansawdd a'r arolygiadau canlynol:<br>• 1 arolygiad â phwyslais penodol o ysbyty maes<br>• 1 Gwiriad Ansawdd o ysbyty maes<br>• 5 arolygiad dilynol o ysbytai<br>• 26 o Wiriadau Ansawdd o ysbytai'r GIG<br>• 8 Gwiriad Ansawdd o feddygfeydd<br>• 5 arolygiad IR(ME)R â phwyslais penodol<br>• 4 arolygiad â phwyslais penodol o Ganolfannau Brechu Torfol<br><br>Gwnaethom gyhoeddi 94 o Wiriadau Ansawdd yn ystod 2020-2021. Cafodd 60 ohonynt eu cyhoeddi o fewn pedair wythnos.<br><br>Gwnaethom gyhoeddi 29 o adroddiadau arolygu ar y safle yn ystod 2020-2021. Cafodd 27 ohonynt eu cyhoeddi o fewn 3 mis i'r arolygiad. |

## Amcan 5

| | | |
|---|---|---|
| Parhau â'n rhaglen o adolygiadau cenedlaethol gan gynnwys:<br>• Gwasanaethau mamolaeth<br>Dechrau gwaith ar:<br>• COVID-19: Themâu a'r hyn a ddysgir o'n gwaith<br>• Gofal atal argyfwng iechyd meddwl<br>Cynnal gwaith dilynol ar adolygiadau lleol neu genedlaethol a gyhoeddwyd yn flaenorol, gan gynnwys y canlynol:<br>• Gofyn am gynlluniau gwella wedi'u diweddaru ac asesu'r rhain i ddeall cynnydd yn erbyn argymhellion | • Dadansoddi, llunio a chyhoeddi'r adolygiad<br>• Cyhoeddi cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiadau hyn<br>• Dechrau rhaglen o waith dilynol. | Yn ystod y flwyddyn gwnaethom gyhoeddi:<br>• Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth<br>• Adolygiad Lleol o Wasanaethau Sgrinio'r Fron yn Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>• Adolygiad Lleol o'r Trefniadau Rheoli Cleifion yn Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru<br>Gwnaethom ddechrau ar ein Hadolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Atal Argyfyngau Iechyd, a gyhoeddir yn ystod gaeaf 2021.<br>Gwnaethom gwblhau cam cyntaf ein proses ddilynol ar gyfer yr adroddiadau adolygu a gyhoeddwyd gennym yn gynharach yn y flwyddyn. Rydym wedi cymeradwyo'r ymatebion a ddaeth i law gan y sefydliadau a oedd yn rhan o'n Hadolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth, ac ar gyfer y ddau adolygiad lleol a gynhaliwyd yn Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Byddwn yn cynnal ail gam proses ddilynol yr adolygiadau hyn yn ystod 2022. |

| Amcan 6 | | |
|---|---|---|
| Cynnal adolygiad lefel uchel o holl gyrff y GIG drwy<br>• Ddatblygu'r swyddogaeth Rheoli Cydberthnasau ymhellach<br>• Llunio datganiad blynyddol ar gyfer pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG | Cyhoeddi datganiadau blynyddol byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG | Cyflwynwyd canfyddiadau blynyddol 2020-2021 yng nghyfarfodydd y bwrdd ac yn ystod diwrnodau datblygu'r bwrdd ar gyfer Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG gan Reolwyr Cydberthnasau.<br>Wrth lunio'r crynodebau o'r byrddau iechyd yn yr adroddiad blynyddol, gwnaeth Rheolwyr Cydberthnasau ystyried:<br>• Canfyddiadau o'n rhaglen gwiriadau ansawdd, arolygiadau ac adolygiadau ar gyfer 2020-2021<br>• Gwybodaeth a gasglwyd drwy fod yn bresennol mewn nifer o gyfarfodydd rhithwir allweddol a gynhaliwyd gan y byrddau iechyd, megis cyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch a chyfarfodydd un i un â phersonél allweddol byrddau iechyd<br>• Pryderon a ddaeth i law drwy ein proses pryderon<br>• Cyfarfodydd rhithwir â sefydliadau partner allanol megis Archwilio Cymru a Chynghorau Iechyd Cymuned |

## Ein gwaith ym maes iechyd meddwl

### Amcan 7

| | | |
|---|---|---|
| Cynnal rhaglen o wiriadau ansawdd mewn lleoliadau iechyd meddwl ac anableddau dysgu annibynnol ac sy'n rhan o'r GIG, gan gynnwys tua:<br>• 20 o wardiau mewn gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu'r GIG<br>• Yr 20 ysbyty Iechyd Meddwl ac Anableddau dysgu annibynnol cofrestredig<br>• Parhau i gynnal arolygiadau llawn lle bo pryderon neu wybodaeth yn awgrymu bod risg ddifrifol i ddiogelwch y cleifion | Nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd | • Gwnaethom gynnal 8 arolygiad ar y safle a 35 o Wiriadau Ansawdd o ysbytai iechyd meddwl:<br>• 1 arolygiad ar y safle o ysbyty Iechyd Meddwl y GIG<br>• 19 o Wiriadau Ansawdd o ysbytai Iechyd Meddwl y GIG<br>• 7 arolygiad ar y safle o ysbytai Iechyd Meddwl annibynnol<br>• 16 o Wiriadau Ansawdd o ysbytai Iechyd Meddwl annibynnol |

### Amcan 8

| | | |
|---|---|---|
| Darparu Gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD) ar gyfer tua<br>• 1000 o geisiadau SOAD | Cyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol | Cawsom 956 o geisiadau am SOAD |

## Rhannu ein canfyddiadau

### Amcan 9

| | | |
|---|---|---|
| Cyhoeddi adroddiadau ar ein holl weithgarwch sicrwydd yn unol â'n safonau perfformiad | Cyhoeddi adroddiadau yn unol â'n Hamserlen Gyhoeddi<br><br>Cyhoeddi perfformiad AGIC yn erbyn targedau | Gwnaethom greu adran COVID-19 newydd ar y wefan lle gallai unrhyw ddarparwyr gofal iechyd ac aelodau o'r cyhoedd ddod o hyd i'n datganiadau, canllawiau a chwestiynau cyffredin yn hawdd ac yn gyflym. COVID-19 \| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (agic.org.uk)<br><br>Gwnaethom greu rhestrau tanysgrifio newydd i bob lleoliad gofal iechyd annibynnol cofrestredig, ac anfonwyd cylchlythyrau yn ymwneud â COVID-19 yn rheolaidd.<br><br>Gwnaethom gyhoeddi tri chylchlythyr Arsylwi ar Ansawdd i leoliadau gofal iechyd y GIG a lleoliadau gofal iechyd annibynnol - Bwletin Arsylwi ar Ansawdd - COVID-19 \| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (agic.org.uk)<br><br>Rydym yn parhau i rannu ein hadroddiadau arolygu, datganiadau a newyddion â'n 6,204 o danysgrifwyr bob mis drwy gylchlythyr.<br><br>Gwnaethom gyhoeddi 94 o Wiriadau Ansawdd yn ystod 2020-2021. Cafodd 60 ohonynt eu cyhoeddi o fewn pedair wythnos.<br><br>Gwnaethom gyhoeddi 29 o adroddiadau arolygu ar y safle yn ystod 2020-2021. Cafodd 27 ohonynt eu cyhoeddi o fewn 3 mis i'r arolygiad. |

## Amcan 10

| | | |
|---|---|---|
| Rhannu ein canfyddiadau a'n hargymhellion â rhanddeiliaid, darparwyr gwasanaethau a'r cyhoedd er mwyn dylanwadu ar welliannau ym maes gofal iechyd, a'u hysgogi. Yn arbennig mewn cysylltiad â'r canlynol:<br>• Arolygiadau o Ysbytai<br>• Meddygfeydd<br>• Deintyddfeydd<br>• Adroddiad Monitro Blynyddol ar y Ddeddf Iechyd Meddwl<br>• Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)<br>• IR(ME)R<br>• Laserau<br>• Adroddiad Blynyddol AGIC | Cyhoeddi a rhannu ein Canfyddiadau mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys:<br>• Dosbarthu bwletinau dysgu<br>• Dosbarthu astudiaethau achos o arferion da<br>• Gwella cynnwys y wefan | Rydym yn cynnal gweithdai rheolaidd gyda Chynghorau Iechyd Cymuned ac uwchgynadleddau chwarterol gyda'r GIG a'r sector gofal iechyd annibynnol.<br><br>Gwnaethom greu cylchlythyr newydd i'r holl leoliadau gofal iechyd annibynnol cofrestredig. Drwy'r cylchlythyr hwn, cawsant yr holl wybodaeth ddiweddaraf gennym am faterion yn ymwneud â COVID-19, gan gynnwys canllawiau a dulliau gweithredu.<br><br>Gwnaethom gyhoeddi tri chylchlythyr Arsylwi ar Ansawdd i leoliadau gofal iechyd y GIG a lleoliadau gofal iechyd annibynnol<br><br>Rydym wedi cefnogi gwelliannau i'n gwefan yn 2020-2021 gan gynnwys:<br>• Adran COVID-19 newydd ar y wefan lle gallai unrhyw ddarparwyr gofal iechyd ac aelodau o'r cyhoedd ddod o hyd i'n datganiadau, canllawiau a chwestiynau cyffredin yn hawdd ac yn gyflym. |

## Gweithio gydag eraill

### Amcan 11

| | | |
|---|---|---|
| Parhau â'n gwaith arolygu ar y cyd ag asiantaethau'r DU<br>• Tua 16 o adolygiadau marwolaeth yn y ddalfa gyda'r<br>Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth<br>• Hyd at 3 adolygiad ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai EM ac Arolygiaeth Prawf EM | Cyhoeddi adroddiadau yn unol â'n Hamserlen Gyhoeddi<br>Cyhoeddi perfformiad AGIC yn erbyn targedau | • Gwnaethom gynnal 16 o ymchwiliadau i farwolaethau yn y ddalfa<br>• Gwnaethom gynnal 1 arolygiad ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai EM ac Arolygiaeth Prawf EM<br>• Gwnaethom gefnogi Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi â'i Hadolygiad Camddefnyddio Sylweddau mewn carchardai ledled y DU. Yng Nghymru, canolbwyntiwyd ar CEM Abertawe |

### Amcan 12

| | | |
|---|---|---|
| Ein tri adolygiad arfaethedig ag aelodau eraill Arolygu Cymru yw:<br>• Adolygiad o Blant Anabl ag Anghenion Cymhleth (Gydag AGC)<br>• Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau (Adolygiadau Llywodraethu gydag Archwilio Cymru)<br>• AGC yn darparu cymorth i'n hadolygiad Argyfwng Iechyd Meddwl | Atgyfnerthu canfyddiadau allweddol a themâu sy'n dod i'r amlwg gydag AGC ac Archwilio Cymru. | • Gwnaethom gefnogi AGC â'r Adolygiad o Blant Anabl; caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ddiwedd yr hydref 2021.<br>• Gwnaethom gynnal adolygiad dilynol ar y cyd gydag Archwilio Cymru, gan ystyried y trefniadau Llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mai 2021<br>• Bu AGC yn rhan o'r broses o ddylunio gwaith drwy ein grŵp rhanddeiliaid ar gyfer ein hadolygiad Argyfyngau Iechyd Meddwl |

11.

# 'Strategaeth 'Gwneud Gwahaniaeth' 2018-2021 AGIC

## Myfyrio ar ein cynnydd




## Myfyrio ar ein cynnydd

Ym mis Mawrth 2021, daeth strategaeth tair blynedd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) '<u>Gwneud Gwahaniaeth</u>' i ben. Nod y strategaeth hon oedd parhau â thaith y sefydliad fel arolygiaeth sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl Cymru drwy annog gwelliannau ym maes gofal iechyd. Mae AGIC yn sefydliad bach ond uchelgeisiol, â nod yr un mor uchelgeisiol. Er mwyn ei gyflawni, dyma fu ein blaenoriaethau dros y tair blynedd diwethaf:

1. Sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith fwyaf posibl i gefnogi'r gwaith o wella gofal iechyd
2. Cymryd camau lle na chaiff safonau eu cyrraedd
3. Bod yn fwy gweladwy
4. Datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl.

Rydym wedi gwneud cryn dipyn o waith o fewn gwasanaethau gofal iechyd dros y cyfnod hwn, sydd i'w weld yn y canlynol:




Fel sefydliad, rydym wedi gwneud cryn gynnydd wrth gyflawni yn erbyn y pedair blaenoriaeth hyn, ac mae'r penodau nesaf yn crynhoi ein barn sefydliadol ar raddau'r cyflawniadau hynny. Gwnaethom gynnal dau arolwg mewnol yn ceisio barn ein staff ar ein datblygiad a'r cynnydd a wnaed gennym fel sefydliad. Fodd bynnag, er mwyn gwerthuso ein cynnydd yn iawn, roeddem o'r farn ei bod yn bwysig ceisio barn y cyhoedd, a'r rheini rydym yn cydweithio â nhw ac yn gweithio ar eu rhan. Cynhaliwyd cyfres o arolygon ar-lein ym mis Mehefin 2021, gan gysylltu'n uniongyrchol â 700 o randdeiliaid, a gofyn iddynt rannu eu barn amdanom, a chynhaliwyd arolwg ar-lein ar gyfer y cyhoedd. Cawsom gyfanswm o 150 o ymatebion llawn o ganlyniad i'r gwaith hwn. Roeddem yn ddiolchgar bod rhanddeiliaid, ein staff ac aelodau o'r cyhoedd wedi rhoi o'u hamser i rannu eu barn am fod hyn wedi helpu i ddatblygu ein dealltwriaeth o'n cryfderau a'n gwendidau ymhellach.

## Gwerthuso'r Arolygon

Gwnaethom werthuso'r ymatebion i'r arolygon a cheir crynodeb isod o'r hyn a ddywedodd yr ymatebwyr. Mae'r dadansoddiad wedi'i rannu i bob un o'n meysydd blaenoriaeth.



# Blaenoriaeth 1:

## Sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith orau bosibl er mwyn cefnogi'r gwaith o wella gofal iechyd

Dywedodd 81% o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'n harolwg ein bod wedi gwneud cynnydd da wrth sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith orau. Yn ôl un o'r sylwadau, roedd ein gwaith yng Nghymru yn ystod y pandemig wedi "arwain y ffordd" a dywedwyd wrthym hefyd y gall ein gwaith lle rhoddir rhybudd fod yn fwy buddiol i wasanaethau gofal iechyd na'n gwaith dirybudd. Rydym yn gwneud cyfuniad o waith lle rhoddir rhybudd a gwaith dirybudd, ac wrth i ni fynd yn ein blaen, bydd yn bwysig i ni gymharu manteision ac anfanteision y ddau ddull gweithredu a sicrhau ein bod yn dewis y dull sy'n cynnig y potensial mwyaf ar gyfer sicrhau gwelliant dan yr amgylchiadau.

Yn ein harolwg ar gyfer y cyhoedd, dywedodd 74% o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod y gallent droi at AGIC i gael gwybod am ansawdd gwasanaeth gofal lleol. Mae hyn yn ganlyniad cadarnhaol ac yn llinell sylfaen yr ydym yn debygol o fod eisiau gwella arni yn y dyfodol. Dywedodd y cyhoedd wrthym fod cael gwybodaeth am wasanaeth yn 'ddefnyddiol ac yn tawelu'r meddwl'.

Dywedodd 100% o'r adolygwyr cymheiriaid a ymatebodd i'n harolwg eu bod o'r farn ein bod wedi dewis gwneud y gwaith cywir yn y lleoedd cywir. Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig yw'r rhain, sy'n agos at wasanaethau ac yn ymwybodol o'u dulliau gweithredu, ac mae'n galonogol iawn bod y rhai sy'n deall y gwasanaethau cystal o'r farn ein bod yn targedu ein gwaith yn briodol.

# Blaenoriaeth 2:

## Cymryd camau lle na chaiff safonau eu cyrraedd

Roedd 69% o'r rhanddeiliaid a ymatebodd o'r farn ein bod wedi gwneud cynnydd da yn erbyn yr amcan hwn. Fodd bynnag roedd 31% yn teimlo ei fod yn faes lle nad ydym wedi gwneud cymaint o gynnydd â meysydd eraill. Cafwyd rhai sylwadau adeiladol a fydd yn ein helpu i ystyried y maes hwn yn y dyfodol. Roedd rhai sylwadau'n awgrymu bod angen i ni wneud mwy o waith dilynol. Rydym eisoes wedi cydnabod y maes hwn, ac rydym wrthi'n cyflwyno system newydd a fydd yn ein helpu i fonitro a mynd i'r afael â'r gwasanaethau sy'n methu'n barhaus, neu wasanaethau lle rydym wedi nodi methiannau sylweddol (ond nid o reidrwydd methiannau ailadroddus).

Roedd adborth ein hadolygwyr cymheiriaid, sy'n cydweithio'n agos â ni, yn gadarnhaol iawn ynghylch y flaenoriaeth hon. Dywedodd 100% o'r ymatebwyr bod y gwaith arolygu a sicrwydd yr oeddent wedi'i wneud gydag AGIC wedi helpu i nodi meysydd i'w gwella ym maes gofal iechyd. Roedd hefyd yn gadarnhaol nodi cryn ddiddordeb gan aelodau o'r cyhoedd a ddywedodd wrthym y byddent yn hoffi clywed gennym am eu gwasanaethau lleol, a ph'un a ydynt yn darparu gofal o ansawdd da ai peidio.

# Blaenoriaeth 3:

## Bod yn fwy gweladwy

Dywedodd 68% o'r rhanddeiliaid a ymatebodd wrthym ein bod ni, fel sefydliad, wedi bod yn weladwy iawn i'r cyhoedd, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a chyrff proffesiynol. Yn achos y 32% a ddywedodd fod angen i ni fod yn fwy gweladwy, gwnaed sylwadau am feysydd lle gallem wella a bod yn fwy gweladwy, fel gofal sylfaenol a thrwy ymgyrchoedd sy'n rhannu darlun mwy cyffredinol o'r hyn yw AGIC a'r rôl sydd gennym. Mae'n werthfawr tu hwnt i'r sefydliad allu mynd ati yn awr i ystyried ein strategaeth at y dyfodol gyda'r ddealltwriaeth hon i'n llywio a'n herio ar y ffordd rydym wedi gweithio hyd yma.

Roeddem yn awyddus i glywed a oedd y cyhoedd yn gwybod y gallent godi pryderon am wasanaethau gofal iechyd â ni yn AGIC, a gwnaethom ofyn y cwestiwn penodol hwn yn ein harolwg. Roedd 65% o'r ymatebwyr yn gwybod y gallent godi pryderon â ni, ac o'r rhain, roedd 56% hefyd yn gwybod sut i gysylltu â ni a rhannu eu barn. Gwnaethom ddangos i bobl, drwy'r arolwg hwn, sut i fynd i'n tudalen pryderon a'r hyn y byddai angen iddynt ei lenwi, ac ar ôl i ni wneud hyn, cawsom ymateb cadarnhaol iawn, gydag 87% o bobl yn dweud y byddai'n hawdd defnyddio'r dull hwn pe bai angen. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod hwn yn faes lle mae angen i ni wneud mwy o waith. Rydym am godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd y gallant gysylltu â ni i godi pryderon a'i gwneud yn hawdd iddynt ddeall sut i wneud hyn. Mae ein dealltwriaeth o farn y cyhoedd a'u profiadau o wasanaethau gofal iechyd yn ffordd bwysig i ni gael darlun llawn o ba mor dda y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu.

# Blaenoriaeth 4:

## Datblygu ein pobl a'n sefydliad i wneud y gwaith gorau posibl

Bu'n fwriad gennym dros y tair blynedd diwethaf i ddatblygu ein sefydliad fel ein bod yn cyflawni ein rôl yn fwy effeithiol. Rydym wedi gofyn y cwestiwn hwn i'n hunain yn fewnol, ond roeddem am ddeall hefyd a oedd ein cynnydd yn amlwg o'r tu allan hefyd. Mae'n bleser gennym nodi bod 68% o'r rhanddeiliaid a ymatebodd wedi dweud ein bod wedi datblygu a gwella, gan ddweud bod y berthynas waith rhyngom wedi cryfhau a'u bod yn croesawu'r broses hunanwerthuso a gyflwynwyd fel rhan o'n dull sicrwydd ac arolygu addasedig, a'i bod yn effeithiol. Cawsom hefyd awgrymiadau adeiladol ynghylch ein camau nesaf, a sut i ddatblygu mwy fyth, ac yn arbennig yr angen i barhau i sicrhau bod ein prosesau'n cael eu symleiddio cymaint â phosibl. Lle nad yw hyn yn bosibl, gwnawn ein gorau i sicrhau ein bod wedi cyfleu ein rhesymeg yn glir i wasanaethau gofal iechyd, fel eu bod yn deall yr angen am rai o'n prosesau a sut y maent yn cyfrannu at ein gwaith.

Gwnaethom ofyn i'n staff am eu barn am ddatblygiad y sefydliad dros y tair blynedd diwethaf. Roedd y staff yn gadarnhaol iawn am y datrysiadau TGCh a roddwyd ar waith yn ystod y cyfnod hwn er mwyn helpu i sicrhau bod y gwaith rydym yn ei wneud yn llai cymhleth. Rhoddwyd cryn sylw hefyd i ddysgu a datblygu ein staff dros y cyfnod hwn, ac adlewyrchwyd hyn yn ymatebion cadarnhaol y staff i'r cwestiwn hwn. Cafwyd sylwadau gan staff am feysydd y dylai ein gweithgarwch dysgu a datblygu ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol yn eu barn nhw, gan awgrymu y byddai datblygu adolygwyr cymheiriaid ac, yn fewnol, staff sy'n cyflawni rolau Rheolwyr Cydberthnasau, yn feysydd da i'w hystyried fel meysydd i gynnig hyfforddiant ynddynt. Yn arbennig, roedd y staff yn canmol y gyfres o sesiynau hyfforddi cyflym ar amrywiaeth eang o feysydd clinigol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.



## Myfyrio Sefydliadol ar ein cynnydd dros y cyfnod o dair blynedd

01

# Sicrhau bod ein gwaith yn cael yr effaith fwyaf posibl i gefnogi'r gwaith o wella gofal iechyd

Blaenoriaeth bennaf AGIC yn ei strategaeth tair blynedd, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, oedd sicrhau bod ei gwaith yn cael yr effaith fwyaf posibl er mwyn cefnogi gwelliannau ym maes gofal iechyd Roedd y flaenoriaeth hon yn rhoi pwyslais ar wneud y gwaith cywir, ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir, gan sicrhau hefyd ein bod yn cyfathrebu'n glir ynghylch ein gwaith. Roeddem yn argyhoeddedig mai gweithio gydag eraill yn y system iechyd a gofal fyddai'n sicrhau'r effaith fwyaf. O ganlyniad, ein nodau allweddol oedd:

- Gwella ein dull o ddadansoddi, defnyddio a rhannu gwybodaeth
- Cydweithio'n agos ag arolygiaethau eraill, yn enwedig Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn hawdd ei ddeall.

Mae AGIC wedi trawsnewid y ffordd y mae'n dadansoddi, yn defnyddio ac yn rhannu gwybodaeth, gan feithrin cydberthnasau agosach â phartneriaid allweddol a chreu mwy o gyfleoedd i rannu gwybodaeth â sefydliadau fel y Cynghorau Iechyd Cymuned, Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru ac i gael gwybodaeth ganddynt. Rydym wedi parhau i fireinio'r ffordd rydym yn cynnal yr uwchgynadleddau gofal iechyd ddwywaith y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd hyn bellach wedi'u rhannu dros ddau ddiwrnod er mwyn sicrhau bod digon o amser i drafod pob sefydliad sy'n rhan o'r GIG fel y gall partneriaid allweddol ffurfio barn ar faterion a risgiau a nodi themâu cenedlaethol a gaiff eu rhannu wedyn â Phrif Weithredwr GIG Cymru.

Rydym wedi atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer ein gwaith adolygu yn sylweddol ers 2018. Mae ein Bwrdd Llywio Adolygiadau bellach yn ystyried amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys cyflwyniadau gan bartïon allanol, ac yn defnyddio proses fesul cam i ddatblygu adolygiadau cenedlaethol, gan alluogi AGIC i wneud gwaith ymchwil a gwerthuso cyn ymrwymo adnoddau. Mae hyn yn gwneud yn siŵr y gall AGIC sicrhau bod ei gwaith yn cael yr effaith orau bosibl drwy flaenoriaethu effeithiol. Mae'r Bwrdd Llywio Adolygiadau hefyd yn goruchwylio'r broses o gynnal pob adolygiad, gan gynnwys adolygiadau lleol ac adolygiadau ar y cyd a gynhelir mewn byrddau iechyd neu ymddiriedolaethau. Rydym wedi datblygu ffyrdd arloesol o roi gwybod i bobl am ganfyddiadau ein harolygiadau, gan gynnwys defnyddio gweithdai dysgu i randdeiliaid a bwletinau i rannu canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith.

Ar ddechrau pandemig COVID-19, bu'n rhaid i AGIC drawsnewid y ffordd roedd yn cynnal gwaith sicrwydd yn gyfan gwbl. Gwnaethom atal gwaith arolygu rheolaidd ar y safle am gyfnod ym mis Mawrth 2020 a datblygu dull o ddefnyddio Gwiriadau Ansawdd oddi ar y safle. Aethom ati'n ddi-oed i ddatblygu arddull adrodd byrrach er mwyn i ni allu cyhoeddi adroddiadau o fewn tua mis yn hytrach na'r amserlen tri mis sy'n gysylltiedig ag arolygiad llawn. Drwy wneud y newid hwn, llwyddwyd i sicrhau y gallai ein gwaith gael yr effaith orau bosibl drwy ddarparu adborth cyflym i'r system gofal iechyd wrth iddi fynd i'r afael ag argyfwng.


Nododd un o'r sylwadau a gafwyd mewn ymateb i arolwg y cyhoedd a gynhaliwyd gan AGIC, a oedd yn adolygu'r cynnydd a wnaed gennym yn 2021,

## "bod adroddiadau o'r fath yn rhoi cyfleoedd rhagorol i'w defnyddio fel meincnod"

Yn unol â'n hymrwymiadau strategol, bu AGIC yn rhan o nifer o adolygiadau ac arolygiadau ar y cyd rhwng 2018 a 2021, gan gynnwys cydweithio ag Archwilio Cymru i gynnal adolygiad ar y cyd uchel ei broffil o drefniadau llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a gyhoeddwyd gennym ar ddechrau 2021.

Rydym yn cydweithio'n agos ag Arolygiaeth Gofal Cymru wrth i faterion a risgiau ddod i'r amlwg yn y sectorau iechyd a gofal ac rydym wedi cynnal arolygiadau ar y cyd â hi mewn nifer o feysydd gwasanaeth gan gynnwys iechyd meddwl cymunedol. Rydym hefyd wedi cydweithio'n agos â'r Cynghorau Iechyd Cymuned, ac yn benodol, gwnaethom gydweithio i gynnal adolygiad cenedlaethol o wasanaethau mamolaeth.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom gymryd rhan mewn Arolygiad ar y Cyd o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) yng Nghasnewydd. Yr arolygiad ar y cyd oedd yr arolygiad peilot cyntaf yng Nghymru lle daeth pum arolygiaeth at ei gilydd i adolygu trefniadau amddiffyn plant. Er bod hyn yn heriol o safbwynt logisteg, mae'r peilot hwn yn dangos yn amlwg fanteision cydweithio ag arolygiaethau eraill ar feysydd o ddiddordeb cyffredin er mwyn gwella gwasanaethau yng Nghymru. Rydym yn disgwyl parhau i weithio yn y modd hwn dros y blynyddoedd sydd i ddod.



02

# Cymryd camau lle na chaiff safonau eu cyrraedd

Ail flaenoriaeth strategol AGIC ar gyfer cyfnod 2018-21 oedd cymryd camau lle na chafodd safonau eu cyrraedd. Mae nifer o ffactorau yn cyfrannu at y nod hwn, gan gynnwys natur y fframweithiau cyfreithiol sy'n diffinio ein pwerau, ansawdd ac amseroldeb ein gwaith, y ffordd rydym yn ymgysylltu â'r rhai rydym yn eu harolygu a'u rheoleiddio, a'r ffordd y byddwn yn uwchgyfeirio materion pan ddown yn ymwybodol ohonynt.

I gefnogi'r flaenoriaeth hon, ers 2018, rydym wedi anelu at wneud y canlynol:

- Monitro ein dull o gynnal arolygiadau ac adolygiadau er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn effeithiol
- Gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu â darpar ddarparwyr gofal iechyd annibynnol a darparwyr presennol
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i adolygu cwmpas y pwerau cyfreithiol sydd ar gael i AGIC, a'r defnydd a wneir ohonynt.

Un o'r newidiadau mwyaf ar gyfer AGIC dros y tair blynedd diwethaf yw'r ffordd rydym yn cynllunio ac yn cyflawni ein rhaglen arolygu ac adolygu. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pob darn o waith sicrwydd yn cyfrif ac, o ganlyniad, rydym yn buddsoddi'n helaeth yn y prosesau sy'n sail i'n rhaglen waith. Mae ein Pwyllgor Risg ac Uwchgyfeirio, sy'n cyfarfod bob mis, yn sicrhau y gallwn addasu ein cynlluniau gwaith mewn ffordd ddynamig er mwyn ymateb i risgiau yn y system gofal iechyd.

Yn ogystal, rydym wedi mabwysiadu prosesau cynllunio chwarterol erbyn hyn er mwyn sicrhau bod ein rhaglen waith yn parhau'n berthnasol. Rydym wedi datblygu ein rhwydwaith o Reolwyr Cydberthnasau ar gyfer byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG i gynnwys Dirprwy Reolwyr ac Arweinwyr Gweithredol Cydberthnasau. Mae hyn wedi gwella ein gallu i fonitro datblygiadau allweddol yn y sefydliadau hyn, a'r heriau a wynebir ganddynt. Mae hyn yn golygu y gallwn addasu ein rhaglen waith yn ôl yr angen.

Mae ein tîm methodoleg wedi tyfu dros y tair blynedd diwethaf er mwyn sicrhau y gallwn gadw ein dulliau gweithredu'n gyfredol, gan ystyried y meysydd mwyaf priodol o ran darparu gofal iechyd wrth gynnal gwaith sicrwydd. Ar ôl dechrau pandemig COVID-19 yn 2020, a'r angen i atal ein gwaith arolygu arferol ar y safle o ganlyniad i hynny, gwnaethom drefnu bod nifer o'n harolygwyr yn gweithio ar brosiectau methodoleg. Drwy'r gwaith hwn, lluniwyd dull o gynnal gwaith sicrwydd oddi ar y safle, a elwir yn Wiriadau Ansawdd. Mae'r dull hwn yn fodel cwbl newydd i AGIC, ac mae'n gofyn i ni ystyried amrywiaeth o opsiynau posibl yn fanylach cyn penderfynu cynnal arolygiad ar y safle.

Mae'r broses Gwiriad Ansawdd yn ein galluogi i gymryd camau lle na chaiff safonau eu cyrraedd, a hynny'n ddi-oed. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol yn gynnar yn ystod pandemig COVID-19, pan oedd yn hanfodol bod gwasanaethau'n deall unrhyw risgiau a oedd yn gysylltiedig â'u dulliau gweithredu cyn gynted â phosibl.

Yn ystod 2018-21, rydym wedi trawsnewid ein dull o gynnal gwaith dilynol, a hynny ar gyfer ein gwaith arolygu ac ar gyfer adolygiadau cenedlaethol a lleol. Mae ein dulliau newydd yn y meysydd hyn yn atgyfnerthu'r ffordd rydym yn dwyn gwasanaethau i gyfrif am y camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd yn dilyn arolygiad neu adolygiad. Rydym hefyd wedi datblygu proses Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ar gyfer y GIG, sy'n ffurfioli ein dull gweithredu pan fyddwn yn dod o hyd i fethiannau difrifol neu fynych o ran ansawdd gwasanaeth. Mae'r broses hon yn cynnwys cyhoeddi dynodiad Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ar gyfer lleoliad, er mwyn cyflawni ein dyletswydd i ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ansawdd gwasanaethau. Rydym o'r farn y bydd y broses Gwasanaeth sy'n Peri Pryder yn sicrhau y bydd amrywiaeth o randdeiliaid yn gweithredu'n gyflym ac yn bwrpasol pan fydd pryderon yn codi am ansawdd gofal.

Rydym wedi gwneud llawer o waith dros y tair blynedd diwethaf i atgyfnerthu'r ffordd rydym yn cyfathrebu â darparwyr yn y sector annibynnol. I ddechrau, gwnaethom hyn drwy ddarparu canllawiau cliriach ar ein gwefan i gefnogi darpar wasanaethau a oedd angen cymorth i ddeall yr hyn y mae'n ofynnol iddynt ei wneud yn ôl y gyfraith.

**"Yn fy marn i, llwyddodd AGIC i wella ei phroffil a'i phresenoldeb fel asiantaeth gefnogol ar gyfer practisau deintyddol drwy gydol y pandemig hwn, ac roeddwn yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Yn hanesyddol, roeddwn yn teimlo nad oedd cysylltiad cryf rhwng AGIC a sefydliadau gofal iechyd ac roedd yn cael ei gweld fel corff gwarchod hyd braich yn bennaf. Rwyf bob amser wedi teimlo bod angen i AGIC feithrin cysylltiadau mwy cadarnhaol â sefydliadau gofal iechyd. Cefais fy synnu ar yr ochr orau gan ei hymdrechion yn ystod y pandemig, roeddent yn gwbl addas at y diben a chawsant groeso mawr. Diolch a da iawn AGIC."**

Ein gweithgareddau gorfodi dros y gorffennol flwyddyn wedi'u nodi'n gynharach yn yr adroddiad hwn (dolen).

Yn ystod y cyfnod o dair blynedd sy'n gysylltiedig â ein strategaeth ar gyfer 2018-2021, rydym wedi parhau cryfhau ein proses Gwasanaeth sy'n Peri Pryder ar gyfer y sector annibynnol, lle bo angen defnyddio cyfyngiadau ar weithgarwch er mwyn i gadw cleifion yn ddiogel. Yn ystod y cyfnod hwn rydym yn ymgymryd â nifer cynyddol o orfodaeth gweithgareddau, gan gynnwys ein herlyn cyntaf o wasanaeth annibynnol heb ei gofrestru.

Dros y tair blynedd diwethaf rydym wedi parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar gwmpas ein pwerau, gan gynnwys tynnu sylw at unrhyw gyfyngiadau gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth bresennol o fewn yr ydym yn ei weithredu. Mae'n amlwg bod y capasiti ar gyfer newid deddfwriaethol yn ystod y cyfnod hwn wedi'i gyfyngedig gan ddatblygiadau ynghylch ymadael â'r Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd a dechrau pandemig COVID-19 yn 2020. Mae AGIC yn parhau i fanteisio ar ystod lawn ei pwerau ac mae wedi cyfrannu at ddatblygu o'r Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd a Ymgysylltu) (Cymru) Bil a ddaeth yn gyfraith ar 1 Mehefin 2020. Ar hyn o bryd mae AGIC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar weithredu nodweddion allweddol y Ddeddf gan gynnwys lansio Corff Llais y Dinesydd newydd a'r cyflwyniad o'r Ddyletswydd Candour a Dyletswydd Ansawdd.

# Bod yn fwy gweladwy

Yn 2018, gwnaethom herio ein hunain i ddod yn sefydliad mwy gweladwy ac i wella dealltwriaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol o'n gwaith, a'u hymgysylltiad ag ef. Mae bod yn fwy gweladwy ledled Cymru yn ein galluogi i gasglu amrywiaeth ehangach o wybodaeth er mwyn i ni allu gwneud penderfyniadau gwell wrth nodi meysydd risg, cymryd camau pellach a chefnogi gwelliant. Dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ystod pandemig COVID-19, mae wedi bod hyd yn oed yn bwysicach i AGIC fod yn weladwy wrth barhau i gadarnhau bod cleifion yn cael gofal o ansawdd da, darparu adborth cyflym ar ein canfyddiadau a sicrhau bod lleoliadau gofal iechyd annibynnol yn cael gwybod am y rheoliadau diweddaraf.

Yn fwy penodol, ers 2018, rydym wedi anelu at gyflawni'r canlynol:

- Datblygu a gwella'r ffordd rydym yn gwrando ar y cyhoedd
- Gwella'r ffordd rydym yn rhoi gwybod i bobl am yr hyn a wnawn
- Datblygu'r ffordd rydym yn cynnwys pobl yn ein gwaith.

Mae rhagor o waith i'w wneud o hyd yn y maes hwn, ond rydym o'r farn ein bod wedi gwneud cynnydd da tuag at y flaenoriaeth hon. [10]Yn 2018, roedd ychydig dros chwarter y bobl yng Nghymru yn ymwybodol o'r arolygiaeth. [11]Yn 2020, roedd hynny wedi cynyddu i ychydig o dan 40%. Mewn arolwg diweddar o'r cyhoedd, [12]roedd dros 73% o'r ymatebwyr yn gwybod y gallent gael gafael ar wybodaeth am ansawdd eu gwasanaeth iechyd lleol drwy AGIC.

Rydym wedi gweithio i gyflawni ein nodau drwy wneud nifer o welliannau.

Rydym wedi gwella ein defnydd o gyfryngau digidol i gyfathrebu am ein rôl, ein diben a'n canfyddiadau. Rydym wedi rhoi strategaeth cyfryngau cymdeithasol ar waith, wedi gwella ein defnydd o arolygon ar-lein ac wedi ailddylunio dogfennau i'r cyhoedd i gyflwyno dull creadigol newydd o gyflwyno ein canfyddiadau er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch a diddorol. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cyflwyno ein Crynodebau o Wiriadau Ansawdd a bwletin Arsylwi ar Ansawdd AGIC, sydd wedi ein galluogi i roi adborth cyflym ar ein canfyddiadau i wasanaethau gofal iechyd.

Mewn arolwg diweddar, roedd dros 75% o'r ymatebwyr wedi gweld un o'n hadroddiadau ac roedd dros 90% yn awyddus i dderbyn ein hadroddiadau yn eu harddull newydd.

Mae'r datblygiadau hyn wedi ein galluogi i gynnwys mwy o aelodau o'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn ein gwaith. Ers 2018, ym mhob rhan o'n gwaith arolygu ac adolygu, rydym wedi cael mwy nag 11,500 o ymatebion gan gleifion a dros 1,000 gan staff. Roedd hyn yn cynnwys 630 o fenywod a 76 o aelodau o staff a gymerodd ran yn ein gwaith ar wasanaeth Bron Brawf Cymru, ac eleni cymerodd bron i 600 o aelodau o'r cyhoedd a 90 o staff gofal iechyd ran yn ein harolygiadau â phwyslais penodol o Ganolfannau Brechu Torfol. Mae adborth wedi awgrymu y gallwn wneud mwy o welliannau yn y maes hwn drwy waith ymgysylltu pellach â grwpiau sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd wedi'i thargedu'n well er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar rôl AGIC a mwy o waith i fod yn fwy gweladwy i broffesiynau gofal sylfaenol a chontractwyr.

[10] Omnibws Cymru, Beaufort Research Ltd - Medi 2018
[11] Omnibws Cymru, Beaufort Research Ltd - Medi 2020
[12] Arolwg Ymgysylltu Strategol AGIC, Mehefin 20211

Mae adborth wedi awgrymu y gallwn wneud mwy o welliannau yn y maes hwn drwy waith ymgysylltu pellach â grwpiau sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd wedi'i thargedu'n well er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar rôl AGIC a mwy o waith i fod yn fwy gweladwy i broffesiynau gofal sylfaenol a chontractwyr.

Mae ein gwaith ar Ganolfannau Brechu Torfol, Ysbytai Maes a'n Hadolygiad Cenedlaethol o COVID-19 wedi ein helpu i barhau'n weladwy wrth gyflawni ein rôl yn ystod y pandemig. Gwnaethom ymgysylltu'n gadarnhaol â rhanddeiliaid a'r cyfryngau ar ein canfyddiadau.

## "Mae'r gallu i rannu gwybodaeth yn ddefnyddiol ac yn hanfodol. Mae'r wybodaeth am y ffordd y mae sefydliadau eraill yn adolygu'r GIG yn helpu i lywio ein gwaith."

Rydym wedi gweithio i feithrin cydberthnasau cryfach â darparwyr gofal iechyd a chyrff proffesiynol eraill er mwyn gwella dealltwriaeth o'n rôl a'n diben, a sut y gallwn gydweithio i gefnogi gwelliant. Dros y flwyddyn ddiwethaf, er mwyn meithrin ymwybyddiaeth a gwybodaeth eang am rôl AGIC ar y cam cynharaf posibl yng ngyrfaoedd gweithwyr iechyd proffesiynol, rydym wedi cynyddu ein hymgysylltiad uniongyrchol â darparwyr addysg a hyfforddiant gan gynnwys prifysgolion. Rydym wedi rhoi cyflwyniadau i brifysgolion ledled Cymru mewn cyfarfodydd cyfadran i dynnu sylw at ein rôl. Cafodd y sesiynau hyn groeso cynnes ac erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd, ein nod yw y bydd AGIC, ochr yn ochr â hyn, yn darparu sesiynau i fyfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yn y gwyddorau iechyd ac arbenigeddau iechyd perthynol.

Rydym wedi defnyddio cynadleddau a seminarau allweddol i wella ein gweladwyedd a chyfleu canfyddiadau a gwersi o'n gwaith. Er bod hyn wedi bod yn anoddach eleni, o ystyried cyfyngiadau'r pandemig, rydym wedi cynnal a chymryd rhan mewn digwyddiadau dysgu digidol. Yn benodol, gwnaethom gadeirio digwyddiad gwella gyda mwy na 150 o aelodau o staff GIG Cymru i ystyried y cynnydd a wnaed mewn perthynas â chanfyddiadau ein Hadolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth. Gwnaethom hefyd gynnal yr Uwchgynhadledd Gofal yn ddigidol, ac mae'r uwchgynadleddau hyn yn parhau i chwarae rôl hollbwysig wrth rannu gwybodaeth a chynrychioli barn gyfunol y rhai sy'n craffu ar ofal iechyd ledled Cymru. Cafwyd adborth rhagorol ar yr uwchgynadleddau[13].

## "Mae cyfraniadau'r partneriaid yn gwella bob blwyddyn"

Roedd y mwyafrif o'r rhai a oedd yn bresennol a ymatebodd yn teimlo eu bod yn cael eu cynnal yn dda a'u bod yn fforwm ar gyfer rhannu dealltwriaeth a gwybodaeth yn ogystal â rhannu barn ar berfformiad gwasanaethau gofal iechyd ledled Cymru.



[13] Adborth Uwchgynhadledd Gofal Iechyd AGIC Mai 2021

04



# Cymryd camau lle na chaiff safonau eu cyrraedd

Ased gorau AGIC yw ei phobl.

Ers 2018, ein nod fu gwella'r ffordd rydym yn gweithio er mwyn sicrhau ein bod yn gyson effeithiol ac effeithlon. Rydym hefyd wedi ceisio gwella ein dull o ddatblygu a chefnogi pawb sy'n gweithio i AGIC, er mwyn iddynt allu gwneud y gwaith gorau posibl er budd cleifion a'r cyhoedd.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, gwnaethom bennu'r camau gweithredu lefel uchel canlynol i ni ein hunain:

- Rhoi rhaglen newid ar waith i wella ffyrdd AGIC o weithio
- Buddsoddi yn y gwaith o feithrin sgiliau a gwybodaeth ein pobl
- Datblygu strategaeth gweithlu sy'n ystyried trefniadau cynllunio olyniaeth a llwybrau gyrfa.

Rydym wedi cyflawni'n sylweddol yn erbyn y flaenoriaeth hon. Fel rhan o'n rhaglen newid, rydym wedi dechrau defnyddio'r dechnoleg ddigidol ddiweddaraf drwy gyflwyno arolygiadau electronig newydd, system symlach ar gyfer talu ffioedd cofrestru ar-lein a system rheoli data a gwybodaeth newydd, prosiect y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn ystod 2021.

Rydym wedi tyfu'r sefydliad yn effeithiol ac wedi cyflwyno trefniadau llywodraethu newydd mewn perthynas â'n swyddogaethau adolygu, methodoleg, gweithlu a chyllid gan wella ein gallu i gynllunio, rheoli a datblygu ein hadnoddau.

Rhoddwyd strategaeth a chynllun gweithredu dysgu a datblygu tair blynedd ar waith ar gyfer y sefydliad a wnaeth gynyddu ein buddsoddiad mewn hyfforddiant, cynnig cyfleoedd datblygu i'r staff er mwyn meithrin eu sail sgiliau, hwyluso datblygiad gyrfaoedd a sicrhau bod y sefydliad yn fwy cydnerth. Mewn arolwg staff [14]diweddar, nododd y rhan fwyaf o bobl eu bod o'r farn y gallant fanteisio ar y cyfleoedd dysgu a datblygu priodol i helpu i wella eu perfformiad a datblygu eu gyrfa.

[14]Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2020

"[15]Cyfeillgar ac ymatebol iawn. Rwyf wedi cyfathrebu ag amryw dimau wyneb yn wyneb ac yn ysgrifenedig ac roedd y gwasanaeth yn wych. Roedd aelodau AGIC yn gydymdeimladol iawn ac yn barod eu cymorth er mwyn helpu practisau i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Yn ystod yr arolygiad diwethaf roeddwn yn rhan ohono, roedd y staff yn broffesiynol, yn realistig ac yn gefnogol.

"Creu mwy o gyfleoedd i bobl mewn sefydliadau eraill weithio gydag AGIC yn rhan amser neu ar secondiad."

Rydym wedi gwerthuso'r ffordd rydym yn defnyddio adolygwyr lleyg gwirfoddol ac wedi creu rhwydwaith newydd o Arbenigwyr drwy Brofiad ac Adolygwyr Profiad Cleifion er mwyn gwella'r broses o glywed llais y claf yn ystod arolygiadau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, yn sgil pandemig COVID-19, mae'r galw am hyblygrwydd yn ein gweithlu wedi cynyddu'n sylweddol. Roedd gweithio o gartref, gweithio'n wahanol ac ymateb yn gyflym i flaenoriaethau newidiol oll yn heriau drwy gydol y flwyddyn.

Rydym wedi bod yn ymrwymedig i ddefnyddio dull hyblyg o ran y ffordd y mae ein staff yn gweithio, gan eu helpu i ymgymryd â'u rolau mewn ffordd ddiogel ac effeithlon er mwyn cefnogi eu llesiant.

Gwnaethom gyflwyno polisi llesiant i gefnogi'r staff yn ystod y pandemig, yn ogystal â model adnoddau hyblyg er mwyn addasu'n gyflym i flaenoriaethau newidiol. Datblygwyd rhaglen o sesiynau hyfforddiant rheolaidd i'n staff a'n hadolygwyr, ac i staff mewn adrannau eraill o'r llywodraeth, ar faterion yn ymwneud â COVID-19 gan gynnwys rheoli heintiau lefel 1, cydnerthedd, dadfriffio a PPE a chawsom adborth cadarnhaol.



[15] Arolwg Rhanddeiliad AGIC Mehefin 2021

"[17]Roeddwn am ysgrifennu atoch a diolch yn bersonol am yr hyfforddiant a gawsom. Rwyf wedi bod yn nerfus iawn ynghylch mynd allan a dal COVID-19 a nawr gallaf wneud fy ngwaith yn hyderus. Gan nad wyf yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ni fu'n rhaid i fi feddwl am heintiau erioed o'r blaen felly roedd yr hyfforddiant yn amhrisiadwy. Roedd yn hawdd ei ddeall ac ar y lefel gywir. Diolch am eich cefnogaeth a'ch caredigrwydd."

Mewn arolwg [18]staff diweddar, roedd 88% o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod wedi cael yr offer angenrheidiol i weithio gartref ac roedd pob aelod o'r staff yn teimlo y gallent weithio o bell yn effeithiol, ond y bu hynny'n heriol ar brydiau. Dywedodd 90% o'r staff eu bod wedi gallu cadw mewn cysylltiad â'u cydweithwyr tra roeddent yn gweithio gartref ac roedd dros 95% o'r ymatebwyr yn teimlo fod penderfyniadau wedi cael eu gwneud a'u cyfleu mewn modd amserol yn ystod y pandemig.

Rydym wedi datblygu'n gyflym fel sefydliad i gyflwyno dull wedi'i addasu o ymgymryd â threfniadau sicrwydd ac arolygu er mwyn gwneud yn siŵr y gallem barhau i gyflawni ein rôl yn ystod y pandemig mewn ffordd gymesur a phriodol o ystyried y modelau gweithredu diwygiedig, y cyfyngiadau a phwysigrwydd sicrhau diogelwch ein staff. Rhoddodd lleoliadau gofal iechyd adborth cadarnhaol ar ein dull gweithredu; fodd bynnag, gwnaed awgrymiadau clir o ran sut y gallem wella, a byddwn yn ystyried y rhain wrth lunio ein cynlluniau yn y dyfodol.



[17] Adborth gan adran o Lywodraeth Cymru
[18] Arolwg Staff AGIC, Hydref 2020

"Roedd yn brawf tymheredd a roddodd sicrwydd i ni a ffocws ar gyfer ein prosesau yn ystod y pandemig. Roedd yr adnodd hunanasesu yn hawdd ei ddefnyddio a chafodd yr adolygiad ei hun ei reoli'n dda a'i seilio ar wybodaeth." "



"Ceisio adborth ar ôl arolygiadau."





"Roedd y prosesau cyfathrebu â'r tîm yn drefnus iawn ac yn cyfleu llawer o wybodaeth. Rydym yn gwerthfawrogi bod y Gwiriadau Ansawdd ar waith er mwyn sicrhau bod y practisau yn dilyn canllawiau'r meysydd allweddol."

"Mae'n hanfodol sicrhau y caiff y ffyrdd newydd o weithio eu cadw, yn enwedig yn ystod y pandemig, gan fanteisio i'r eithaf ar yr opsiynau ymgysylltu a gynigir gan dechnoleg. Sicrhau rhaglen sefydlu a hyfforddi briodol i recriwtiaid newydd a sicrhau bod staff sy'n gweithio mewn practisau yn gallu cefnogi arolygiadau."



# Geirfa Llywodraethu AGIC

## Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

### Grwp yr Uwch Arweinwyr

Mae'r Grwp hwn yn goruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol AGIC a hwn yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau gweithredol ar ein cyfer.

### Grwp Busnes

Mae'r Grwp Busnes yn monitro gweithgarwch ym mhob rhan o AGIC, ac wedyn caiff y wybodaeth hon ei rhaeadru i'r staff yn syth ar ôl y cyfarfod.

### Pwyllgor Cyllid a Chynllunio'r Gweithlu

Mae'r Pwyllgor hwn yn ystyried ceisiadau gan yr holl staff am adnoddau / hyfforddiant / cynadleddau. Mae'r Pwyllgor yn ystyried y ceisiadau hyn, gan edrych i weld faint o gyllideb sydd ar gael a pha mor berthnasol ydynt i rôl yr unigolyn/tîm.

### Pwyllgor Risg ac Uwchgyfeirio

Y Pwyllgor hwn yw'r grwp sy'n cymryd camau i sicrhau y caiff rhaglen AGIC o weithgareddau ei chyflawni cystal â phosibl, ac yn uwchgyfeirio unrhyw argymhellion / penderfyniadau sy'n gofyn am newid proses at Grwp yr Uwch Arweinwyr.

## Cynghori a gwneud argymhellion

### Panel Newid Methodoleg

Prif rôl y Panel hwn yw creu methodoleg newydd, newid adnoddau/gweithlyfrau sydd eisoes yn bodoli a datblygu canllawiau / gwybodaeth ategol.

### Panel Dylunio Digidol

Mae'r Panel hwn yn trafod ac yn cymeradwyo/gwrthod/gohirio unrhyw ddogfennau gofynion busnes newydd, dogfennau ffurfweddu / manylebau gweithredol a dogfennau Bwrdd Cynghori ar Newid sydd wedi cael eu cyflwyno. Mae hefyd yn cadw golwg ar hynt ceisiadau cyfredol am newidiadau ac yn blaenoriaethu'n unol â hynny.

### Fforwm y Bobl

Prif dasgau'r Fforwm yw trafod materion yn ymwneud â'r staff, datblygu a rheoli camau gweithredu, a chynnig cyswllt rhwng y staff a Grwp yr Uwch Arweinwyr.

### Bwrdd Llywio Adolygiadau

Prif rôl y Bwrdd yw monitro'r ffordd y caiff adolygiadau cyfredol eu cyflawni, ystyried cynigion a gwneud argymhellion ar gyfer ymchwiliadau pellach gan AGIC, gan gynnwys adolygiadau cenedlaethol a lleol.

## Ymgysylltu â'r staff a sefydliadau allanol

### Grwpiau Cyfeirio Rhanddeiliaid

Mae'r grwpiau hyn yn dwyn cynrychiolwyr o'r sector ynghyd i'n herio mewn ffordd adeiladol ynglyn â'n gwaith ym meysydd meddygon teulu, deintyddfeydd ac iechyd meddwl.

### Rheolwyr cydberthnasau

Rheolwyr cydberthnasau yw'r pwynt cyswllt cyntaf i staff HIW a byrddau / ymddiriedolaethau iechyd. Maent hefyd yn arwain y gwaith o bennu'r gweithgarwch arolygu a sicrwydd o fewn pob bwrdd iechyd penodol.

### Cyfarfodydd pryderon / hysbysiadau

Y nod yw monitro / uwchgyfeirio unrhyw bryderon neu hysbysiadau y mae angen gweithredu arnynt.

### Cyfarfodydd Penaethiaid Cangen

Y nod yw gwella arferion gwaith a gwybodaeth rhannu ar draws pob maes o AGIC.

### Cyfarfodydd Tîm

Mae pob tîm yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd sydd fel arfer yn dilyn y cyfarfod Grwp yr Uwch Arweinwyr i alluogi Pennaeth y Gangen i ddiweddaru staff ar unrhyw gamau sy'n codi o'r cyfarfod.

### Fforwm y Bobl

Prif dasgau'r Fforwm yw trafod materion yn ymwneud â'r staff, datblygu a rheoli camau gweithredu, a chynnig cyswllt rhwng y staff a Grwp yr Uwch Arweinwyr. Caiff unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar yr holl staff eu trafod yn y Fforwm yn gyntaf, er mwyn sicrhau bod y dull yn gadarn (e.e. cynllun dysgu a datblygu blynyddol, unrhyw newidiadau TGCh, diweddariadau i ddogfennau proses).

### Cynadleddau Staff

Caiff cynadleddau staff eu cynnal yn ôl yr angen, ddwywaith y flwyddyn fel arfer. Mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff fynychu'r rhain er mwyn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud ag AGIC drwyddi draw.

### Cyfarfodydd grwpiau Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Y prif nod yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau ym mhob un o feysydd y Grwpiau Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus a rhannu negeseuon allweddol. Mae ein Prif Weithredwr yn cynrychioli AGIC.

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais.

Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:
Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

0300 062 8163

agic@llyw.cymru

www.agic.org.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English

© Crown copyright 2020 WG43457 ISBN: 978-1-80195-943-8